Yn 2007, cafwyd diffiniadau newydd sy'n gosod ysgolion Cymru mewn categorïau ieithyddol sy'n cael eu dylanwadu gan y cwricwlwm, iaith yr ysgol a chanlyniadau'r plant sy'n mynychu (Llywodraeth Cymru, 2007). Mae pum categori (gweler Jones, 2010) a'r bwriad yw i "wella'r broses o drosglwyddo gwybodaeth glir i rieni a gofalwyr ynghylch darpariaeth ieithyddol ac ethos ysgolion" (Llywodraeth Cymru, tud. 2, 2007).

I grynhoi felly, mae'r sefyllfa ieithyddol yn ysgolion Cymru, ac yn rhyngwladol, yn un cymhleth. Ceir nifer o labeli gwahanol i ddiffinio addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae'r ffin rhwng 'addysg ddwyieithog' a 'dysgu ail iaith' yn gallu bod yn amwys.

Defnydd o'r Gymraeg yn y dosbarth

Mae'r her i athrawon wrth ddefnyddio'r iaith yn enfawr, gan fod ystod amrywiol o ddisgyblion o wahanol gefndiroedd iaith yn mynychu'r un ysgol (Lewis, 2008; Jones, 2010). Er bod rhai ysgolion (megis y rhai yn yr ymchwil presennol) yn cael eu categoreiddio fel

ysgolion cyfrwng Cymraeg, ble mae o leiaf 70% o'r cwricwlwm yn y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar gan arwain at ddarpariaeth 50-50 erbyn diwedd y cyfnod, mae'r sefyllfa ieithyddol yn y dosbarth yn gallu amrywio o un dosbarth ac o un flwyddyn i'r llall, yn ddibynnol ar gefndir ieithyddol y plant (Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, 2010). Mae Jones (2010) yn datgan mai "y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu mewn dwy iaith yw dwyieithrwydd" (Jones, tud.19, 2010), a dyma, yn y bôn, yr union nodweddion y mae'r athro mewn ysgol gyfrwng Gymraeg yn anelu ato yn ei ddisgyblion. Ond nid oes modd datgan yn union pa fath o drywydd sy'n cael ei ddilyn gan i nifer o ffactorau ddylanwadu ar ba fath o fewnbwn sydd ar gael ar gyfer darpariaeth drwy'r ddwy iaith, megis cyfansoddiad y dosbarth, agweddau'r disgyblion, ardal ddaearyddol ac ieithyddol yr ysgol, a pholisïau'r awdurdod lleol (Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, 2010; Roberts a Thomas, 2011; Morris, 2010).

Mae Hickey (2007) yn pwysleisio sefyllfa debyg yn Iwerddon gyda phlant sy'n mynychu addysg ddwyieithog drwy'r Saesneg a'r Wyddeleg. Mae addysg drwy'r Wyddeleg yn opsiwn ar gyfer plant ysgol gynradd yn Iwerddon, ac mae'n rhaid i bob plentyn astudio'r Wyddeleg fel pwnc hyd at gymhwyster TGAU (Kennedy, 2012; Romaine, 2006; Garland, 2008). Wrth drafod datblygiad ieithyddol y plant hyn o fewn yr un dosbarth, mae hi'n datgan fod nifer o ffactorau sy'n pennu gwir ddefnydd iaith y dosbarth. Mae agwedd y plant tuag at y Saesneg yn ddylanwad mawr. Po fwyaf yw'r gred fod y Saesneg yn iaith bwysicach, y mwyaf tebygol y meant i ddewis newid i siarad Saesneg pan fo cyfle. Mae Hickey (2007) hefyd yn datgan fod arferion yr athrawon ynglŷn â gwrthod y syniad o rannu dosbarthiadau i fyny yn ddwy ffrwd yn peri gofid. Mae hi'n bryderus na fydd y Wyddeleg yn gallu ffynnu os yw'r plant o gartrefi ble siaradir yr iaith leiafrifol hon yn cael eu denu i siarad Saesneg gyda'u cyfoedion yn y dosbarth. Mae hyn hefyd yn wir yng Nghymru (Roberts a Thomas, 2011; Thomas, Lewis ac Apolloni, 2012). Mae'r ymchwil yn pwysleisio pwysigrwydd adnabod anghenion ieithyddol arbennig plant o gefndiroedd ieithoedd lleiafrifol cyn cychwyn darparu addysg iddynt. Dengys yr ymchwil fod y sefyllfa ar hyn o bryd yn un flêr, gan nad oes cynllunio, maes llafur na methodoleg ar gyfer datblygu sgiliau iaith leiafrifol (Hickey, 2007).

Dengys ymchwil Hickey (2007) fod athrawon yn credu mewn dull integreiddiol ar gyfer holl blant y dosbarth. Maent, fel nifer o addysgwyr eraill ar draws y byd (García, 2009; Baker, 2010; Feng *et al*, 2009) yn credu bod manteision i gynnwys plant o gartrefi ble siaradir iaith leiafrifol gyda phlant o gartrefi ble siaradir iaith fwyafrifol. Yn wir, dyma yw'r penbleth yng Nghymru (Lewis, 2008). Ond nid yw Hickey (2007) yn credu fod trin addysg ddwyieithog fel hyn yn gwneud unrhyw les i sefyllfa'r iaith leiafrifol, tu fewn a thu allan i'r dosbarth: "The short-term aim of providing happy and effective experiences of Irish medium

preschooling needs to be linked more explicitly with the long-term goal of consolidating the use of Irish as a community language" (Hickey, tud. 62, 2007). Pwysleisia'r erthygl fod angen gwneud mwy i sicrhau fod strategaethau ar gael ar gyfer creu sefyllfa ieithyddol sy'n datblygu sgiliau iaith y dosbarth cyfan yn y ddwy iaith, ond fel mae ymchwil wedi dangos yn y gorffennol mae canlyniad sefyllfa o'r fath yn gallu bod yn gymysglyd (Howard *et al*, 2003).

Yng Nghymru, mae Jones (2010) yn datgan fod "athrawon yn wynebu amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ac anghenion ieithyddol yn eu dosbarthiadau, ac mae'r goblygiadau hyn yn sylweddol o safbwynt dulliau addysgu gwahanol ar gyfer disgyblion Cymraeg Iaith 1 ac iaith 2" (Jones, tud.12, 2010). Yn ôl Lewis (tud. 30, 2006) y cwestiwn amlwg mewn addysg cyfrwng Cymraeg heddiw yw: "Is it possible to provide L2 immersion education to children from non-Welsh backgrounds while at the same time maintaining and enriching the education of L1 native Welsh-speakers through the medium of their mother tongue?"

Bydd yr ymchwil presennol yn ceisio pennu os oes manteision penodol i addysg cyfrwng Cymraeg ac felly mae materion fel hyn yn plethu'n glos gyda'r prosiect. Mae polisïau iaith ac addysg y sir yn chwarae rhan fawr yn sut mae'r athrawon yn ymateb i blant o gefndiroedd ieithyddol gwahanol, ond y consensws cyffredinol yw bod y cwricwlwm yn cael ei ddarparu drwy'r Gymraeg ac y bydd y plant yn datblygu eu rhuglder yn y Gymraeg drwy gydol eu hamser yn y dosbarth (B. Jones, 2006).

Ceir dadl bod cymysgu dosbarth o siaradwyr I1 a I2 yn y cyd-destun Cymraeg yn fanteisiol oherwydd y dylanwad da mae'r siaradwyr brodorol yn cael ar y siaradwyr I2 o ran dysgu rhinweddau'r Gymraeg (Jones, 2010). Ond, fel y nodwyd am sefyllfa'r Wyddeleg uchod, mae rhai hefyd yn ofni y bydd y siaradwyr I2 yn dylanwadu ar ansawdd ieithyddol y siaradwyr Cymraeg brodorol gan arwain iddynt siarad yn Saesneg yn fwy aml (Lewis, 2006). Mae Lewis (2006) yn mynegi fod angen edrych ar ba mor gytbwys yw'r dosbarth, ac ai'r iaith leiafrifol neu'r iaith fwyafrifol sydd â mwy o ddylanwad yn y dosbarth. Trafoda Baker (2010) y mater ymhellach wrth ddyfynnu o waith Lewis (tud. 76, 2004) "the language balance of the class is often an important factor in a language- seperation decision" a mynd ymlaen i ddatgan "when the balance is tiled against language minority children, a clear separation with the curriculum balance towards the minority language may be desirable". Yn y pen draw, mae sgiliau iaith y plant, yn I1 ac yn I2, yn cael ei ddylanwadu gan y patrymau hyn.

Ym mhennod Baker (2010), mae trafodaeth am ddefnyddio'r ddwy iaith gyda'i gilydd ar gyfer addysgu gan i Jacobson (tud.72, 1983) awgrymu fod yr "integrated use of both languages rather than language separation" yn gallu bod yn fanteisiol yn addysgol. Ond nid

oes digon o ymchwil ar hyn yng Nghymru (Baker, 2010) er mai efallai dyma sydd angen gan fod siaradwyr I1 ac I2 gyda'i gilydd mewn dosbarth cyfrwng Cymraeg yn creu amrywiaethau newydd o'r Gymraeg: "they may be leading the development of certain innovations in the spoken language" (Thomas, 1991 yn Lewis, tud. 29, 2006). Bydd yr ymchwil presennol yn trafod polisïau presennol Llywodraeth Cymru (a'r siroedd unigol sy'n ymwneud a'r prosiect) ynglŷn â darpariaeth y Gymraeg o fewn y dosbarth ac yn cynnig goblygiadau ar gyfer y dyfodol yn ddibynnol ar y canlyniadau. Un agwedd sy'n dod yn fwy a mwy perthnasol i addysg cyfrwng Cymraeg o fewn dosbarthiadau Cymru yw trawsieithu; fe drafodir hyn isod gan fod goblygiadau polisïol cryf yng nghlwm a'r cysyniad, ac effaith techneg o'r fath ar sgiliau ieithyddol a gwybyddol plant dwyieithog sy'n berthnasol i'r prosiect ymchwil presennol.

Trawsieithu

Mae gwreiddyn y term 'trawsieithu' yn dod o ddisgrifiad Cen Williams o ymarfer addysgeg ble mae iaith y dosbarth yn cyfnewid, er enghraifft ble mae'r darllen yn digwydd mewn un iaith, a'r ysgrifennu mewn iaith arall. Diffiniai Baker (2001) trawsieithu fel trefniant sy'n normaleiddio dwyieithrwydd heb wahaniad ymarferol. Cymer García (2009) hyn i olygu bod trawsieithu yn ymarferion mynegiant mae unigolion dwyieithog yn ymwneud â nhw er mwyn gwneud synnwyr o'u geirfa ddwyieithog. Mae'r pwnc yn cael ei drafod mewn nifer o gyd-destunau gwahanol gan García, er enghraifft yr angen sydd yna gan blant i drawsieithu o iaith gweithgareddau'r dosbarth i iaith y cartref ar gyfer eu rhieni pan nad yw'r rhieni yn siarad yr iaith fwyafrifol (García, 2009).

Mae Cen Williams (2002) yn gweld trawsieithu fel cysyniad manteisiol i addysg cyfrwng Cymraeg. Iddo ef, trawsieithu ydy pan mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r dosbarth mewn un iaith, ac mae datblygiad y gwaith (h.y. y drafodaeth, neu'r darn ysgrifenedig ayyb) yn cael ei gyflawni mewn iaith arall. Credai fod y sgil hon yn magu manteision ar gyfer llwyddiant mewn addysg cyfrwng Cymraeg wrth i'r myfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r pwnc. Mae'r disgybl hefyd yn datblygu cymhwysedd yn ei iaith wannaf, mae cydweithrediad rhwng yr ysgol a'r cartref, ac mae siaradwyr rhugl yn cael eu hintegreiddio gyda siaradwyr cychwynnol.

Un cwestiwn sydd wrth wraidd addysg cyfrwng Cymraeg yw a ddylai ieithoedd gael eu cadw ar wahân o fewn cyd-destun addysgol? Mae Jacobson a Faltis (1990 yn García, 2009) yn awgrymu mai'r rhesymeg tu ôl i hyn ydy fod yr athro yn osgoi cymysgu'r ddwy iaith fel bod y plentyn yn ei chael hi'n haws i ddatblygu system ieithyddol newydd wrth

fewnoli gwers. Credai nifer o ymchwilwyr bod cadw'r ieithoedd ar wahân yn helpu'r plentyn yn y ffordd hon. Er enghraifft, wrth edrych ar system addysg drochi America, gwelwn eu bod nhw'n cael cyfnodau o addysg ble ceir dim ond un iaith yn y dosbarth, heb drawsieithu na chymysgu ieithoedd (e.e., systemau addysg ddeuol - "two way programmes") (García, 2009; Baker, 2011).

Gellir dadlau bod pob unigolyn yn dysgu sut i fod yn ddwyieithog mewn ffordd unigol ac mae natur ieithyddol eu haddysgu felly yn berthnasol i hyn (Heller, 1999 yn García, 2009). Er enghraifft, efallai y caiff un unigolyn fanteision addysgol o addysg ble mae'r ddwy iaith yn cael eu cadw ar wahân, ond fod un arall ddim yn profi'r un manteision gan fod ei agwedd at ddwyieithrwydd yn wahanol.

Dangosodd Shin (2005 yn Creese a Blackledge, 2010) nad oedd cyfnewid còd yn rhywbeth oedd yn rhan o'r addysgeg, ond yn hytrach yn rhywbeth oedd yn ymateb pragmatig i gyd-destun y dosbarth ac yn rhan o fywyd pob dydd unigolion dwyieithog ac mae'r cysyniad hwn yn cyd-fynd gyda'r syniadaeth gyfredol ynglŷn â thrawsieithu ynghyd a'r hyn sy'n digwydd mewn nifer o ddosbarthiadau yng Nghymru ar hyn o bryd (Roberts a Thomas, 2011).

Yn rhyngwladol, mae myfyrwyr dosbarth yn Hong Kong yn ymateb i'r sefyllfa economaidd- gymdeithasol wrth ymgorffori Saesneg mewn i'r dosbarth. Mae hyn oherwydd bod nifer o unigolion yn dod o gartrefi difreintiedig ble nad ydy'r Saesneg yn cael ei siarad, ac felly maent yn manteisio ar y cyfle i siarad Saesneg yn y dosbarth (Shin, 2005 yn Creese a Blackledge, 2010). Mae nifer o ymchwilwyr yn honni fod trawsieithu o fewn y dosbarth yn cynnig ymarferion saff, pragmatig a chreadigol i'r myfyrwyr wrth iddynt ddefnyddio iaith swyddogol y wers, a'r iaith sy'n haws gan y myfyrwyr ei defnyddio. Mae Arthur a Martin (2006 yn Creese a Blackledge, 2010) yn honni fod trawsieithu o fewn y dosbarth yn galluogi'r myfyrwyr gyflawni'r wers yn well, wrth allu ymateb mewn ffordd bragmatig a defnyddio'r testun yn fanteisiol. Mae yna hefyd dystiolaeth fod trawsieithu yn manteisio sgiliau gwybyddol plant dwyieithog gan i'r dechneg annog y plant i reoli dwy iaith ar y cyd (García, 2009) sy'n plethu'n glos â'r ymchwil presennol.

Mae angen cydnabod mater ystlys gydag ymchwil ynglŷn â defnydd iaith yn y dosbarth, a hynny yw bod prinder athrawon sy'n gymwysedig yn nwy iaith y dosbarth, ac mae'r sefyllfa yn cael ei gymhlethu gan y nifer eang o ieithoedd cartref sydd i'w darganfod mewn nifer o ddosbarthiadau yn rhanbarthol, cenedlaethol ac yn rhyngwladol (Hill, 2010; Creese a Blackledge, 2010). Mae'r sefyllfa yn un wahanol yng Nghymru wrth ystyried addysg

cyfrwng Cymraeg, gan fod pawb sy'n rhugl yn y Gymraeg hefyd yn gallu'r Saesneg, ond mae'n bwysig cydnabod yr amrywiaeth mewn gallu ar gyfer athrawon mewn sefyllfaoedd addysg cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg a pha effaith y gall hyn ei gael ar ddeilliannau dwyieithrwydd y plant.

Mae trawsieithu felly yn sgil hynod o bwerus er mwyn deall a chynnwys eraill ar draws grwpiau ieithyddol, ac felly mae hi'n bwysig i addysgwyr a myfyrwyr sylweddoli pwysigrwydd trawsieithu (García a Sylvan, 2011; Lewis, Jones a Baker, 2012). Dywedai García (2009) ei bod hi'n siom fod unigolion dwyieithog sydd yn trawsieithu yn cael eu cywilyddio i beidio gwneud yn y dosbarth, ac yn fwy aml na dim, mae'r unigolion yma wedyn yn troi at eu hiaith fwyafrifol yn lle ffynnu'n ddwyieithog. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod athrawon yn cuddio'r ffaith eu bod nhw'n trawsieithu yn y dosbarth gan mai'r unig ffordd "dda" o addysgu plant ydy yn uniaith. Ond mae'n rhaid ymgorffori trawsieithu o fewn addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn dysgu eu dosbarth yn effeithiol, fel mae Einar Haugen (1972 yn García, 2009) yn pwysleisio: "It's better to bend than break", a chredai García bod hyn yn rhywbeth pwysig iawn ym myd addysg cyfrwng dwyieithog yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae materion fel hyn yn berthnasol ar gyfer y gwaith ymchwil presennol gan i'r ymchwil geisio adnabod manteision amlygiad cyson i ddwy iaith ar sgiliau iaith a gwybyddol plant.

Agweddau: Plant, athrawon a rhieni

Fel y trafodir ymhellach ymlaen yn yr ymchwil presennol, mae agweddau tuag at ddysgu iaith yn rhywbeth annatod o ddatblygiad ieithyddol unigolyn, boed hynny yn agwedd yr unigolyn ei hun, eu cylch teulu a ffrindiau, eu hathrawon, neu unrhyw agwedd arall o fywyd; mae agwedd tuag at iaith leiafrifol yn elfen hynod o bwysig wrth bennu defnydd yr unigolyn hwnnw o'r iaith o dan sylw (Mukhuba, 2005; Baker, 2011; Baker a Prys- Jones, 1998). Mae athrawon yn chwarae rhan fawr yn natblygiad ieithyddol eu dosbarth, ac mae eu hagweddau nhw, ynghyd â'u dadansoddiad o bolisïau'r Cynulliad a gofynion eu hawdurdod lleol yn gallu bod yn faich ar eu dylanwad ar ddefnydd iaith leiafrifol o fewn y dosbarth (Baker, 2001).

Mewn dosbarthiadau cyfrwng iaith leiafrifol, diau fod athrawon yn annog plant ifanc iawn (4 oed) i ddefnyddio'r Saesneg i gychwyn mewn dosbarthiadau os ydyn nhw'n dod o gefndir ieithyddol di- Gymraeg, ond bwriad yr athro yn y pen draw yw bod y plentyn yn cael ei drochi yn y Gymraeg fel bod y dosbarth yn datblygu i fod yn gwbl rugl yn y Gymraeg (Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, 2010). Credai Lindholm (1990) mai cael cymhareb o

50:50 yw'r ffordd orau o gael cydbwysedd o fewn y dosbarth rhwng manteision i'r siaradwyr I2 a'r anfanteision i'r siaradwyr I1. Mae'r ffordd mae athrawon yn holi, esbonio ac ymateb, yn ôl Ramirez a Merino (1990) yn newid yn ddibynnol ar adeiladwaith ieithyddol eu dosbarth: "teachers ask fewer questions when children are in mixed-language groups than when they are grouped according to language" (tud. 12 yn Osmond, 2008). Maen nhw'n datgan hefyd bod athrawon yn symleiddio eu hymatebion ac yn rhoi llai o adborth yn y sefyllfaoedd hyn ac mae hyn yn achosi pryder ynglŷn â datblygiad ieithyddol y siaradwyr brodorol sydd yn y dosbarth (Valdés, 1998). Mae hyn yn gallu dylanwadu ar sgiliau ieithyddol y plant, ac, o ganlyniad, ar y math o siaradwr dwyieithog y mae'n datblygu i fod.

Llwyddiant addysg Gymraeg

Yn ôl nifer o ymchwilwyr ac athrawon, mae addysg cyfrwng Cymraeg yn gweithio (C. Jones, 2006; Baker, 2011; Williams, 2010). Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn gweithio'n dda mewn ardaloedd ble mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg oherwydd bod adeiladwaith yr ysgol yn debyg iawn i adeiladwaith ieithyddol y lleoliad e.e. Gwynedd a Môn, ble lleolwyd yr ymchwil presennol (Jones a Martin-Jones, 2004). Mewn ardaloedd ble mae'r canran o siaradwyr di- Gymraeg yn uchel, mae technegau megis trawsieithu yn y dosbarth yn ffordd o hybu'r defnydd o Gymraeg (Roberts a Thomas, 2011; Jones a Martin-Jones, 2004, Baker, 2010; C. Williams, 2002). Mae trawsieithu yn strategaeth sy'n gadael i'r holl ddosbarth ddatblygu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn effeithiol. Mae'n "ffordd naturiol o ddatblygu a chryfhau'r ddwy iaith gyda'i gilydd wrth ddyfnhau'r ddealltwriaeth bynciol yr un pryd" (C. Williams, tud. 40, 2002), ac yn rhoi cyfle i'r plant orfod rheoli eu sylw o un iaith i'r llall (gweler pwysigrwydd hyn ym mhennod 2).

Thema bwysig arall sydd angen ei chrybwyll ynglŷn â hybu'r Gymraeg yn y dosbarth yw hyder. Er bod nifer o blant yn pasio asesiadau yn y Gymraeg yn ddi- ffwdan, maent yn canfod eu gallu yn yr iaith yn wan (Williams, 2002 yn Roberts a Thomas, 2011). Gall hyn fod oherwydd eu diffyg profiad wrth ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd mwy naturiol tu allan i giatiau'r ysgol. Ond, gan fod cymysgedd o gefndiroedd ieithyddol o fewn yr un dosbarth mewn addysg cyfrwng Cymraeg, mae modd hybu'r iaith a defnyddio'r siaradwyr brodorol fel esiamplau o hyder wrth ddefnyddio'r iaith (Lewis, 2006). O ran defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd tu allan i'r ysgol i gymharu â'r defnydd yn y dosbarth, mae Roberts a Thomas (tud. 101, 2011) yn datgan "many children from English- speaking homes lack the necessary confidence in using Welsh, which is a cause for concern". Ond, gan fod darlun iach o addysg cyfrwng Cymraeg wedi ei bortreadu dros yr ugain mlynedd diwethaf, calonogol yw'r

canlyniadau o safbwynt polisi gan i Roberts a Thomas (2011) ddatgan fod digonedd o gyfleoedd i blant I2 gael eu trochi yn y Gymraeg o fewn y dosbarth.

Mae angen cadw mewn golwg fod nifer o ffactorau yn dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y dosbarth, megis cefndir ieithyddol y plentyn, lleoliad yr ysgol mewn perthynas â'r nifer o siaradwyr Cymraeg a chyfleoedd i'r plant siarad yr iaith mewn cylchoedd cymdeithasol. Yn gyffredinol, mater sydd angen mwy o ymchwil ydy'r ffactorau uchod ynglŷn â defnydd iaith yn y dosbarth (Baker, 2010; Roberts a Thomas, 2011; Lewis, 2006). Mae'r ymchwil presennol yn pwysleisio'r angen i ddeall ym mhle mae gwahaniaethau a nodweddion sy'n debyg rhwng plant o wahanol gefndiroedd ieithyddol, yn wybyddol ac ieithyddol er mwyn gallu rhoi'r cyfle mwyaf teg i bawb lwyddo o fewn y dosbarth cyfrwng Cymraeg.

Rôl y Rhieni

Fel y trafodwyd yn gynharach, mae nifer o ffactorau'n cyfrannu at effeithiolrwydd addysg cyfrwng Gymraeg, ac un o'r ffactorau amlycaf yw dewis y rhieni i anfon eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg yn y lle cyntaf ('Iaith Fyw, Iaith Byw', 2012; Jones a Morris, 2007; Gathercole *et al.*, 2007). Fel sydd eisoes wedi ei grybwyll, mae addysg cyfrwng Cymraeg yn orfodol yng Ngwynedd a Môn, ble lleolwyd plant dwyieithog yr ymchwil presennol. Ond mae'r nifer o rieni sy'n dewis anfon eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg mewn siroedd ble mae'r dewis ar gael yn cynyddu ac felly mae'n bwysig ystyried eu rôl mewn perthnasedd â llwyddiant addysg gyfrwng Gymraeg (Ystadegau Llywodraeth Cymru, 2007).

Yng Nghymru (Davies, 1993; H. Thomas, 2010) ac yn fyd eang (García, 2009; de Guchteneire, 2002), mae rôl y rhieni yn un pwysig iawn yn hanesyddol gan mai nhw fu'n gyfrifol am drawsnewid addysg ieithoedd lleiafrifol drwy gymryd cyfrifoldeb am addysg eu plant. Er mai prin yw'r gwaith ymchwil ynglŷn â rhesymeg rhieni dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, mae ymchwil gan Hodges (2011) wedi amlygu rhai o resymau rhieni Cwm Rhymni. Y prif reswm dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg oedd ar gyfer magu ymdeimlad o berthyn diwylliannol. Ni fu'n bosib iddyn nhw fanteisio ar addysg Gymraeg pan yn ifanc, ac felly roedd eu hangerdd tuag at roi'r cyfle i'w plant fanteisio ar rywbeth na chawson nhw mo'r cyfle i'w brofi yn un cryf iawn (Hodges, 2011).

Roedd rhesymau addysgol hefyd yn flaenllaw i rieni Cwm Rhymni wrth ystyried anfon eu plant i ysgol cyfrwng Gymraeg. Amlygwyd tair thema o bwys, sef llwyddiant academaidd uchel yr ysgol, enw- da, a darpariaeth addysgol oedd ddim yn annhebyg i'r hyn a geir mewn ysgol breifat. Cafodd yr ysgolion eu canmol yn uchel gan y rhieni am ddarparu

profiad mwy personol ac am roi cyfleoedd academaidd a gweithgareddau allgyrsiol i'r plant (Hodges, 2011).

Roedd rhesymau economaidd yn effeithio ar bwysigrwydd dysgu'r iaith er mwyn cael manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth i siaradwyr Cymraeg ac yn gweld dyfodol eu plant yng Nghymru, felly roedd gwybod yr iaith yn elfen bwysig er mwyn i'w plant gael y cyfle gorau posib, ond fel mae ei hymchwil yn dangos, nid dyma'r prif reswm erbyn heddiw (Hodges, 2011).

Mae dogfennaeth Llywodraeth Cymru yn pwysleisio fod angen creu cyfleoedd i boblogaeth y wlad allu dod yn gwbl ddwyieithog ('Iaith Pawb', 2003; 'Iaith Fyw, Iaith Byw', 2012) ac mae barn rhieni Cwm Rhymni yn cyd-fynd â'r weledigaeth hon. Mae 'Iaith Pawb' (2003) hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw fod cymunedau yn gweithio gyda'r llywodraeth er mwyn cyrraedd y nod hon.

Dangosodd casgliadau Roberts a Thomas (2011) bod cefndir ieithyddol y plentyn yn dylanwadu ar eu defnydd ieithyddol o fewn yr ysgol ynghyd â thu allan i'r ysgol a bod angen rhoi mwy o gyfleoedd i blant allu defnyddio'r iaith mewn cyd destunau cymdeithasol. Mae rôl rhieni felly yn hollbwysig o ran hyrwyddiad yr iaith Gymraeg yn y cartref er mwyn gweld llwyddiant ieithyddol yn yr ysgol – ac fe fydd hyn yn cael ei ystyried yn y gwaith ymchwil presennol.

Crynodeb

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i lwyddo. Heb gefnogaeth y rhieni ac ymdrechion yr athrawon, pitw fyddai bodolaeth yr iaith mewn addysg, heb sôn am ar y strydoedd. Felly, fe welwn fod addysg Gymraeg wedi dod yn bell ers ei chychwyn gostyngedig, ond mae nifer o sialensiau yn dal yn ei disgwyl. Mae angen bod yn ymwybodol o'r amrywiaeth rhwng lleoliadau, poblogaethau, a pholisïau Cymru gyfan: "Welsh meduium education in Blaenau Gwent is very different to that seen in Gwynedd. There's no 'one size fits all' approach and the ratio of learners from Welsh- speaking backgrounds will vary tremendously across Wales" (G. Lewis, 2010, dim tudalen). Mae 'Iaith Pawb' (2003) yn pwysleisio pa mor bwysig ydy hi i'r gymuned a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd er mwyn gweld parhad yn y cyfnod llewyrchus hwn yn hanes yr iaith.

Mae natur y siaradwyr dwyieithog sy'n datblygu o ganlyniad i addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu i raddau helaeth ar sut y maent yn derbyn eu haddysg. Nod y llywodraeth yw creu Cymru fwy dwyieithog, ac mae plant Cymru yn cael cyfle i wireddu hyn

wrth barhau i fanteisio o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg hefyd. Mae graddfa’r mewnbwn yn y ddwy iaith yn amlwg yn ddibynnol ar leoliad a pholisi'r ysgol maent yn mynychu, ond mae gan bob plentyn yng Nghymru'r potensial i elwa ar amryw fanteision o fedru’r Gymraeg, a thrwy hynny, o fod yn ddwyieithog. Mae gobaith felly i blant Cymru gael y cyfle i gael y gorau o’r ddau fyd gan iddynt allu ychwanegu iaith arall heb iddo fod yn amharu ar y cyntaf (Kennedy, 2012). Maent yn cael y cyfle i ddatblygu yn y Gymraeg, iaith arwyddocaol mewn agweddau economaidd, diwylliannol ac addysgol, ynghyd â pharhau i ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg ar gyfer gallu integreiddio yn lleol ac yn rhyngwladol. Trafodir dynodiad y manteision ieithyddol a gwybyddol hyn ymhellach ym Mhennod 2.

PENNOD 2

Trosolwg o'r llyfryddiaeth am ddwyieithrwydd a'i fanteision yn ieithyddol a gwybyddol.

Ymchwil Cynnar

Mae'r farn gyfredol am ddwyieithrwydd, a'r berthynas rhwng dwyieithrwydd a sgiliau gwybyddol, yn hollol wahanol o gymharu â'r farn a amlygwyd yn ystod y ganrif ddiwethaf. Mae hyn yn bennaf oherwydd newidiadau aruthrol o ran dulliau ymchwil addas, ac, o ganlyniad, trafodir yr ymchwil ar fanteision dwyieithrwydd mewn tri chyfnod sy'n adlewyrchu tair carfan gysyniadol: y garfan negyddol, y garfan niwtral, a'r garfan gadarnhaol (Baker, 2011).

Carfan Ymchwil Negyddol

Heblaw am ambell i astudiaeth achos ble nodwyd datblygiad ieithyddol plant dwyieithog yn fanwl iawn drwy ddull data dyddiadur (e.e., Leopold, 1949), bu i'r ymchwil cynnar ar ddwyieithrwydd ganolbwyntio ar sgiliau an-ieithyddol plant. Y consensws cyffredinol o'r ymchwil cynnar oedd bod perfformiad unigolion dwyieithog ar brofion deallusrwydd yn israddol o'i gymharu â pherfformiad unigolion uniaith ar yr un profion. Er nad oedd yr ymchwiliadau hyn wedi eu llunio at bwrpasau astudio dwyieithrwydd fel y cyfryw, ystyriwyd mai meddu ar ddwy iaith oedd i'w feio am ddiffygion y plant ar y profion (Hakuta a Diaz, 1985; Kroll, 2009). Roedd bod yn berchen ar y gallu i ddefnyddio dwy iaith (neu fwy) yn cael ei weld fel rhwystr yn hytrach na sgil (Baker a Prys- Jones, 1998; García, 2009; Crystal, 1998).

Fodd bynnag, roedd nifer o gyfyngiadau ar yr ymchwil cynnar ar ddwyieithrwydd oedd yn rhannol gyfrifol am y canlyniadau negyddol. Yn gyntaf, gosodwyd profion deallusrwydd i nifer o'r cyfranogwyr yn eu hiaith wannaf/ eu hail iaith (e.e. Saesneg) a hynny yn rhannol gan nad oedd nifer o'r profion ar gael mewn ieithoedd eraill, ac oherwydd syniadau gwleidyddol ynglŷn ag unieithrwydd a drafodwyd ym Mhennod 1. Amlygodd hyn anfantais i'r unigolion dwyieithog - patrwm a fyddai wedi gallu bod yn gwbl wahanol petai'r profion wedi cael eu gweinyddu yn iaith gyntaf y cyfranwyr (Hakuta a Diaz, 1985). Yn ail, roedd problemau gyda'r profion deallusrwydd eu hunain. Mae cryn ddadlau wedi bod ers degawdau ynglŷn ag union nodweddion y cysyniad o ddeallusrwydd, a, chan hynny, dadleuir a yw profion deallusrwydd yn darparu mesur teg a dilys i'w ddefnyddio o gwbl (Weiten, 2007). Yn drydydd, roedd patrwm canlyniadau'r profion deallusrwydd yn cael eu dylanwadu gan statws sosio- economaidd y plant, ac nid oedd hyn wedi ei reoli yn yr ymchwil. Er enghraifft, roedd nifer o'r plant dwyieithog yn tarddu o gefndir sosio- economaidd isel o'i gymharu â'r plant uniaith oedd yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd mwy cefnog (Bialystok, 1999); o ganlyniad, amlygwyd gwahaniaethau yn eu gallu deallusol nad oedd o reidrwydd â dim i'w wneud â dwyieithrwydd ei hun (Baker a Prys- Jones, 1998). Mae ymchwil diweddar

yn dangos fod statws sosio- economaidd yn bwysig iawn wrth astudio dwyieithrwydd gan fod cysylltiad cryf rhwng dwyieithrwydd a statws sosio- economaidd isel mewn gwledydd megis America (Bialystok 2009). Am y rhesymau hyn, mae'r ymchwil cynnar yn y maes yn annibynadwy (Cummins, 1976; Hakuta a Diaz, 1985; García, 2009).

Roedd cryn dipyn o ansicrwydd felly ynglŷn â rôl dwyieithrwydd mewn pennu lefelau deallusol yr unigolion, ond roedd y profion yn amlwg yn creu sefyllfaoedd profi annheg, ac yn amlygu meddylfryd negyddol gwleidyddol yr America am unigolion dwyieithog ar y pryd (Baker a Prys- Jones, 1998; Hakuta a Diaz, 1985). Er hynny, cafodd y canlyniadau negyddol hyn ddylanwad cryf ar farn unigolion am beryglon dwyieithrwydd - barn sydd wedi treiddio un genhedlaeth i'r llall, gyda nifer o rieni, ynghyd ag unigolion eraill, yn ansicr am addysgu eu plant yn ddwyieithog, a hynny yn rhannol oherwydd canlyniadau'r ymchwil cynnar negyddol.

Nid oes ond angen edrych ar achos y Dr Andrew Wakefield a honnodd bod perthynas rhwng y pigiad MMR ac awtistiaeth i weld effaith gwybodaeth negyddol ar farn unigolion. Er bod y canlyniadau hyn bellach wedi eu chwalu gydag ymchwil cadarn nad oes unrhyw gysylltiad rhwng y pigiad MMR ac awtistiaeth (Smith, Ellenberg, Bell a Rubin, 2008; Gerber a Offit, 2009), roedd y nifer o blant a gafodd eu himiwneiddio gan y pigiad wedi gostwng o 80% erbyn 2004 oherwydd pŵer y canlyniad negyddol (Godlee, Smith, a Marcovitch, 2011). Dyma dyst o sut y gall rhagdybiaethau unigolion gael eu heffeithio gan wybodaeth negyddol, a'r her o geisio gwrthdroi'r effaith.

Un o'r astudiaethau ar sgiliau ieithyddol plant dwyieithog wnaeth niwed mawr oedd ymchwil Madorah Smith (1949) yn America. Darganfu bod plant dwyieithog o Hawaii (oedd yn siarad amrywiaeth o ieithoedd fel ail iaith) yn perfformio'n waeth ar dasgau dealltwriaeth ieithyddol na grŵp uniaith Saesneg o Iowa. Daeth i'r casgliad mai'r rheswm dros y nam ar ddatblygiad ieithyddol plant ifanc dwyieithog oedd y ffaith eu bod nhw'n dysgu dwy iaith. Aeth Smith (1949) ymlaen i gefnogi ei chrediadau negyddol ynghylch dwyieithrwydd wrth edrych ar blant Tsieineaidd dan oed ysgol oedd yn cael eu haddysgu yn y Saesneg, ond yn siarad Tsieinëeg adref. Darganfu bod perfformiad y plant dwyieithog ar brawf geirfa yn eu dwy iaith yn is na norm y plant uniaith. Wrth gyfuno'r sgorau o'r ddwy iaith, roedden nhw'n gymaradwy â rhai'r plant uniaith, ond er hyn, roedd Smith (1949) yn dal i gredu bod dysgu dwy iaith i blant oed cyn ysgol yn hynod o annoeth (gweler mwy am sgiliau geirfa plant dwyieithog ifanc isod).

Ceir tystiolaeth o effaith negyddol dwyieithrwydd yng nghyd- destun Cymru yng ngwaith Frank Smith (1923). Edrychodd ar blant oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg (grŵp dwyieithog) a'u cymharu â phlant uniaith (Saesneg). Darganfu bod y plant uniaith yn perfformio'n well ar dasgau oedd yn mesur gallu'r plentyn i nodi gwybodaeth gywir ar lafar ac yn ysgrifenedig, ffurfio brawddegau, a chyfansoddiad yn y Saesneg na'r plant dwyieithog. Cefnogwyd y darganfyddiadau hyn mewn astudiaeth hydredol, ble daethpwyd i'r casgliad bod dwyieithrwydd yn anfantais (er nad oedd anfantais ddeallusol, ond roedd perfformiad yr unigolion dwyieithog yn waeth na'u cyfoedion uniaith) (Smith, 1923).

Roedd ymchwil gan Saer (1924) yn ystyried yr un math o siaradwyr dwyieithog yng Nghymru. Y tro hwn, roedd ei ymchwil ychydig yn fwy systematig gan iddo ystyried ffactorau megis statws sosio- economaidd ac iaith cartref y plant yr oedd yn eu profi. Fe rannodd ei siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn rhai oedd yn byw yn y wlad, a rhai oedd yn byw mewn ardaloedd trefol, ynghyd â hyfedredd ieithyddol, yn amrywio o unigolion gyda mwy o hyfedredd yn y Saesneg i'r rheiny â mwy o hyfedredd yn y Gymraeg. Roedd ei sampl yn cynnwys plant uniaith a dwyieithog rhwng 7 a 14 mlwydd oed, a defnyddiodd nifer o brofion, yn cynnwys prawf deallusrwydd Stanford-Binet a phrawf geirfa.

Darganfu Saer (1924) wahaniaethau rhwng yr unigolion uniaith a dwyieithog o'r ardaloedd gwledig ar y profion o ran eu gallu ieithyddol yn y Saesneg, ond nid oedd yr unigolion o'r ardaloedd trefol yn arddangos unrhyw wahaniaethau. Daeth Saer (1924) i'r casgliad fod y plant dwyieithog o'r ardaloedd trefol wedi dysgu Saesneg drwy chwarae cyn cychwyn yn yr ysgol, a bod hyn yn golygu mwy o ddefnydd o'r Saesneg yn yr ysgol a gartref ac felly fod y Gymraeg yn dod yn eilradd oherwydd y dewis cynnar hwn. Gwelwn felly mai yma y gorwedd y gwahaniaeth gan nad oedd plant Cymraeg o'r ardaloedd gwledig yn derbyn unrhyw fewnbwn yn y Saesneg nes iddynt gychwyn yn yr ysgol. Daeth i gasgliad fod eu perfformiad yn israddol ar y profion i gymharu ag unigolion uniaith oherwydd eu diffyg profiad gyda'r Saesneg yn gynnar yn eu bywydau (Saer, 1924). Ond fel sy'n amlwg o'r wybodaeth a drafodir yma, roedd ymchwil ar ddwyieithrwydd ar y pryd yn hynod o gyntefig ac roedd nifer o ffactorau yn cyfrannu fel newidynnau dryslyd oedd yn gwneud canfyddiadau'r ymchwil yn annibynadwy.

Roedd y darlun llwm o ddwyieithrwydd a amlygwyd yn yr ymchwil cynnar wedi ei seilio yn gryf ym meddyliau unigolion, gyda'r ymchwil yn dangos nam ar gyfansoddiadau ysgrifenedig plant, a mwy o gamgymeriadau gramadegol a geirfa wael mewn cymhariaeth ag unigolion uniaith (Hakuta a Diaz, 1985). Y meddylfryd poblogaidd oedd bod unigolion

dwyieithog yn dioddef o 'anfantais ieithyddol', gan arwain at y gred fod dwyieithrwydd yn rhywbeth negyddol, yn "bla cymdeithasol" (Epstein, 1905 allan o Hakuta a Diaz, 1985). Atgyfnerthwyd geiriau Epstein gan ymchwil Saer (1924) yng Nghymru, a honnodd fod unigolion dwyieithog wedi drysu'n feddyliol a bod anfantais dwyieithrwydd yn rhywbeth parhaol gan ei fod yn bodoli o pan oedd yr unigolyn yn saith mlwydd oed i'w (d)dyddiau coleg. Y casgliad oedd: os oedd anfantais i'r rheiny oedd fwyaf galluog yn y gymdeithas (h.y. unigolion yn y brifysgol), roedd y broblem o ddeallusrwydd is yn bodoli hyd yn oed yn fwy ymysg y rheiny â deallusrwydd is. Yn y bôn - roedd anfantais i bawb.

Carfan Ymchwil Niwtral

Yn dilyn y cyfnod andwyol cynnar, bu cyfnod ble portreadwyd dwyieithrwydd fel bod ag effaith niwtral. Hynny ydy, roedd rhai ymchwilwyr yn darganfod effaith negyddol o ganlyniad i ddwyieithrwydd ac eraill yn darganfod canlyniadau mwy ansicr; eto, roedd y fethodoleg o amgylch ymchwilio dwyieithrwydd yn dal i esblygu, sy'n rhannol gyfrifol am y canlyniadau. Roedd y cyfnod hwn yn gydblethiad o'r cyfnod negyddol a chyfnod mwy positif gan fod nifer o gamau methodoleg yn dal i gael eu datblygu a'u trafod (Hakuta a Diaz, 1985; Cummins, 1976, 1979). Yn ystod y cyfnod hwn, roedd nifer o ganlyniadau profion deallusrwydd yn dangos nad oedd gwahaniaeth rhwng unigolion dwyieithog ac uniaith. Er enghraifft, dangoswyd nad oedd gwahaniaeth rhwng plant dwyieithog a phlant uniaith yn y prawf deallusrwydd di-eiriol a ddefnyddiodd Saer (1924) pan reolwyd cefndir sosio-economaidd y plant yn gyfartal. Roedd y cyfnod hwn yn un calonogol iawn i ddwyieithrwydd gan iddo amlygu'r annigonolrwydd yn nulliau methodolegol yr ymchwil gynharach a dangos nad drwg o beth oedd meddu ar ddwy iaith o reidrwydd. Roedd yn hwb i rieni yng Nghymru oedd eisiau cefnogi dwyieithrwydd yn yr ysgol a gartref, ac roedd yn adeg gadarnhaol ac arweiniodd y ffordd tuag at gyfnod positif i ddwyieithrwydd (Saer, Smith a Hughes, 1924; Hakuta a Diaz, 1985; Kroll; 2009).

Roedd Lewis Terman (1918) yn defnyddio'r prawf geirfa fel dangosydd da o oed meddyliol plant uniaith a phlant dwyieithog (o deuluoedd o fewnfudwyr Portiwgaleg ac Eidaleg). Wrth i Terman (1918) edrych yn ôl ar y canlyniadau a'u cymharu â sgorau'r plant ar ôl tair i bedair blynedd yn yr ysgol, darganfu bod sgorau'r plant dwyieithog ar y prawf geirfa a'u hoedran meddyliol yn gydberthynol â sgorau'r plant uniaith. Ond, yn yr un cyfnod, darganfu Darsie (1926), un o fyfyrwyr Terman, bod gwahaniaeth mewn arafwch o 14.25 mis mewn darllen a 12.5 mis mewn deallusrwydd ieithyddol i blant dwyieithog Japaneaidd-Saesneg ar brawf deallusrwydd Stanford-Binet o gymharu â phlant uniaith (er, fe ddangosodd hefyd bod y plant dwyieithog wedi trechu'r plant uniaith o 2.75 mis mewn sillafu).

Dengys y cyfnod hwn nad oedd unigolion dwyieithog o reidrwydd o dan anfantais o'u cymharu ag unigolion uniaith, ond fod gwahaniaethau mewn agweddau penodol iawn, a bod hyn yn amharu ar y gallu i ddod i gasgliad ynglŷn ag effaith dwyieithrwydd ar ddatblygiad plant (Adesope *et al.*, 2010; Hakuta a Diaz, 1985). Roedd y byd ymchwil yn esblygu, ond rhaid oedd disgwyl tan y 1960au i dderbyn tystiolaeth gadarn, wyddonol oedd yn amlygu dwyieithrwydd fel rhywbeth positif.

Carfan Ymchwil Positif

Amlygodd ymchwil Peal a Lambert (1962) effeithiau positif dwyieithrwydd gan ddangos bod dwyieithrwydd yn darparu hyblygrwydd meddyliol cryfach, y gallu i feddwl yn fwy haniaethol, y gallu i feddwl yn annibynnol a gallu uwchraddol wrth ffurfio cysyniadau. Eu dadl oedd bod dwyieithrwydd yn cyfoethogi datblygiad deallusol unigolyn. Yn dilyn gwaith arloesol Peal a Lambert (1962) bu newid mawr yn hyfedredd y fethodoleg ymchwil a ddefnyddiwyd. Yn benodol, bu i'r ymchwil hwn gryfhau dulliau dewis a dethol unigolion yn ôl sgiliau iaith (fel bod modd penderfynu a oedd yr unigolion yn uniaith neu'n ddwyieithog), a rhoddwyd profion di- iaith cyffredinol iddynt oll fel mesur rheoli i sicrhau nad oedd gwahaniaethau rhwng lefelau deallusol yn gyfrifol am unrhyw wahaniaethau rhwng y ddau grŵp o ran eu sgiliau meddwl.

Roedd 110 o blant yn rhan o ymchwil Peal a Lambert. Roedd y sampl gwreiddiol yn cynnwys 364 o blant o ysgolion dosbarth canol Ffrangeg yng Nghanada, ond dewiswyd y sampl yn seiliedig ar fesuriadau tynn o nifer o'r newidynnau pwysig oedd ar goll o'r ymchwiliadau cynnar. Yn benodol, mesurwyd eu deallusrwydd yn eu hiaith gyntaf, a mesurwyd eu hagwedd tuag at iaith. At hynny, rhoddwyd holiaduron i'r athrawon er mwyn mesur llwyddiant pob plentyn mewn perthnasedd â gweddill y disgyblion yn y dosbarth mewn Ffrangeg, Saesneg a'u llwyddiant cyffredinol.

Roedd dull Peal a Lambert o resymegu am ganlyniadau'r ymchwil yn cyferbynnu gyda rhesymeg ymchwilwyr. Credai Peal a Lambert (1962) fod modd i'r meddwl dwyieithog ddatrys problemau amgylcheddol o safbwynt gwybyddol. Felly, eu cred oedd bod meddwl sydd wedi gweithio ar fwy nag un broblem (e.e. dysgu dwy iaith) wedi cael mwy o brofiad o ddatrys problemau na meddwl oedd yn gweithio ar un iaith yn unig (Hakuta a Diaz, 1985). O ganlyniad, roedd dwyieithrwydd i'w weld fel dylanwad positif ar sgiliau meddyliol yr unigolyn.

Dangosodd y canlyniadau ar y profion deallusrwydd fod unigolion dwyieithog yn dangos mantais ar 15 allan o 18 prawf o gymharu â'r unigolion uniaith. Dangosodd y

canlyniadau, am y tro cyntaf, bod gan unigolion dwyieithog fantais mewn sgiliau gwybyddol, geiriol, di-eiriol a hyblygrwydd meddyliol. Credai Peal a Lambert (1962) fod deallusrwydd unigolion dwyieithog yn fwy amrywiol. Hefyd roedd y gallu i werthfawrogi amgylchedd deuol- ddiwylliannol a throsglwyddiad mwy positif rhwng ieithoedd, yn ôl yr ymchwil hwn, yn cyfoethogi deallusrwydd (Peal a Lambert, 1962).

Er bod rhai beirniadaethau bod canlyniadau'r arbrawf wedi cael eu gorliwio a bod y fethodoleg newydd ddim yn berffaith, roedd gwaith Peal a Lambert (1962) yn torri tir newydd ym myd dwyieithrwydd, gan arwain at well arfer dda yn fethodolegol ymysg ymchwilwyr.

Un o'r pethau mwyaf dylanwadol i ddeillio o ymchwil Peal a Lambert (1962) oedd pwysigrwydd dethol cyfranwyr dwyieithog yn ofalus. Daw'r diffiniad mwyaf adnabyddus o'r amrywiaeth dwyieithog gan Weinreich (1966), oedd yn disgrifio sut mae unigolyn dwyieithog yn datblygu a storio iaith. Fe edrychodd ar sut mae geiriau a chysyniadau yn cysylltu o fewn meddwl yr unigolion dwyieithog, a sut oedd y gwahaniaethau hyn yn effeithio'r profiad dwyieithog. Disgrifiodd ddau fath o feddwl dwyieithog sy'n nodweddiadol o siaradwyr dwyieithog cytbwys: (i) math 'A', ble mae dau air yn cyfeirio at ddau gysyniad ar wahân; a (ii) math 'B' ble mae dau air yn cydgyfeirio at yr un cysyniad; a chyferbynnodd hynny gyda (iii) math 'C', neu ddwyieithrwydd hwyr, ble mae rhywun yn dysgu iaith newydd ar ôl iddynt droi'n ddeuddeg mlwydd oed.

Fe elwir y broses uchod o'r ddwy iaith yn cael dylanwad ar ei gilydd yn *interlanguage*, (gan Weinreich, 1966) h.y. system ieithyddol sydd wedi deillio o allu unigolyn i ddatblygu ei ail iaith ar gefn hyfryded ei iaith gyntaf. Mae ymchwil eisoes wedi dangos fod dysgu ail iaith yn cael ei atgyfnerthu gan wybodaeth sydd ynghlwm â'r iaith gyntaf (e.e. crynodeb yn llyfr Cook, 2003; Bialystok, 1999; Grosjean, 1982, 2008). Dyma sut mae'r ail iaith yn cael ei gynrychioli yn y meddwl (yn ôl Weinreich, 1966). Mae perthynas y lefel o amlygiad iaith a datblygiad yr unigolyn yn yr iaith honno felly yn pennu i ba gategori aiff yr unigolyn hwn (Weinreich, 1966). Datganai Grosjean (2008) fod ymchwil Weinreich (1966) wedi cynnwys nifer o agweddau gwahanol yn ei gysyniad o '*interlanguage'* ac erbyn heddiw, mae'r agweddau hyn, megis trosglwyddiad, a benthyciadau yn cael eu dadansoddi'n unigol er mwyn pennu eu heffaith ar ddwyieithrwydd.

Pwy sydd yn ddwyieithog?

Mae diffinio 'dwyieithrwydd' wedi bod yn destun pwnc ers rhai blynyddoedd, gyda nifer o wahanol ddiffiniadau yn ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys sgiliau iaith, agweddau'r unigolyn, a'r sefyllfa gymdeithasol. Mae Wei (2000) yn pwysleisio fod un allan o

bob tri o boblogaeth y byd yn defnyddio mwy nag un iaith yn rheolaidd yn eu gwaith, gyda'r teulu ac yn eu hamser hamdden. Ond, mae hefyd yn ein hatgoffa bod nifer o unigolion wedi dysgu iaith newydd yn yr ysgol (er enghraifft), ac yn ei defnyddio nawr ac yn y man; felly, os yn cyfri'r rhain oll fel unigolion dwyieithog, mae siaradwyr uniaith yn lleiafrif ym mhoblogaeth y byd heddiw.

Ond sut mae categoreiddio'r amrywiaeth o fewn 'dwyieithrwydd'? A ddylid mesur dwyieithrwydd yn ôl pa mor rhugl ydy pobl mewn dwy iaith? Neu oes yna nifer o wahanol raddau o ddwyieithrwydd dros amser neu wahanol amgylchiadau? (Baker a Prys-Jones, 1998). Mae'r cwestiynau hyn yn rhai sy'n deillio o'r ffaith nad oes diffiniad clir o ddwyieithrwydd, ac mae Wei yn amlygu hyn ar ffurf tabl (Wei, t.6, 2000). Ceir rhestr faith o ddiffiniadau gwahanol sy'n disgrifio mathau gwahanol o ddwyieithrwydd, megis 'dwyieithrwydd cytbwys' - sef rhywun wedi meistroli dwy iaith i safon gytbwys, neu 'ddwyieithrwydd llochesol' - rhywun sy'n cuddio ei wybodaeth am iaith oherwydd ei agweddau neu'r agweddau maen nhw'n credu fod gan eraill amdanynt sy'n deillio o'u hymwneud â siarad yr iaith. Mae rhai diffiniadau o ddwyieithrwydd yn seiliedig ar ddefnydd y siaradwr o'r ddwy iaith, eraill ar ieithwedd y gymdeithas, nodweddion gwleidyddol, a nifer o ffactorau eraill ac felly anodd iawn yw derbyn un math o ddiffiniad gan fod cymaint o amrywiaeth yn y ffordd mae unigolyn yn dod yn ddwyieithog (Baker a Prys-Jones, 1998).

Ond, mae Wei (2000) yn crynhoi'r holl wybodaeth yma wrth ddatgan mai unigolyn sy'n berchen ar ddwy iaith yw unigolyn dwyieithog, er bod gan nifer o unigolion raddau amrywiol o hyfedredd mewn mwy nac un iaith.

Mabwysiadodd Grosjean (1982) ddiffiniad swyddogaethol o ddwyieithrwydd sy'n tanlinellu pwysigrwydd defnydd cyson o'r ddwy iaith. Mae'n dadlau bod gormod o bwysedd yn cael ei roi ar ruglder, a bod defnyddio dwy iaith yn rheolaidd, neu ddefnyddio sgiliau megis darllen ac ysgrifennu, yn cael eu cysgodi. Aeth ati i holi criw o fyfyrwyr am eu diffiniad nhw o ddwyieithrwydd, a'r canran uchaf o atebion (36%) oedd bod unigolyn dwyieithog yn siarad dwy iaith yn rhugl. Gwelir felly bod pwyslais ar ruglder hyd yn oed ymysg myfyrwyr nad oedd yn arbenigo mewn dwyieithrwydd.

Datganodd Macnamara (1967) farn eithaf tebyg rhai blynyddoedd yn gynharach, ond roedd o'n canolbwyntio ar ddwyieithrwydd mewn continwwm wrth ddweud fod angen ystyried pob un o'r sgiliau ieithyddol sylfaenol (siarad, ysgrifennu, darllen a gwrando) wrth ddethol unigolyn fel unigolyn dwyieithog. Roedd yn gweld unigolyn dwyieithog fel rhywun sy'n meddiannu ar o leiaf un o'r sgiliau uchod mewn iaith arall. At bwrpas yr ymchwil yn y

traethawd hir hwn, diffinnir ‘dwyieithrwydd’ fel unigolyn sy’n berchen ar y gallu i ddefnyddio eu dwy iaith (er bod rhai yn fwy rhugl mewn un na’r llall), a'u bod wedi datblygu’r iaith honno un a’i drwy’r system addysg, yn eu cartref, neu’r ddau. Ond waeth sut mae rhywun yn diffinio dwyieithrwydd, roedd yr ymchwil yn dechrau dangos bod gwahaniaethau rhwng plant uniaith a dwyieithog ar brofion iaith a deallusrwydd meddyliol. Ers hynny, mae cynnydd aruthrol wedi bod mewn ymchwiliadau iaith a gwybyddiaeth gyda phlant uniaith a dwyieithog. Mae’r rhan nesaf yn amlygu rhai o’r datblygiadau hyn.

Dwyieithrwydd a sgiliau ieithyddol.

Un gwahaniaeth amlwg rhwng siaradwyr dwyieithog ac uniaith yw bod ymennydd y siaradwr dwyieithog yn gorfod storio, prosesu, adalw a rheoli dwy system ieithyddol gymhleth, nid un. Mae trefn systemau iaith y siaradwyr dwyieithog o fewn yr ymennydd yn bwnc sydd wedi diddori ymchwilwyr ers degawdau erbyn hyn, gyda rhai yn cynnig bod systemau iaith unigolion dwyieithog yn ddwy system ar wahân o'r cychwyn, ac eraill yn cynnig bod y systemau iaith yn gweithio gyda'i gilydd o'r crud mewn un system fawr (Paradis, 2001; García, 2009; Baker, 2011; Bialystok, 2009; Cook, 2003). Mae'r rhan yma felly yn archwilio'r gwahaniaethau hyn ymhellach gan ganolbwyntio ar themâu sy'n berthnasol i'r ymchwil presennol.

Tan yn ddiweddar, credai nifer o ymchwilwyr bod plant oedd yn derbyn dwy iaith o'r crud yn gweithredu fel unigolion uniaith ar y cychwyn. Awgrymodd Volterra a Taeschner (1978) fodel tri cham ble mae plant dwyieithog yn symud o gymysgu eu hieithoedd o fewn un system gychwynnol, i wahaniad rhannol, ac yna i wahaniad llwyr yn eu dwy iaith. Erbyn heddiw, y farn amlycaf yw bod ieithoedd y plentyn dwyieithog yn cael eu cynrychioli yn wahaniaethol (Genesee, 2009b; Bialystok, 2009). Mae Genesee (2009b) yn awgrymu bod y ddwy iaith yn datblygu yn annibynnol o'i gilydd, gydag unigolion dwyieithog yn caffael eu systemau ieithyddol yn debyg i sut mae unigolion *uniaith* yn dysgu iaith. Ond hyd yn oed os ydi'r ddwy iaith ar wahân, nid ydynt o reidrwydd yn gwbl annibynnol (Genesee, 2009b). Gan hynny, mae'n deg disgwyl y bydd y ddwy iaith yn dod i gyswllt â'i gilydd mewn rhyw ffordd ac ar ryw adeg, a thrwy hynny, yn cael dylanwad ar y naill a'r llall, gan arwain at un o dri ymddygiad posib: oediad iaith, trosglwyddo rheolau, neu hyrwyddiad iaith (Paradis a Genesee, 1996).

Oediad iaith

Un nodwedd sy'n cael ei amlygu'n aml mewn astudiaethau ar ddwyieithrwydd yw oediad yn natblygiad o leiaf un o ieithoedd y plentyn dwyieithog i'w gymharu â phlant uniaith o'r un oed. Er enghraifft, mae ymchwil go gryf yn dangos oediad yn nhwf geirfa unigolion dwyieithog wrth iddynt ddatblygu'n ieithyddol, er eu bod yn aml yn cyrraedd lefelau siaradwyr uniaith gydag oed a phrofiad, tra bod siaradwyr uniaith yn ffynnu yn gyflymach o ran datblygiad geirfa (Bialystok, 2001a, 2006b, 2009; Oller ac Elliers, 2002; Bialystok, Luk, Peets ac Yang, 2009). Isod, trafodir ymchwil sy'n pwyso a mesur effaith dwy iaith ar sgiliau llythrennedd a geirfa plant.

Llythrennedd

Fe gymharodd Oller, Pearson a Cobo-Lewis (2007) unigolion dwyieithog Sbaeneg-Saesneg gydag unigolion uniaith o'r un statws sosio-economaidd oedd yn mynychu'r un math o ysgol mewn ardaloedd penodol ar gyfres o brofion iaith. Wrth ystyried gallu geirfa a llythrennedd y plant, dangosodd y canlyniadau fod mantais glir i'r unigolion uniaith ar y profion geirfa, ond nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng y plant ar y tasgau darllen. Daethant i'r casgliad, felly, bod rhywbeth arbennig am natur profiadau ieithyddol y plant dwyieithog sy'n ei gwneud hi'n anoddach iddynt ddatblygu geirfa yn eu dwy iaith yn yr un modd â phlant uniaith - rhywbeth y cyfeirir ato yn y llyfryddiaeth fel *Nodwedd Ddosrannol* geirfa'r siaradwr dwyieithog (Oller, 2005).

Y Nodwedd Ddosrannol (Distributed Characteristic)

Mae tueddiad gan blant dwyieithog i wybod geiriau a'u cyfieithiadau ar gyfer rhai pethau yn y byd, ond nid gyda phob peth, gyda'r plant felly yn adnabod rhai geiriau mewn un iaith yn unig, rhai eraill yn yr iaith arall, a rhai geiriau yn y ddwy iaith. Digwyddai hyn oherwydd bod eu geirfa yn cael ei rhannu ar draws gwahanol sefyllfaoedd ble ddefnyddir y ddwy iaith. Dyma a olygir gan y "nodwedd ddosrannol" (Oller, 2005) sy'n esbonio diffyg geirfa plant ifanc dwyieithog yn eu dwy iaith sy'n ganlyniad naturiol o'r ffaith fod plant yn cael amlygiad i wahanol ieithoedd mewn gwahanol gyd-destunau. Ond, nid gwall ar eirfa sydd gan y plant dwyieithog hyn (fel yr awgrymir gan Ben-Zeev, 1977); yn hytrach patrwm arwyddocaol a ddaw yn sgil y nodwedd ddosrannol ydyw. Mae ymchwil wedi dangos fod y nodwedd ddosrannol yn amlygu ei hun o ran geirfa plant dwyieithog yn fwy nac unrhyw barth arall sy'n ymwneud gydag iaith neu lythrennedd (Oller, Pearson a Cobo-Lewis, 2007).

Dadleuai Umbel, Pearson, Fernandez ac Oller (1992) (ac fe'u hatgyfnerthwyd gan ymchwil Li, 1996 a Gathercole a Thomas, 2010) bod y nodwedd ddosrannol yn diflannu gydag amser, wrth i'r unigolyn dderbyn mwy o brofiadau yn y ddwy iaith. Mae Bahrick, Hall, Goggin, Bahrick a Berger (1994) yn awgrymu nid yn unig bod unigolion dwyieithog yn cyrraedd lefelau unigolion uniaith ar ôl blynyddoedd o brofiad efo'r ddwy iaith, ond hefyd y gall unigolion dwyieithog fagu set lawnach o eirfa yn y ddwy iaith i gymharu ag unigolion uniaith gydag amser.

Darganfu Beech a Keys (1997) for sgiliau prosesu geirfa plant Asiaidd oedd yn siarad Gujarati, Bengali, Kutchi, Urdu neu Punjabi a Saesneg yn fwy arwynebol na sgiliau geirfa sampl cymharol o blant uniaith. Pwysleisiai'r ymchwilwyr mai diffyg amlygiad i'r Saesneg oedd cwymp y sampl dwyieithog, a gan fod ganddynt allu geiriol llai yn y Saesneg, roedd eu

perfformiad ar y profion darllen Saesneg yn dioddef. At hynny, roedd gallu geiriol y sampl dwyieithog yn ddibynnol ar eu statws sosio-economaidd gan nad oedd llawer o gyfle iddyn nhw ymarfer eu Saesneg tu allan i'r ysgol (Beech a Keys, 1997).

Mae'r bennod fer hon wedi amlygu cefndir y canlyniadau sydd i ddilyn, o ran cyfranwyr, ardaloedd, a mesuriadau cefndirol. Mae cael dealltwriaeth o gyd- destun daearyddol y sampl yn bwysig ar gyfer dadansoddi'r canlyniadau ac fe bwysleisir hyn ymhellach yn y thesis wrth drafod effaith lleoliad ar lwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg mewn perthnasedd i'r ymchwil presennol. Mae ymchwil cyfredol ym maes dwyieithrwydd wedi pwysleisio pwysigrwydd edrych ar statws sosio- economaidd a deallusol y sampl sy'n cael eu hasesu mewn perthynas â'u perfformiad ar wahanol brofion (Peal a Lambert, 1962; Bialystok, 2009, Gathercole, 2002; Adesope *et al.*, 2010; Hakuta a Diaz, 1985) ac felly mae'r ymchwil presennol wedi cymryd camau gofalus i sicrhau bod modd dileu unrhyw bosibilrwydd o ddatgan fod unrhyw wahaniaeth a ddarganfuwyd yn gysylltiedig â chefndir sosio- economaidd neu sgiliau meddyliol parod y plant gyda'r dadansoddiadau cefndirol a wneir. Nesaf, fe geir tair pennod sy'n dadansoddi'r data a gasglwyd yn ôl tair thema benodol sy'n graidd i'r thesis fel cyfanrwydd; canlyniadau gwybyddol, ieithyddol ac agweddau.

PENNOD 5

Astudiaeth 1:

Sgiliau Ieithyddol y Plant.

Cyflwyniad

Yn y bennod hon, cyflwynir data Astudiaeth 1 oedd yn mesur sgiliau ieithyddol plant dwyieithog a phlant uniaith, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bwriad yr ymchwil oedd adnabod unrhyw wahaniaethau mewn patrymau ieithyddol Cymraeg plant dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) o gefndiroedd ieithyddol gwahanol oedd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, ac unrhyw wahaniaethau o ran patrymau dysgu'r Saesneg i'w gymharu gyda phlant o gartrefi uniaith Saesneg oedd yn derbyn eu haddysg drwy'r Saesneg. Daeth y sampl cyfan o bedair sir yng Ngogledd Cymru, fel y nodwyd ym Mhennod 4.

Roedd y cwestiynau ymchwil fel a ganlyn:

1. Pa fanteision ieithyddol sy'n deillio o ganlyniad i ddwyieithrwydd?
2. Ydy'r effeithiau'n gryfach ymysg plant o gefndiroedd iaith gwahanol?

Er mwyn archwilio'r cwestiynau hyn, defnyddiwyd mesuriadau safonedig er mwyn edrych ar adnabyddiaeth geirfa a sgiliau darllen y plant dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, tra profwyd y plant uniaith yn y Saesneg yn unig. Disgrifir yr holl brofion a ddefnyddiwyd yn eu tro isod, gan nodi'r canlyniadau fesul prawf.

Dulliau Ymchwil

Y Plant

Cefndir Iaith

Ymrannwyd y plant dwyieithog yn un o dri grŵp cefndir iaith: Cymraeg yn unig yn y cartref (I1 Cymraeg), cymysgedd o Gymraeg a Saesneg yn y cartref (Cytbwys), a Saesneg yn unig yn y cartref (I1 Saesneg) (gweler Gathercole, Thomas a Hughes, 2008 ar gyfer system gategoreiddio'r grwpiau ieithyddol hyn). Daeth y sampl uniaith o gartrefi ble siaradwyd Saesneg yn unig, ac roedd y plant yn mynychu ysgolion ble roedd yr addysg drwy gyfrwng y Saesneg.

Oed

Roedd dau grŵp oedran: 7/8 mlwydd oed, a 10/11 mlwydd oed (gweler Tabl 8 yn y cyflwyniad i'r canlyniadau). Dewiswyd y samplau oedran yma oherwydd fy mod eisiau casglu gwybodaeth am ddatblygiad ieithyddol y plant yn eu dwy iaith. Felly, os yn profi plentyn o gartref cwbl Gymraeg wrth gychwyn yn yr ysgol (4/5 mlwydd oed), prin fyddai cyflwyniad y plentyn hwnnw i'r Saesneg, yn enwedig yn y cyd-destun addysgol. Yn yr un

modd, pe brofir plentyn ifanc o gartref di- Gymraeg, prin fyddai amlygiad y plentyn hwnnw i'r Gymraeg a phrin y gellid ei gyfri fel plentyn 'dwyieithog'. Gan hynny, roedd y plant 7/8 oed ar gyfartaledd wedi derbyn dwy iaith am 3-7 mlynedd ar draws y grwpiau, tra bo'r plant 10-11 wedi derbyn dwy iaith am 6-10 mlynedd.

Mesuriadau Ieithyddol

Profion Geirfa

Arbrawf 1. Prawf Geirfa Cymraeg, Fersiwn 7-11 (PGC) (Gathercole & Thomas, 2007)

Prawf o adnabyddiaeth geirfa plant yn y Gymraeg yw'r PGC. Mae 111 eitem yn y prawf, wedi eu trefnu yn ôl lefel, o'r geiriau rhwyddaf (ac amlaf yn yr iaith) i'r geiriau anoddaf (a llai aml) gyda threfn y geiriau'r un fath i bawb. Ar gyfer pob gair, roedd cyfres o bedwar llun wedi ei drefnu mewn ffrâm 2x2. Ar gyfer pob ffrâm, dim ond un o'r pedwar llun (A, B, C neu Ch) oedd yn cyd-fynd yn union gyda'r gair targed; gwrthdynwyr oedd y tri llun arall. Roedd yn rhaid i'r plant adnabod pa lun oedd yn cyd-fynd orau gyda'r gair oedd yn cael ei ynganu gan yr ymchwilydd.

Recordiwyd holl ymatebion y plant ar daflen farcio bwrpasol. Cafodd y geiriau targed eu hynganu ar lafar; ni welodd y plant unrhyw symbyliad geiriol drwy gydol y prawf. Roedd angen i bob plentyn gwblhau'r holl brawf, ac os nad oedden nhw'n gallu ymateb yn syth, roedd yr ymchwilydd yn ail-adrodd y gair ac yn annog y plentyn i roi cynnig ar ddyfalu pa lun oedd yn cyd-fynd â'r gair.

Roedd sgôr oedd yn disgyn rhwng 85-115 yn cael ei ystyried fel sgôr o fewn yr amrediad safonedig ar gyfer y prawf. Roedd sgôr rhwng 70-84 yn cael ei gategoreiddio yn bryderus, a sgôr o dan 69 yn dynodi anhawster arwyddocaol.

Rhagdybir y byddai gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau iaith oherwydd effaith mewnbwn ieithyddol, ac y byddai effaith arwyddocaol rhwng grwpiau oed.

Canlyniadau

Mae'r PGC yn cynhyrchu dau fath o sgôr: sgôr safonedig (ble mae modd cymharu perfformiad y plentyn gyda pherfformiad plant eraill o'r un oed a'r un cefndir iaith), a sgôr crai (sy'n dangos cyfanswm yr eirfa a adnabuwyd yn gywir o'r 111 eitem yn y prawf i gyd). Mae'r ddau fesur yn bwysig gan fod angen gweld sut mae'r plentyn yn perfformio yn unol â'r disgwyl i blentyn o'r un oed ac/neu'r un cefndir iaith, tra, ar yr un pryd, mae'n bwysig medru

dilyn patrwm datblygiad y plant drwy gymharu perfformiad ar draws y grwpiau iaith a'r grwpiau oed. Cyflwynir y canlyniadau ar gyfer y ddau sgôr yn eu tro isod.

Sgorau Safonedig

Cynhaliwyd prawf dadansoddi amrywiant (ANOVA un- newidyn) gyda sgorau safonedig yr unigolion ar y prawf geirfa yn ymddangos fel y newidyn dibynnol, ac iaith y cartref (I1 Cymraeg, Cytbwys, I1 Saesneg ac Uniaith) a grŵp oed (7-8 a 10-11 mlwydd oed) yn ymddangos fel newidynnau annibynnol.

Datgelodd y dadansoddiad wahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith (F(2, 1165)= 26.099, p= .000) a dim gwahaniaeth rhwng grwpiau oed (F(1, 165)= .084, p= .772). Er mai'r plant o gartrefi I1 Saesneg (M= 96.49) ac o gartrefi Cytbwys (M= 101.45) oedd â'r sgorau isaf ar y prawf (ac roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau hyn a'r grŵp I1 Cymraeg - p = .000 yn y ddau achos), roedd sgorau pob grŵp o fewn yr ystod ddisgwyliedig (h.y., o fewn 1 gwyriad safonol oddi wrth y sgôr cymedrol o 100).



Ffigwr 5 Sgorau safonedig cymedrig ar y Prawf Geirfa Cymraeg yn ôl grŵp oed ac iaith cartref.

Sgorau Crai

Fel oedd disgwyl, roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith (F(2,165)=27.179, p= .000) ac oed (F(1,165)=53,254, p= .000) ar y sgorau crai. Ymddengys, o'r canlyniadau, fod perfformiad y plant yn cynyddu gydag oed. Ar ôl cynnal profion post hoc, gwelwn fod plant o gartrefi I1 Cymraeg yn unig wedi perfformio yn well na phlant o gartrefi I1 Saesneg (p= .000) a phlant o gartrefi Cytbwys (p= .000).



Ffigwr 6 Sgorau crai cymedrig ar y Prawf Geirfa Cymraeg yn ôl grŵp oed ac iaith cartref.

Arbrawf 2. British Picture Vocabulary Scale (BPVS) (Dunn et al, 1997)

Mae'r BPVS yn brawf i fesur adnabyddiaeth plant ac oedolion o eirfa yn Saesneg. Yn y prawf hwn, mae gofyn i'r plant bwyntio at un o bedwar llun sy'n cyd-fynd â'r gair targed sy'n cael ei ynganu gan yr ymchwilydd ac yn asesu ehangder a gwybodaeth y plentyn o eirfa yn Saesneg. Safonwyd y sgorau yn ôl yr un paramedrau a'r rheiny a ddisgrifir yn y Prawf Geirfa Cymraeg uchod.

Trefnwyd yr eitemau yn y prawf yn ôl lefel, gan gychwyn gydag eitemau hawdd, a gorffen gydag eitemau anodd. Cychwynnodd pob plentyn y prawf ar set o eiriau oedd wedi eu safoni i gynrychioli geirfa arferol y byddai plentyn o'r un oed yn eu hadnabod, er mwyn sefydlu sgôr sylfaenol y plentyn. Os oedd y plentyn yn gwneud un camgymeriad neu fwy o fewn y set agoriadol hon, roedd yn rhaid symud un set yn ôl nes i'r plentyn gael yr holl eiriau mewn set yn gywir, er mwyn gallu gosod y gwaelodlin. Roedd y plant yn gorfod pwyntio, neu ddweud eu hymatebion ar lafar ar gyfer pa lun yr oedden nhw'n credu oedd yn cyd-fynd orau gyda'r gair oedd yn cael ei fynegi ar lafar gan yr ymchwilydd. Roedd set o bedwar llun ar gyfer pob gair, gydag un ateb cywir, a thri gwrthdynnwr. Roedd yr ymchwilydd a'r plentyn yn cwblhau'r prawf gyda'i gilydd. Ar ôl i'r plentyn gynhyrchu deg camgymeriad o fewn set o ddeuddeg eitem, terfynwyd y prawf, a nodwyd y man gorffen fel nenfwd lefel geirfa'r plentyn hwnnw.

Rhagdybir na fyddai gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau ieithyddol ar y prawf geirfa Saesneg oherwydd goruchafiaeth y Saesneg fel rhan o fywydau pob plentyn yn y

sampl. Rhagdybir y byddai gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau oed, ond y byddai gwahaniaethau arwyddocaol rhwng grwpiau yn ymddangos o fewn y grŵp ifengach yn unig gan y bydd effaith goruchafiaeth y Saesneg yn diflannu o fewn y grŵp hŷn.

Canlyniadau

Fel yn y Prawf Geirfa Cymraeg, cafwyd dau sgôr yn y prawf BPVS - sgôr safonol a sgôr crai. Trafodir y canlyniadau ar gyfer y naill sgôr a'r llall yn ei dro isod. Cynhaliwyd yr un dadansoddiadau gan gynnwys yr un newidynnau ag a ddefnyddiwyd ar gyfer y prawf yn Gymraeg. Yr unig wahaniaeth, y tro yma, oedd bod grŵp o blant uniaith Saesneg wedi eu cynnwys fel grŵp cymharu.

Sgorau Safonedig

Datgelodd y dadansoddiad wahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith ($F(3, 196)= 17.827$, $p= .000$). Nid oedd gwahaniaeth rhwng grwpiau oed ($F(1, 196)= 1.548$, $p= .215$). O ran y grwpiau iaith, tra nad oedd unrhyw wahaniaeth rhwng y plant Uniaith a'r plant I1 Saesneg, roedd y ddau grŵp yn adnabod mwy o eirfa Saesneg na'r plant I1 Cymraeg a Cytbwys. Yn ddiddorol iawn, erbyn bod y plant yn 10/11 oed, roedd sgorau safonol y plant I1 Cymraeg a Chytbwys yn is na'r isafswm o 85 sy'n ddisgwyliedig ar gyfer plant o'r un oed. Dylid cofio, fodd bynnag, fod y sgorau safonol a gynhyrchir gan y prawf yn seiliedig ar blant uniaith Saesneg yn unig, ac felly nid yw'n brawf teg o sgiliau iaith plant dwyieithog. Er hynny, mae'r canlyniadau hyn yn mynd yn groes i ddisgwyliadau nifer o unigolion sy'n credu fod sgiliau Saesneg plant yng Nghymru yn datblygu'n annibynnol ac yn gytbwys â sgiliau plant uniaith cyfoed erbyn diwedd cyfnod yr ysgol gynradd (Gathercole a Thomas, 2009; Bialystok, 2012).



Ffigwr 7 Sgorau safonedig cymedrig ar y BPVS yn ôl grŵp oed ac iaith cartref.

Sgorau Crai

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol ar gyfer y grwpiau iaith ($F(3, 196)= 16.468$, $p= .000$) a grwpiau oed ($F(1, 196)= 125.370$, $p= .000$) wrth ddadansoddi sgorau crai, gyda'r grŵp hŷn yn gwneud yn well na'r grŵp iau. Datgelodd ddadansoddiadau post hoc fod plant o gartrefi Uniaith a I1 Saesneg wedi perfformio'n well na phlant o gartrefi Cytbwys ($p= .001$) a phlant o gartrefi I1 Cymraeg ($p= .000$).



Ffigwr 8 Sgorau crai cymedrig ar y BPVS yn ôl grŵp oed ac iaith cartref.

Crynodeb

Ar brawf o adnabyddiaeth plant o eirfa yn y Gymraeg a'r Saesneg, roedd gwahaniaethau i'w canfod yn ôl oed a chefndir iaith. Fel y gellid disgwyl, roedd geirfa plant yn parhau i gynyddu gydag oed, ac yn ehangu yn gyflymach po fwyaf o'r Gymraeg neu'r Saesneg yr oedd y plentyn yn ei derbyn yn y cartref.

Wrth fesur geirfa'r un plant yn Saesneg (gyda grŵp ychwanegol o blant uniaith fel cymhariaeth) yr un oedd y patrwm, er, y tro hwn, roedd y plant oedd â'r amlygiad isaf i'r iaith yn perfformio y tu allan i normau arferol ar gyfer cyfoedion uniaith. Trafodir goblygiadau'r canlyniadau hyn ym Mhennod 8.

Profion Darllen

Arbrawf 3. Profion Glannau Menai (Payne, 1998)

Mae'r 'Profion Glannau Menai' yn brawf darllen rhyddiaith sy'n mesur sgiliau darllen a deall a chywirdeb darllen plant rhwng 4;6 a 10;6 mlwydd oed. Mae'n darparu un sgôr safonedig (yn cymharu sgôr y plentyn gydag eraill o'r un oed) ac oed darllen i bob plentyn.

Roedd yn ofynnol i'r plant ddarllen cyfres o ddarnau rhyddiaith ar lafar. Roedd pob darn wedi ei ysgrifennu fel bod pob un yn anoddach a hirach na'r un blaenorol, a nodwyd pob camgymeriad ar daflen farcio ar gyfer pob plentyn. Rhwng pob darn, gofynnwyd cwestiynau ar lafar ar gynnwys pob stori er mwyn asesu dealltwriaeth yr unigolyn o'r darn. Nodwyd pob camgymeriad eto ar daflen farcio'r plentyn. Terfynwyd y prawf pan lwyddai'r plentyn i dderbyn sgôr o 5 neu lai am pa mor gywir yr oedden nhw yn darllen mewn unrhyw ddarn.

Rhagdybiwyd y byddai gwahaniaethau arwyddocaol rhwng grwpiau iaith oherwydd lefelau mewnbwn amrywiol i'r Gymraeg ac y byddai gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau oed, er y byddai'r gwahaniaethau hyn yn llai o ran lefelau cywirdeb mewn perthynas â chanlyniadau'r profion geirfa gan fod cyfarwyddyd darllen drwy'r Gymraeg yn cychwyn yn gynnar drwy addysg cyfrwng Cymraeg.

Canlyniadau

Roedd dau fesur ar gyfer y prawf: mesur o gywirdeb darllen a mesur o sgiliau darllen a deall. Yn y dadansoddiadau, cyfunwyd y ddau fesur er mwyn cael un mesur o batrwm darllen y plant. Cyflwynir y canlyniadau ar gyfer y sgorau crai a safonedig yn eu tro isod, ynghyd a chymhariaeth rhwng dwy elfen y prawf darllen (cywirdeb + darllen a deall) ble gwelir gwahaniaethau.

Sgorau Safonedig

Cynhaliwyd prawf dadansoddi amrywiant (ANOVA ailadrodd- mesurau) gyda sgorau safonedig cywirdeb a darllen a deall y plant fel y ffactor o fewn cyfranwyr, ac iaith y cartref (I1 Cymraeg, Cytbwys, I1 Saesneg, Uniaith) a grŵp oed (7-8 a 10-11 mlwydd oed) yn ymddangos fel ffactorau rhyng-gyfrannol.

Fel y disgwyliwyd, roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith (F(2,165)= 7.730, p= .001) ac oed (F(1, 165)= 28.43, p= .000). O gynnal profion post hoc pellach, gwelwyd fod y gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grŵp I1 Cymraeg a'r grwpiau I1 Saesneg (p= .011) a Cytbwys (p= .001) sy'n dangos fod y grŵp sy'n siarad Cymraeg yn unig adref wedi sgorio'n uwch, yn gyffredinol, ar y prawf na'r ddau grŵp arall.



Ffigwr 9 Sgorau safonedig cymedrig ar y profion Glannau Menai yn ôl grŵp oed ac iaith cartref.

Amlygodd y dadansoddiad wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y plant ar is-brofion y Glannau Menai (cywirdeb a darllen a deall) hefyd (F(1, 165)= 25.680, p= .000). Dangosodd rhyngweithiad rhwng dwy elfen y prawf a'r sgorau oed (F(1, 165)= 28.430, p= .000) fod wrth i'r sampl heneiddio, gyda sgorau cymedrig y grŵp oed 10/11 yn sylweddol is ar gyfer agwedd cywirdeb y prawf ond yn cynyddu ar gyfer yr agwedd darllen a deall.

Sgorau Crai

Eto, fel y disgwyliwyd, roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith (F(2, 165)= 8.470, p= .000) a grwpiau oed (F(1, 165)= 54.027, p= .000). O gynnal profion post hoc pellach, gwelir fod y gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grŵp I1 Cymraeg a'r grwpiau I1 Saesneg (p= .004) a Cytbwys (p= .002) sy'n dangos fod y grŵp sy'n siarad Cymraeg yn unig gartref wedi perfformio'n sylweddol well ar y prawf na'r ddau grŵp arall.



Ffigwr 10 Sgorau crai cymedrig ar y profion Glannau Menai yn ôl grŵp oed ac iaith cartref.

Roedd rhyngweithiad arwyddocaol rhwng y ddau is- brawf ac iaith cartref (F(2, 165)= 4.904, p= .009). Gwelwn fod perfformiad y grwpiau ar ddau agwedd y prawf wedi amrywio hefyd ac roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y ddau brawf (F(1, 165)= 1185.047, p= .000) gyda gwell perfformiad ar yr agwedd cywirdeb nag ar yr agwedd dealltwriaeth. Dangosir fod gwahaniaeth mewn perfformiad ar y ddau agwedd wrth i'r sampl heneiddio, gyda sgorau cymedrig y grŵp oed 10/11 yn sylweddol uwch na sgorau'r grŵp oed 7/8 ar gyfer dwy agwedd y prawf: cywirdeb a dealltwriaeth (F(1, 165)= 16.291, p= .000). Mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd gyda'r cysyniad fod sgiliau llythrennedd yn datblygu gydag oed.

Arbrawf 5. Neal's Analysis of Reading Ability (NARA) (Neale, 1997)

Mae'r NARA yn mesur cywirdeb, dealltwriaeth a chyfradd darllen plant rhwng chwech a deuddeg mlwydd oed yn y Saesneg. Mae'r prawf yn darparu sgôr safonedig ac oed

darllen ar gyfer pob plentyn (Neale, 1997). Roedd gofyn i bob plentyn ddarllen cyfres o ddarnau rhyddiaith ar lafar. Yna, gofynnwyd nifer o gwestiynau 'darllen a deall' ar lafar ar ôl pob darn, a disgwyliwyd i'r plentyn hefyd ymateb ar lafar. Pan gynhyrchwyd mwy na 16 camgymeriad mewn un rhan, ni aethpwyd ymlaen i ofyn y cwestiynau darllen a deall ar gyfer y stori honno, a therfynwyd y prawf.

Ceir dau sgôr gwahanol ar gyfer y prawf hwn: cywirdeb darllen (sy'n seiliedig ar y nifer o eiriau a ddarllenwyd yn gywir), a darllen a deall (sy'n seiliedig ar y nifer o gwestiynau a atebir yn gywir am gynnwys y darn a ddarllenir).

Rhagdybiwyd y byddai gwahaniaethau arwyddocaol rhwng grwpiau iaith oherwydd effaith mewnbwn ieithyddol oherwydd goruchafiaeth y Saesneg a'i natur didreiddedd o ran system lythrennedd. Rhagdybiwyd y byddai gwahaniaethau arwyddocaol rhwng grwpiau oed, eto gyda'r gwahaniaeth mwyaf yn y grŵp ieuengaf oherwydd dylanwad addysg cyfrwng Cymraeg ar sgiliau llythrennedd yr holl blant erbyn iddynt gyrraedd diwedd eu cyfnod yn yr ysgol (h.y. y grŵp hŷn).

Canlyniadau

Sgorau Safonedig

Fel y disgwyliwyd, roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith(F(3,193)= 7.400, p= .000) ac roedd hefyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau oed (F(1, 193)= 12.065, p= .001). Dangosodd brofion post hoc pellach nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grŵp Uniaith a'r grŵp I1 Saesneg, ond roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grŵp Uniaith a'r grŵp I1 Cymraeg (p= .006), y grŵp uniaith a'r grŵp Cytbwys (p= .017), a hefyd rhwng y grŵp I1 Saesneg a'r grŵp Cytbwys (p= .024).



Ffigwr 11 Sgorau safonedig cymedrig ar y NARA yn ôl grŵp oed ac iaith cartref.

Gwelwn fod perfformiad y grwpiau ar ddau agwedd y prawf wedi amrywio hefyd ac roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y cywirdeb a'r darllen a deall (F(1, 193)= 5.488, p= .020), gyda'r sgorau cywirdeb yn uwch na sgorau dealltwriaeth. Dangosir fod perfformiad y sampl ar ddau agwedd y prawf yn gwella gydag oed a bod y twf mwyaf i'w weld yn sgorau cywirdeb y sampl (F(1, 193)= 8.009, p= .005). Mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd gyda'r cysyniad fod cynnydd llythrennedd yn digwydd gydag oed.

Sgorau Crai

Fel y disgwylir, roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith (F(3,194)= 6.227, p= .000) a grwpiau oed (F(1, 194)= 147.377, p= .001). O gynnal profion post hoc pellach, gwelir fod y gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grŵp uniaith a I1 Cymraeg (p= .000) a Cytbwys (p= .012).



Ffigwr 12 Sgorau crai cymedrig ar y NARA yn ôl grŵp oed ac iaith cartref.

Roedd rhyngweithiad arwyddocaol rhwng is-brofion y NARA ac iaith y cartref ($F(3, 194)= 2.969$, $p= .033$). Gwelwn fod perfformiad y grwpiau ar ddau agwedd y prawf wedi amrywio hefyd ac roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y ddau brawf ($F(1, 194)= 827.689$, $p= .000$). Dangosir rhyngweithiad fod perfformiad y sampl ar ddau agwedd y prawf yn gwella gydag oed a bod y twf mwyaf i'w weld yn sgorau cywirdeb y sampl ($F(1, 194)= 108.935$, $p= .005$). Mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd gyda'r cysyniad fod cynnydd llythrennedd yn digwydd gydag oed.

Crynodeb

Ar brofion darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg, roedd gwahaniaethau i'w canfod yn ôl oed a chefndir iaith. Fel y gellid disgwyl, roedd sgiliau darllen (ac o fewn hynny – cywirdeb a sgiliau darllen a deall) plant yn parhau i gynyddu gydag oed, ac yn ehangu yn gyflymach po fwyaf o'r Gymraeg neu'r Saesneg yr oedd y plentyn yn ei derbyn yn y cartref.

Wrth fesur darllen yr un plant yn Saesneg (gyda grŵp ychwanegol o blant uniaith fel cymhariaeth) roedd yr un math o batrwm i'w weld. Po fwyaf y Saesneg a geir adref, y gorau oedd perfformiad y plant hyn ar y profion cyfrwng Saesneg. Nid oedd unrhyw wahaniaeth rhwng plant o gefndiroedd Saesneg ar fesuriadau o'u sgiliau Saesneg, waeth beth oedd cyfrwng iaith yr ysgol. Trafodir goblygiadau'r canlyniadau hyn ym Mhennod 8.

Arbrawf 5. Sillafu Cymraeg a Saesneg

Darparwyd dau brawf sillafu er mwyn asesu sgiliau sillafu'r plant yn eu dwy iaith (rhoddwyd y prawf Saesneg yn unig i'r sampl uniaith). Daeth y rhestrau geiriau o'r ddau fesur darllen yn ôl eu trefn. Fe addaswyd y profion sillafu gwreiddiol (Payne, 1997 a Dunn *et al.*, 1977) i gynnwys casgliad amrywiol (o ran anhawster) o ugain o eiriau o'r prawf Cymraeg ac ugain o eiriau o'r prawf Saesneg (gweler Atodiad 7). Gweinyddwyd y prawf i grwpiau o blant gyda'i gilydd. Roedd pob plentyn yn derbyn darn o bapur plaen ac yn cael cyfarwyddiadau llafar i ysgrifennu'r geiriau yr oedden nhw'n ei glywed i lawr ar y papur, yn eu trefn, ac fel yr oedden nhw'n meddwl y dylai'r geiriau gael eu sillafu. Roedd y prawf sillafu yn cael ei weinyddu mewn un iaith yn gyntaf, ac yna yn y llall, gyda threfn yr ieithoedd yn amrywio. Roedd y profion yna yn cael eu marcio yn ôl cywirdeb pob gair yn gyfan, ac roedd marc allan o 20 ar gael i bob iaith.

Rhagdybiwyd y byddai gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau iaith yn y ddau brawf sillafu oherwydd effaith mewnbwn ieithyddol wrth ddatblygu llythrennedd a geirfa, ac y byddai gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau oed oherwydd datblygiad geirfa plant wrth iddynt fynd yn hŷn.

Canlyniadau

Cynhaliwyd dau brawf dadansoddi amrywiant (ANOVA un- newidyn) - un ar gyfer pob iaith - gyda sgorau'r unigolion ar y profion sillafu yn ymddangos fel y newidyn dibynnol, ac iaith y cartref (I1 Cymraeg, Cytbwys, I1 Saesneg, (ac Uniaith ar gyfer y prawf Saesneg)) a grŵp oed (7-8 a 10-11 mlwydd oed) yn ymddangos fel newidynnau annibynnol. Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith yn y prawf sillafu Saesneg ($F(3, 193)= 4.594$, $p= .004$) ac yn y prawf sillafu Cymraeg ($F(2, 162)= 3.399$, $p= .036$).

Gwelwn fod y grŵp uniaith wedi perfformio orau ar y prawf sillafu Saesneg ($p= .021$). Nid oedd rhyngweithiad arwyddocaol rhwng cefndir iaith ac oed.



Ffigwr 13 Sgorau plant ar brawf sillafu Saesneg yn ôl grŵp oed ac iaith cartref.

Gwelwn fod y grŵp Cymraeg wedi perfformio orau ar y prawf sillafu Cymraeg (*p*= .032) ac roedd hyn, fel y canlyniad ar gyfer sillafu yn Saesneg, yn ganlyniad disgwyliedig.



Ffigwr 14 Sgorau plant ar brawf sillafu Cymraeg yn ôl grŵp oed ac iaith cartref.

Hefyd, yn ôl y disgwyl, roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau oed yn y prawf Saesneg ($F(1, 193)= 125.309$, $p= .000$) a'r prawf Cymraeg ($F(1, 162)= 22.729$, $p= .000$).

Casgliadau cyffredinol

Roedd cynnydd parhaol yn natblygiad ieithyddol yr holl sampl, gyda'r plant dwyieithog yn gwella gydag oed yn eu dwy iaith. Roedd y cynnydd hwn i'w weld ar gyfer eu

hadnabyddiaeth o eirfa a sgiliau darllen. Gwelwn fod plant dwyieithog o gartrefi I1 Saesneg yn cyrraedd lefelau plant Uniaith ar y profion geirfa a darllen yn Saesneg tra bod eu datblygiad yn gymharol arafach yn y Gymraeg.

Yn y profion Cymraeg, roedd plant dwyieithog o gartrefi I1 Cymraeg yn cyrraedd lefelau uwchraddol i gymharu â gweddill y sampl dwyieithog (I1 Saesneg a Cytbwys gartref) yn y prawf geirfa a'r prawf darllen a sillafu.

Gwelwn felly bod mewnbwn ieithyddol y cartref yn ffactor hollbwysig wrth bennu llwyddiant ieithyddol. At ei gilydd, mae'r patrymau hyn yn amlygu materion sydd o bwys i'r sefyllfa addysg yng Nghymru ac yn cadarnhau gwahaniaethau fel y gofynnir yn y cwestiynau ymchwil gwreiddiol. Trafodir goblygiadau'r canlyniadau hyn ym Mhennod 8.

PENNOD 6

Astudiaeth 2:

Canlyniadau Gwybyddol.

Cyflwyniad

Yn y bennod hon, ceir adroddiad o'r canlyniadau ar gyfer mesuriadau gwybyddol a ddefnyddiwyd ar gyfer ymchwilio'r cwestiynau ymchwil isod:

1. Pa fanteision gwybyddol sy'n deillio o ganlyniad i ddwyieithrwydd?
2. Ydy'r effeithiau'n gryfach ymysg plant o rai cefndiroedd iaith nag eraill?

Er mwyn archwilio'r cwestiynau hyn, defnyddiwyd cymysgedd o fesuriadau safonedig a thasgau wedi eu haddasu er mwyn edrych ar sgiliau uwch wybyddol plant, yn bennaf, eu sgiliau atal a rheoli sylw, eu gallu i (gyf)newid rheol a'u sgiliau meta-ieithyddol a chreadigol gan fod ymchwil diweddar yn y maes rhyngwladol wedi adnabod manteision i grwpiau dwyieithog ar brofion o'r fath (gweler e.e. Bialystok, 2009 am adolygiad a'r drafodaeth ym Mhennod 2).

Dulliau Ymchwil

Rhoddwyd amrywiaeth o brofion cyfrifiadurol a phrofion ymarferol i'r plant. Cafodd y profion eu haddasu o brofion oedd eisoes wedi eu defnyddio gan ymchwilwyr rhyngwladol yn y maes (gweler cyfeirnodau penodol wrth deitl pob prawf). Rhoddwyd cyfarwyddiadau i'r plant ynglŷn â sut i ymateb i'r profion fesul un. Roedd dau brawf cyfrifiadurol oedd yn edrych ar sgiliau uwch wybyddol (rheoli ac atal sylw) y plant. Roedd gweddill y profion yn edrych ar gymysgedd o sgiliau meta-ieithyddol, creadigrwydd ac uwch wybyddol (atal a newid rheol) ble roedd rhaid i'r plant ddilyn cyfarwyddiau penodol ar gyfer cwblhau'r tasgau wrth gael eu hamseru (ceir rhagor o fanylion am bob prawf yn ei dro isod).

Defnyddiwyd yr un sampl o blant a fu'n derbyn y profion ieithyddol (Pennod 5) ar gyfer yr arbrofion hyn (gweler disgrifiad manylach o'r sampl ym Mhennod 4).

Dadansoddiadau

Er mwyn cymharu perfformiad y plant o wahanol gefndiroedd iaith ar y gwahanol agweddau o'r profion gwybyddol, cynhaliwyd prawf dadansoddi amrywiant (ANOVA ailadrodd- mesurau). Mesurwyd gwahaniaethau yn eu perfformiad ar draws agweddau penodol ym mob prawf (fe'u rhestrir yn benodol yng nghyd-destun pob prawf isod). Roedd y rhain yn ymddangos fel y ffactorau dibynnol ym mhob prawf ystadegol ac iaith y cartref (I1 Cymraeg, I1 Saesneg, Cytbwys ac Uniaith) a grŵp oed (7-8 a 10-11 mlwydd oed) yn ymddangos fel ffactorau rhyng- gyfrannol.

Canlyniadau

Mesuriadau Uwch-wybyddol

(i) Cyfnewid Rheol

Arbrawf 1. Sustained Attention to Response Test (SART) (Kennedy, 2012; addasiad o Robertson, Manly, Andrade, Baddeley, & Yiend, 1997)

Roedd y SART, yn fesur o allu'r plentyn i gynnal eu sylw ar stimiwli penodol dros gyfnod o amser. Pwrpas y prawf hwn oedd gweld os oedd plant dwyieithog yn gyflymach yn eu gallu i ymateb drwy bwyso botwm wrth weld rhifau o 1-9 ar sgrin wrth atal ymateb i'r rhif 3 bob tro. Yr ail bwrpas oedd gweld os oedd plant dwyieithog yn well na phlant uniaith pan newidiwyd y rheol o atal ymateb wrth weld y rhif 3 i atal ymateb wrth weld y rhif 3 a'r rhif 8.

Yn y cyflwr cyntaf, roedd y cyfrifiadur yn cyflwyno rhifau'n unigol ar y sgrin, ar gyflymder o un bob eiliad, ac roedd angen i'r plant bwyso botwm wrth weld pob rhif, oni bai eu bod nhw'n gweld y rhif 3. Gwnaed hyn dros gyfres o 9 set o 25 o ddigidau rhwng 1 a 9 (225 eitem i gyd). Yn yr ail gyflwr, newidiwyd y rheol. Y tro yma, roedd angen i'r plant beidio pwyso'r botwm os oedden nhw yn gweld y rhif 3 neu'r rhif 8.

Cafodd y digidau eu cyflwyno yn ganolog ar sgrin gyfrifiadurol. Roedd ysbaid o 1150ms rhwng pob rhif, ac roedd pob sgrin yn cael eu cyflwyno fel rhif gwyn ar gefndir du. Roedd disgwyl i'r plant ymateb i'r rhifau drwy wasgu'r allweddell, ac i beidio ymateb os yr oeddent yn gweld rhif 3 (neu 8). Casglwyd amser ymateb a gwybodaeth am bob gwasg ar yr allweddell. Fe ofynnwyd i'r plant i roi sylw cyfartal i ymateb mor gyflym â phosib ac i geisio bod mor gywir â phosib (ceir enghraifft yn Atodiad 8).

Rhagdybir y byddai'r plant yn y grŵp dwyieithog yn perfformio orau ar ddau gyflwr y dasg SART gan fod ymchwil blaenorol wedi dangos mantais ddwyieithog gyda'r prawf hwn ble mae dwyieithrwydd y plant yn rhoi benthyg sgiliau uwchraddol o ran cyfnewid.

Canlyniadau

Cynhaliwyd prawf dadansoddi amrywiant (ANOVA ailadrodd- mesurau) gydag amser ymateb y plant ar y ddau dreial (cyn ac ar ôl y newid) fel y ffactor ac iaith y cartref (I1 Cymraeg, Cytbwys, I1 Saesneg, Uniaith) a grŵp oed (7-8 a 10-11 mlwydd oed) yn ymddangos fel ffactorau rhyng- gyfrannol. Dangosodd y canlyniadau wahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith ($F(3,191)= 3.443$, $p= .018$) a'r grwpiau oed

(F(1,191)=9.234 p=.003). Gwelwn fod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grŵp Uniaith a'r grŵp Cytbwys (p= .015) gyda'r plant o gartrefi Cytbwys yn ymateb fwyaf cyflym yn y prawf SART yn gyffredinol (cyn ac ar ôl y newid rheol) a'r unigolion uniaith yn ymateb fwyaf araf. Dangoswyd hefyd fod y sampl yn ymateb yn gyflymach yn rhan cyn- newid y prawf i gymharu â'r rhan ar ôl newid (gweler Ffigwr 15). Roedd y canlyniad hwn yn ddisgwyliedig gan i'r prawf fynd yn fwy cymhleth. Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol arall.



Ffigwr 15 Prawf SART: Amser ymateb cymedrig ar gyfer y prawf yn gyffredinol yn ôl grŵp iaith a chyflwr.

Gwelwn felly fod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grŵp Uniaith a'r grŵp Cytbwys a bod unigolion sy'n derbyn dwy iaith gartref (fel y siaradwyr 'Cytbwys dwyieithog' yn ymchwiliadau Bialystok, 2009) yn gallu cynnal sylw ar stimiwli penodol dros gyfnod o amser yn well nag unigolion o gartrefi uniaith neu blant dwyieithog anghytbwys. Er hynny, gan nad oedd rhyngweithiad rhwng iaith y cartref a chyflwr (cyn/ar ôl newid rheol) nid oes modd datgan fod y plant dwyieithog yn well wrth newid rheol.

Arbrawf 2. Prawf Newid Byd – "Opposite Worlds Task" (Addasiad o Bialystok & Shapero, 2006)

Prawf oedd hwn i asesu sgiliau meta-ieithyddol plant. Datblygwyd y dasg yn wreiddiol gan Bialystok a Shapero (2006) ar gyfer darganfod effaith dwyieithrwydd ar ymateb plant i brawf lle ceir newid mewn rheol sy'n ymofyn hyblygrwydd meddyliol yng nghyd-destun iaith. Seilwyd eu prawf ar waith Manly *et al.* (1999) a ofynnodd i blant enwi'r rhifau '1' a '2' ar sgrin mor gyflym â phosib, cyn mynd ymlaen i labelu'r rhifau yn

wrthgyferbyniol (h.y. galw'r rhif '1' yn '2' a '2' yn '1') mor gyflym â phosib. Addasodd Bialystok a Shapero (2006) y dasg i fod yn fwy deniadol i blant, ac addaswyd y prawf hwnnw ar gyfer yr astudiaeth bresennol.

Yn y Prawf Newid Byd, roedd llwybr hir a throellog yn ymddangos mewn llun, yn cychwyn wrth feudy fferm ac yn ymdroelli i lawr y buarth. Arno, roedd lluniau o un ai gwartheg a chŵn, neu ddefaid a moch. (Penderfynwyd defnyddio set o anifeiliaid unsill (*buwch/ci*), a set o anifeiliaid deusill (*dafad/mochyn*) yn y fersiwn Gymraeg i weld os oedd yna fantais ddwyieithog ar gyfer geiriau unsill fel y darganfu gan Bialystok a Shapero (2006) yntau i eiriau deusill oherwydd bod hyn yn defnyddio sgiliau prosesu uwch.) Tasg y plentyn oedd dilyn y llwybr ac enwi'r anifeiliaid (*buwch* neu *gi*; *dafad* neu *fochyn*) oedd yn ymddangos ar y llwybr mor gyflym â phosib, yn Gymraeg.

Roedd dau gyflwr arbrofol; Yn y cyflwr cyntaf (cyn newid), roedd rhaid enwi pob anifail gyda'i enw cywir (h.y., enwi pob ci yn *gi*, a phob buwch yn *fuwch*). Pwrpas y cyflwr hwn oedd adnabod unrhyw ddiffyg oedd gan unrhyw blentyn wrth enwi'r anifeiliaid. Yn yr ail gyflwr (ar ôl newid), eglurwyd i'r plentyn fod y beudy yn cael ei droi ben - i - waered ac yn newid byd. Nawr, roedd angen i'r plant enwi pob anifail gyda'r label gwrthgyferbyniol (e.e. galw pob ci yn *fuwch* a phob buwch yn *gi*). Pwrpas yr ail gyflwr oedd mesur gallu'r plant i atal eu hymateb greddfol o labelu'r anifeiliaid gyda'u henwau arferol ac enwi'r anifeiliaid yn unol â'r rheol newydd (gweler Atodiad 9 am esiampl weledol o'r prawf). Roedd 12 o'r naill anifail ar llall ym mhob prawf - cyfanswm o 24 anifail i'w henwi i gyd. Roedd trefn yr anifeiliaid ar y llwybr yn aros yr un fath i bob plentyn (gweler Atodiad 9).

Roedd yr amser (mewn eiliadau) oedd hi'n cymryd i enwi'r holl anifeiliaid yn cael ei gofnodi, ac fe recordiwyd y nifer o gamgymeriadau yr oedd y plant yn eu gwneud. Roedd rhaid i'r plant gwblhau'r dasg mewn pedair ffordd wahanol wrth wneud dau dreial (cyn ac ar ôl newid) ar gyfer *buwch/ci* a dau ar gyfer *dafad/mochyn*. Cyflwynwyd un ai'r cyflwr buwch/ci neu dafad/mochyn i'r plentyn ar y tro, ac fe amrywiwyd trefn yr enwi ar draws y plant. Roedd y plant yn cwblhau'r ddau dreial (cyn ac ar ôl newid) ar gyfer yr un set o anifeiliaid (un ai buwch/ci neu dafad/ mochyn) ac yna'n symud ymlaen i'r set nesaf.

Yn y dasg, roedd yr ymchwilydd yn symud ei bys ar hyd y llwybr o un anifail i'r llall, a dim ond yn symud ymlaen i'r anifail nesaf pan gafwyd ateb cywir. Roedd hyn, felly yn troi camgymeriad yn gosb amser.

Er mwyn adnabod effeithiau addysg Gymraeg ar y plant dwyieithog, gofynnwyd iddynt oll enwi'r anifeiliaid yn Gymraeg. Gofynnwyd i'r plant uniaith wneud yr un dasg, ond roedd angen iddyn nhw ymateb yn Saesneg. Gan fod y cyfieithiadau o'r enwau i gyd yn unsill yn Saesneg, dim ond ar gyfer yr enwau unsill y ceir cymhariaeth yma rhwng y plant dwyieithog a'r plant uniaith. Ond hyd yn oed wrth gymharu ar draws grwpiau iaith ar yr eitemau unsill, rhaid bod yn wyliadwrus wrth ddehongli unrhyw wahaniaethau rhwng y grwpiau dwyieithog a'r grŵp uniaith gan fod yr enwau oedd y plant yn eu cynhyrchu yn wahanol.

O fewn y grŵp dwyieithog, rhagdybir y byddai plant o gartrefi I1 Cymraeg yn perfformio'n waeth na phlant o gartrefi Cytbwys a I1 Saesneg oherwydd eu bod nhw'n adlewyrchu sampl mwyaf 'uniaith' y grŵp gan nad oedd ganddynt gymaint o brofiad gyda'r Saesneg i gymharu â'r ddau grŵp arall. Rhagdybir felly y byddai hyn yn eu rhwystro wrth geisio newid o un rheol i'r llall gan na fyddai'r sgiliau hyn yn flaengar ganddynt i gymharu â phlant o gartrefi ble siaradir lefel amrywiol o Saesneg sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg (h.y. sydd wedi cael mwy o gyfle i ddatblygu dwy iaith, a all eu harwain yn haws drwy dasg fel hyn). Byddai'r grŵp I1 Cymraeg felly yn ymateb yn arafach ac yn gwneud mwy o gamgymeriadau i gymharu â phlant o grwpiau Cytbwys a I1 Saesneg, wrth gymharu'r rhagdybiaeth hyn (yn llac) gyda chanlyniadau Bialysok a Shapero (2005).

Canlyniadau

Dadansoddwyd canlyniadau'r plant ar y fersiwn *buwch/ci* a'r fersiwn *dafad/mochyn* ar wahân. Ar gyfer pob un, cynhaliwyd prawf dadansoddi amrywiant (ANOVA ailadrodd-mesurau) i fesur gwahaniaethau ar draws dau gyflwr enwi (cyn ac ar ol newid) gydag amser ymateb y plant ar y ddau gyflwr fel y factor dibynnol ac iaith y cartref (I1 Cymraeg, I1 Saesneg, a Cytbwys) a grŵp oed (7-8 a 10-11 mlwydd oed) yn ymddangos fel ffactorau rhyng- gyfrannol. Ni ddadansoddir canlyniadau'r grŵp uniaith ar gyfer y prawf hwn gan nad oeddent wedi ymateb i'r ddau brawf o ran mesurau un a dwy sill drwy'r Gymraeg, fel y nodir uchod.

Wrth weinyddu'r prawf, darganfuwyd fod y plant yn perfformio'n well na'r disgwyl, ac o ganlyniad ddim yn gwneud cymaint o gamgymeriadau ac yr oeddem wedi rhagweld, o edrych ar ganlyniadau ymchwil blaenorol gyda'r prawf (Bialystok a Shapero, 2005). Er hynny, roedd gwahaniaethau ar draws y gwahanol grwpiau. Felly penderfynwyd cynnal dadansoddiadau ystadegol ar y canlyniadau. Dangosir y canlyniadau hynny isod.

Amser Ymateb

Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith (Buwch/Ci: (F(2, 166)= 1.413, p= .246) Mochyn/Dafad: (F(2, 166)= 1.268, p= .284), ond roedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y grwpiau oed (Buwch/Ci: (F(1, 166)= 14.773, p= .000), Mochyn/Dafad: (F(1, 166)= 10.787, p= .000)) yn arwydd o ddatblygiad mewn sgiliau meta-ieithyddol gydag oed.



Ffigwr 16 Amseroedd ymateb x oed ar y Prawf Newid Byd - Agwedd Buwch/ Ci.



Ffigwr 17 Amseroedd ymateb x oed ar y Prawf Newid Byd - Agwedd Mochyn/ Dafad.

Camgymeriadau

Nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng grwpiau iaith (F(2,165)= .211, p= .810) na chwaith rhwng grwpiau oed (F(1, 165)= 3.369, p= .058) ar yr agwedd buwch/ci.

Yn wahanol i'r prawf buwch/ci, roedd gwahaniaethau rhwng y grwpiau iaith (*F*(2, 165)= 4.519, *p*= .012) ar y prawf mochyn/dafad. Nid oedd gwahaniaeth rhwng grwpiau oed (*F*(1, 165)= 2.387, *p*= .124). Gwelwn eto fod mwy o gamgymeriadau yn cael eu gwneud yn yr ail dreial (ar ol newid), ac roedd y canlyniad hwn yn ddisgwyliedig gan i amodau'r prawf cymhlethu.

Gwelwn fod y gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y grŵp Cymraeg a'r grŵp Cytbwys (*p*= .015) sy'n awgrymu fod yr agwedd o ddwy sillaf yn y treial hwn i'r grŵp lleiaf dwyieithog (h.y. y grŵp ble mae'r Saesneg wedi cael y dylanwad lleiaf) wedi cynyddu'r nifer o gamgymeriadau a wnaed.



Ffigwr 18 Nifer o gamgymeriadau, ar gyfartaledd ar y Prawf Newid Byd – Agwedd Dafad / Mochyn.

Cyfnewid

Gweler fod amseroedd ymateb yn gwella gydag oed. Fel y disgwyl, roedd pob grŵp yn perfformio'n waeth ar yr ail dreial na'r treial cyntaf (Buwch/Ci: (*F*(1, 166)= 136.278, *p*= .000), Mochyn/Dafad: (*F*(1.166)= 121.211, *p*= .000)).



Ffigwr 19 Amser ymateb cyfredol yn ôl iaith cartref ar y treialau cyn ac ar ol newid ar gyfer 'buwch/ci' ar y prawf newid byd.



Ffigwr 20 Amser ymateb cyfredol yn ôl iaith cartref ar y treialau cyn ac ar ol newid ar gyfer 'mochyn/dafad' ar y prawf newid byd.

(ii) Ataliad

Arbrawf 3. Tasg Flanker (Kennedy, 2012; addasiad o Yang a Lust, 2004)

Tasg gyfrifiadurol oedd y flanker oedd yn mesur elfen o sylw uwch-wybyddol y plant. Roedd y dasg wedi ei chynllunio i archwilio gwahaniaethau datblygiadol mewn tair rhwydwaith uwch-wybyddol: rhybuddio, ymateb cyfeiriadol a rheolaeth uwch-wybyddol.

Mesurwyd y sgiliau hyn yn ôl cyflymder a chywirdeb ymateb. Ceir eglurhad manwl o sut caiff yr elfennau hyn eu mesur yn Yang a Lust (2004). Rhoddwyd y prawf flanker fel y'i dyfeisiwyd yn wreiddiol i'r plant, ac fe roddwyd fersiwn newydd, addasedig, fel y defnyddiwyd gan Kennedy (2012).

Fersiwn 1

Ar gyfer pob treial yn y Flanker gwreiddiol (gweler Atodiad 10), roedd y plant yn gweld rhes o bysgod glas oedd yn wynebu i'r chwith neu'r dde o'r sgrin, gydag un pysgodyn gwyrdd (y targed) oedd un ai'n wynebu'r un ffordd â'r pysgod glas (treial cyfath) neu yn wynebu'r ffordd arall (treial anghyfath) (gweler Atodiad 10i). Roedd rhaid i'r plentyn bwyso allwedd 'A' (wedi ei leoli ar ochr chwith yr allweddell) os oedd y pysgodyn gwyrdd yn mynd i'r chwith, a'r allwedd 'L' (wedi ei leoli ar ochr dde'r allweddell) os oedd y pysgodyn gwyrdd yn mynd i'r dde (ceir enghreifftiau yn Atodiad 10). Roedd y plant yn derbyn adborth ar ffurf glywedol ar gyfer eu hymatebion gyda 'Wohoo' i ddatgan ymateb cywir a 'Awhh' i ddatgan ymateb anghywir.

Roedd y pysgodyn targed wastad yn ymddangos mewn un o dri lleoliad: yn y canol, i'r chwith, neu i'r dde o'r canol. Nid oedd y pysgodyn targed byth yn ymddangos ar un o ddau begwn y rhes o bysgod. Roedd hefyd amrywiaeth ym mhle oedd y llinell o bysgod yn ymddangos ar y llinell darged, neu uwchben/ oddi tano. Roedd y ffactorau yma i gyd yn digwydd ar hap.

Roedd 24 treial ar gyfer pob prawf, ac roedd cyfnod ymarfer ar gychwyn y prawf oedd yn amrywio yn ddibynnol ar ddealltwriaeth y plentyn o'r prawf (h.y. os oeddent yn cwblhau'r 3 treial ymarferol aethpwyd yn syth at yr eitemau arbrofol; os oedd y plentyn yn gwneud camgymeriad yn ystod yr ymarferion aeth y cyfnod ymarfer ymlaen nes i'r plentyn gael 3 eitem yn gywir yn olynol). Roedd cyfnod sefydlog o 300 mili-eiliad cyn cychwyn y prawf ac roedd 300 mili-eiliad o seibiant rhwng pob treial.

Fersiwn 2

Addaswyd y prawf er mwyn gwthio llwyth gwybyddol y plant ar y prawf, ac felly ar gyfer y Flanker addasedig, roedd y pysgod i gyd yn ymddangos yn wyrdd, ac roedd yn rhaid i'r plentyn benderfynu os oedd yr *holl* bysgod yn wynebu'r un ffordd (a dewis 'A' neu 'L' i ddynodi'r cyfeiriad yr oedd yr holl bysgod yn wynebu) neu os oedd un pysgodyn yn wynebu ffordd wahanol i'r gweddill, a nodi i ba gyfeiriad yr oedd yr un pysgodyn bach hwnnw'n

mynd (gweler Atodiad 10ii). Roedd amgylchiadau'r prawf gwreiddiol dal ynghlwm i'r prawf addasedig oni bai am liw'r pysgod.

Rhagdybir y byddai'r plant o gefndiroedd iaith ddwyieithog yn perfformio'n well ar y ddwy dasg Flanker gan fod ymchwil cyfredol wedi datgan fod sgiliau plant dwyieithog yn ymwneud a sylw uwch- wybyddol yn uwchraddol i gymharu â phlant uniaith. Rhagdybir byddai'r grŵp dwyieithog yn ymateb yn gyflymach ac yn fwy cywir i'r treialau, ond y byddai'r gwahaniaeth yn lleihau gyda fersiwn 2 y prawf gan fod y llwyth gwybyddol wedi cynyddu.

Canlyniadau

Flanker Traddodiadol (Fersiwn 1)

Edrychwyd ar berfformiad y plant ar y prawf flanker traddodiadol yn gyntaf er mwyn darganfod unrhyw wahaniaethau rhwng grŵp oed, iaith cartref a math o dreial (cyfath/anghyfath). Cyfrifwyd amseroedd ymateb cyfredol a lefel cywirdeb y plant ar y dasg. Cynhaliwyd dau brawf dadansoddi amrywiant (ANOVA ailadrodd- mesurau) gydag amser ymateb cymedrol neu lefel cywirdeb y plant ar y ddau dreial (gyda'r ffactor wedi ei ddiffinio i gategorïau 'cyfath' ac 'anghyfath') fel y ffactor dibynnol ac iaith y cartref (I1 Cymraeg, I1 Saesneg, Cytbwys ac Uniaith) a grŵp oed (7-8 a 10-11 mlwydd oed) yn ymddangos fel ffactorau rhyng- gyfrannol.

Amser Ymateb

Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau iaith ($F(3, 195)= .750$, $p= .518$). Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau oed ($F(1, 195)= 12.717$, $p= .000$), gydag ymatebion y plant hyn yn gyflymach na'r plant iau, a rhwng math o dreial ($F(1, 195)= 64.046$, $p= .000$), gyda gwell perfformiad ar y cyflwr cyfath na'r cyflwr anghyfath.



Ffigwr 21 Amser ymateb cymedrol ar y dasg Flanker Traddodiadol yn ôl grŵp oed a math o dreial.

Lefel Cywirdeb

Ni ddarganfu gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau iaith ($F(3, 198)= 1.301$, $p= .275$) nac oed ($F(1, 198)= 1.044$, $p= .308$). Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y math o dreial ($F(1, 198)= 4317.232$, $p= .000$). Er hynny, nid oedd gwahaniaeth oed o ran camgymeriadau, sy'n nodi efallai bod y prawf yn rhy hawdd. Addaswyd y prawf i'w wneud yn fwy anodd.



Ffigwr 22 Lefel cywirdeb ar y dasg Flanker Traddodiadol yn ôl grŵp oed a math o dreial.

Flanker Addasedig (Fersiwn 2)

Rhoddwyd ail brawf Flanker i'r plant, oedd yn gwthio llwyth gwybyddol y plant ymhellach ar gyfer darganfod os oedd hyn yn arwain at fantais ar gyfer unrhyw grŵp ieithyddol.

Amlygwyd canlyniad arwyddocaol ar gyfer iaith cartref ar un elfen o'r prawf Flanker addasedig, sef amser ymateb y plant, ar gyfartaledd, wrth ymateb yn gywir neu'n anghywir ar y treialau cyfath ($F(3, 193)= 3.803$, $p= .011$). Gwelwn fod y gwahaniaeth yn bodoli gan fod y grŵp Uniaith ($p= .046$) a'r grŵp Cytbwys ($p= .036$) yn ymateb yn arwyddocaol gynt na'r grŵp Cymraeg.

Gellid gweld, o'r graff, mai'r plant 7/8 I1 Saesneg a I1 Cymraeg oedd yn cymryd yr hiraf i ymateb, ac mai eu canlyniadau nhw sy'n gyfrifol am yr effaith uchod.



Ffigwr 23 Flanker wedi ei addasu: Amser ymateb cymedrig ar gyfer elfen ymatebion cywir ac anghywir yn y treial cyfath.

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol ar gyfer y math o dreial ar yr agwedd hon o'r Flanker addaseding hefyd ($F(1,193)= 232.326$, $p= .000$).



Ffigwr 24 Amser ymateb cymedrol yn gywir neu'n anghywir ar y dasg Flanker Addasedig yn ôl grŵp oed a math o dreial.

Amser Ymateb

Yma eto ni ddarganfu gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau iaith (F(3, 193)= .698, p= .554). Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau oed (F(1, 193)= 13.257, p= .000) a rhwng math o dreial (F(1, 193)= 336.913, p= .000).



Ffigwr 25 Amser ymateb cymedrol ar y dasg Flanker Addasedig yn ôl grŵp oed a math o dreial.

Lefel Cywirdeb

Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau iaith ($F(3, 198)= .884$, $p= .451$) nac oed ($F(1, 198)= 2.399$, $p= .123$). Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y math o dreial ($F(1, 198)= 192.290$, $p= .000$).



Ffigwr 26 Lefel cywirdeb ar y dasg Flanker Addasedig yn ôl grŵp oed a math o dreial.

Roedd y canlyniadau ar gyfer iaith cartref yn annisgwyliadwy gan i ymchwil cyfredol yn ymwneud â'r prawf ddangos mantais ddwyieithog ar y prawf (Bialystok, Craik a Luk, 2008). Gwelwn fod y plant hŷn wedi ymateb yn gyflymach na'r plant iau, a bod pawb wedi perfformio'n well ar dreialau cyfath yn hytrach na threialau anghyfath. Roedd y canlyniadau ar gyfer oed a math o dreial yn ddisgwyliadau gan i sgiliau gwybyddol plant ddatblygu gydag oed a gan fod y treialau anghyfath yn peri mwy o lwyth gwybyddol ar y plant i gymharu â'r treialau cyfath.

Gwelwn felly fod sgiliau gwybyddol plant yn ymwneud a rhybuddio, ymateb cyfeiriadol, a rheolaeth uwch-wybyddol yn datblygu gydag oed ond ni welir unrhyw wahaniaeth cyffredinol rhwng plant uniaith a dwyieithog oni bai am mewn un agwedd benodol o'r flanker addasiedig.

Arbrawf 4. Prawf Stroop Rhifau (Hernandez et al., 2005) (Addasiad o'r gwreiddiol gan Stroop, 1935)

Addaswyd y prawf Stroop (1935) (yn unol ag addasiad Hernandez *et al*. 2010), sydd yn fesur o sylw gwybyddol ac yn galw am atal gwybodaeth o un treial i'r llall, fel mesur arall

o sgiliau gwybyddol y plant. Yn y dasg hon, cyflwynwyd cyfres o rifau mewn rhesi gyda phob rhes yn cynnwys rhwng dau a phedwar rhif unigol, ac roedd pob rhes yn cynnwys cyfres o'r un rhif (e.e., 333, neu 44). Defnyddiwyd y rhifau 1, 2, 3 a 4 yn unig yn y prawf. Tasg y plentyn oedd dweud *faint* o rifau yr oeddent yn gweld mewn rhes, nid y rhif ei hun. Er enghraifft, os yn gweld '33', yr ateb cywir oedd '2' (ac nid '3') (gweler Atodiad 11). Roedd hyn yn gymharol hawdd yn y cyflwr cyfath, ble roedd y nifer o rifau mewn rhes yn cyfateb i'r rhif ei hun (h.y., '22', '333', a '4444'). Ond, yn y cyflwr anghyfath, nid oedd y rhif ei hun yn cyfateb i'r nifer o rifau (e.e., '222', '44', '3333'). Yma felly, roedd y plant angen goresgyn y duedd naturiol i brosesu ystyr y symbol er mwyn ymateb yn gywir, ac roedd hyn yn gorchymyn sgiliau uwch-wybyddol (ceir enghraifft yn Atodiad 11).

Yn y gorffennol, gwelir 'effaith Stroop' yn y treialau anghyfath (hynny yw, ble nad yw'r rhif a welir mewn rhes yn cyfateb i'r nifer o rifau yn y rhes) wrth i'r ymennydd brosesu'r nifer o rifau mewn rhes yn arafach nag yn y treialau cyfath, oedd wedyn yn arwain at amser ymateb arafach yn y treial anghyfath. Y duedd mewn ymchwil cyfredol yn y maes yw bod mantais i unigolion dwyieithog o ran amser ymateb ar y dasg Stroop gan fod eu gallu i reoli dwy iaith yn gymorth iddynt gyda'r dasg (Bialystok, 2009; Hernandez *et al*., 2010).

Roedd y plant i gyd yn derbyn y ddau dreial, ac roeddent yn derbyn cyfarwyddiadau i ddweud yn uchel ar lafar y *nifer* o rifau oedd mewn unrhyw un rhes, nid y rhif ei hun. Roedd pob treial yn cael ei amseru, a phob camgymeriad yn cael ei nodi.

Rhagdybir y byddai plant yn y grŵp dwyieithog yn dangos llai o effaith Stroop, h.y. yn ymateb yn gyflymach yn y treialau anghyfath i gymharu â'r plant uniaith - yn gysylltiadol a'r ymchwil cyfredol ar y dasg Stroop (Hernandez *et al.*, 2010).

Canlyniadau

Cynhaliwyd prawf dadansoddi amrywiant (ANOVA ailadrodd- mesurau) gyda sgorau'r plant ar y ddau dreial (cyfath ac anghyfath) fel y ffactor dibynnol ac iaith y cartref (I1 Cymraeg, I1 Saesneg, Cytbwys, Uniaith) a grŵp oed (7-8 a 10-11 mlwydd oed) yn ymddangos fel ffactorau rhyng- gyfrannol.

Amser Ymateb

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y grwpiau oed ($F(1, 197)= 23.551$, $p= .000$), gan i'r sampl hŷn ymateb yn gyflymach na'r sampl iau (gweler Ffigwr 27), ond nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith ($F(3, 197)= .316$, $p= .814$).

Gwelwn hefyd fod y sampl cyfan yn ymateb yn gyflymach yn y treialon cyfath yn hytrach na'r rhai anghyfath (*F*(1, 197)= 493.961, *p*= .000).



Ffigwr 27 Amser ymateb ar y Stroop rhifau yn ôl grŵp oed ac iaith cartref.

Er nad oedd y canlyniadau'n arwyddocaol, mae'n ddiddorol nodi mai'r plant uniaith a phlant o gefndir Saesneg oedd yn perfformio arafaf ar y dasg yn y grŵp oed 7-8, gyda'r gwahaniaethau hynny wedi diflannu erbyn 10/11 oed.

Camgymeriadau

Edrychwyd hefyd ar gyfradd y camgymeriadau a wnaed gan y sampl yn y ddau dreial. Defnyddiwyd yr un dadansoddiad, gyda'r nifer o gamgymeriadau yn ymddangos fel newidyn dibynnol y tro hwn. Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith (*F*(3, 197)= 5.961, *p*= .001) a rhwng grwpiau oed (*F*(1, 197)= 11.688, *p*= .001). Amlygai'r gwahaniaeth hwn gan i blant o gartrefi Cymraeg (*p*=. 010) neu Cytbwys (p= .003) wneud nifer mwy sylweddol o gamgymeriadau ar y prawf Stroop rhifau na phlant uniaith.



Ffigwr 28 Nifer y camgymeriadau ar y prawf Stroop rhifau yn ôl grŵp oed ac iaith cartref.

Plant Cytbwys a I1 Cymraeg oedd yn cynhyrchu'r mwyaf o gamgymeriadau yn 7/8 oed, gyda'r plant Cytbwys yn dal i fyny gyda'r plant I1 Saesneg ac uniaith erbyn oed 10/11. Y grŵp I1 Cymraeg oedd yn gwneud y mwyaf o gamgymeriadau yn y ddau grŵp oed.

I grynhoi, gwelir o'r canlyniadau fod y sampl hŷn yn gwneud llai o gamgymeriadau na'r sampl iau (fel y disgwyl) a bod y sampl yn ymateb yn gyflymach yn y treialau cyfath yn hytrach na'r rhai anghyfath (eto, fel y disgwyl). Gellir dadlau, felly, bod yr amser ymateb cyflymach ymysg y plant cefndir iaith Gymraeg fod ar draul atebion cywir.

(iii) Meddwl Dargyfeiriol

Arbrawf 5. Torrance Test of Creative Thinking (TTCT) (Torrance, 1974)

Fel y gellir gweld o dabl 12, nid oedd perthynas arwyddocaol rhwng agweddau rhieni ac oed eu plant. Ond, roedd cydberthynas arwyddocaol rhwng agweddau'r rhieni (ar chwe chwestiwn yn negyddol ac un cwestiwn yn bositif) ac iaith y cartref.

Yn groes i weddill y canlyniadau, roedd rhieni o gartrefi Cymraeg yn arddangos agwedd mwy agored tuag at unigolion sydd ddim yn siarad Cymraeg. Roedd cydberthynas negyddol arwyddocaol rhwng iaith y cartref ac ymatebion y rhieni i'r datganiadau canlynol:

'Tydi unrhyw un sydd yn erbyn adfywio'r Gymraeg ddim yn Gymro' (AG1)

'Ni fyddai Cymru yn Gymru heb siaradwyr Cymraeg' (AG2)

'Mi fuasai Cymru yn colli ei hunaniaeth fel diwylliant unigol heb yr iaith Gymraeg' (AG3)

'Bydd Cymraeg yn parhau i farw os na wnawn ni rhywbeth yn ei gylch yn fuan' (AG5).

Hynny ydy, po fwyaf y Gymraeg a siaradwyd yn y cartref, y mwyaf oedd y rhieni yn anghytuno gyda'r datganiadau hyn. Er hynny, roedd un rhiant Cymraeg yn nodi nad oes cysylltiad, o reidrwydd, rhwng cenedlaetholdeb ac iaith:

'Yn bersonol, dydw i ddim yn meddwl fod y syniad o genedlaetholdeb o gymorth o ran dwyn cefnogaeth i'r iaith' (Dyfyniad gan riant o gartref Cymraeg).

Roedd cydberthynas arwyddocaol positif rhwng iaith cartref y plant a chydwelediad y rhieni ynglŷn â'u cyfrifoldeb fel unigolion i 'achub' yr iaith gan iddynt gytuno y bydd y Gymraeg wedi diflannu mewn cenhedlaeth neu ddwy os nad oes unrhyw ymyrraeth (AG5). Wrth gytuno â chwestiwn 23: *'Mae Cymraeg a Saesneg yn gallu cydfyw efo'i gilydd yn yr ardal hon'*, datganodd un rhiant y canlynol:

'Ydy, ond mae hynny dim ond oherwydd bod y siaradwyr Cymraeg yn 'fodlon' troi i'r Saesneg efo rhai di- Gymraeg. Tydi'r rhai di- Gymraeg ddim yn ymdrechu i siarad efo'r siaradwyr Cymraeg yn eu hiaith' (Dyfyniad gan riant o gartref Cymraeg).

Fe welwn hefyd fod rhieni o gefndiroedd mwy Saesneg yn cael eu heffeithio gan agweddau rhieni o gefndiroedd mwy Cymraeg, ynghyd a natur addysg cyfrwng Cymraeg:

'Happy with my child being taught through the medium of Welsh, however have experienced first-hand how this has excluded me as a parent of being involved with my child's education and support of the school' (Dyfyniad gan riant o gartref Saesneg).

'Schools should offer both English and Welsh options when teaching children. English and Welsh should be given equal standing in class to ensure all pupils understand the lesson' (Dyfyniad gan riant o gartref Saesneg).

Mae'r datganiadau ansoddol hyn felly yn pwysleisio pa mor sensitif yw'r sefyllfa o ran effaith agweddau rhieni ar feddylfryd eu plant tuag at y Gymraeg a dwyieithrwydd.

Geirfa

Tabl 33 Y cydberthynas rhwng cwestiynau agweddau yn ymwneud â Dwyieithrwydd (AD), yr iaith Gymraeg (AG) ac Addysg cyfrwng Cymraeg (ADD) X mesuriadau llythrennedd.

	AG2	**AG3**	**AG16**	**AG19**
BPVS	.237**	.180*	.237**	.185*
PGC	-	-	-.157*	-

Roedd cydberthynas arwyddocaol rhwng agweddau'r rhieni (ar bedwar cwestiwn yn bositif) a pherfformiad eu plant ar y BPVS. Roedd cydberthynas arwyddocaol rhwng agweddau'r rhieni (ar un cwestiwn yn negyddol) a pherfformiad eu plant ar y Prawf Geirfa.

Ymysg rhieni'r plant a berfformiodd orau ar y BPVS y cafwyd yr ymatebion mwyaf positif tuag at bwysigrwydd yn Gymraeg ar gyfer gwarchod hunaniaeth (AG2, 3). Atebir hyn yn y dyfyniad isod:

'In the North, Welsh is part of everyday life so the language + culture is not dying. As a responsible parent, I am learning Welsh in order for my child to be able to have help with homework etc. In our community, Welsh will never die' (Dyfyniad gan riant o gartref Saesneg).

Rhieni o gartrefi mwy Saesneg oedd fwyaf cefnogol o ran dyletswydd y llywodraeth mewn annog y Gymraeg (AD16, 19), tra bo rhieni'r plant oedd yn perfformio orau ar y profion geirfa yn Gymraeg yn dueddol o anghytuno.

Llythrennedd

Tabl 34 Y cydberthynas rhwng cwestiynau agweddau yn ymwneud â Dwyieithrwydd (AD), yr iaith Gymraeg (AG) ac Addysg cyfrwng Cymraeg (ADD) X mesuriadau llythrennedd.

	AG2	**AG5**	**AG16**	**AG19**
NARA Cywirdeb	.150*	-	-	.152*
NARA Dealltwriaeth	.176*	-	-	.144*
G.MENAI Cywirdeb	-	-	-.193*	-
G.MENAI Dealltwriaeth	-	.171*	-.204**	-

Roedd pedwar cwestiwn yn cydberthyn yn bositif gyda pherfformiad y plant ar y profion darllen Saesneg, gydag un cwestiwn yn cydberthyn yn bositif a dau yn cydberthyn yn negyddol gyda pherfformiad y plant ar y profion darllen Cymraeg. Gwelwn eto batrymau tebyg rhwng perfformiad plant ar y profion darllen ac agweddau eu rhieni. Po fwyaf o'r Saesneg a ddefnyddiwyd yn y cartref, y mwyaf yr oedd y rhieni yn credu y dylai'r llywodraeth gefnogi mudiadau'r iaith Gymraeg, gyda llai o gefnogaeth i hynny gan rieni'r plant berfformiodd orau ar y PGC. At hynny, roedd rhieni'r plant a berfformiodd orau ar y PGC yn fwy tueddol na'r gweddill o weld perygl i ddyfodol yr iaith heb unrhyw ymyrraeth fuan (AG5).

I grynhoi felly, roedd rhieni o gefndiroedd mwy Cymraeg yn gweld dyletswydd ar eu hunain i warchod y Gymraeg er nad oeddent yn cytuno gyda datganiadau oedd yn procio mae'r iaith yn unig oedd yn gwneud 'Cymro'. Gwelwn fod rhieni o gefndiroedd mwy Saesneg yn credu fod angen mwy o gefnogaeth gyhoeddus ar gyfer parhad yr iaith Gymraeg ac yn gefnogol iawn o gysylltiad yr iaith gyda diwylliant a hunaniaeth Cymru.

Thema 5: Materion Cymdeithasol, Economaidd a Diwylliannol.

Cyflwynir yma'r ffactorau a gyd-berthynwyd yn y dadansoddiad, sydd wedi eu categoreiddio yn ôl ffactorau cefndirol (oed ac iaith cartref) a'r cwestiynau a ofynnwyd i'r rhieni, sef y ffactorau mesuradwy.

Tabl 35 Ffactorau a gyd-berthynwyd yn y dadansoddiad ar gyfer y thema 'Cymdeithasol, economaidd a diwylliannol'.

Ffactorau Cefndirol	**Ffactorau Mesuradwy (Cwestiynau)**
Oed (7/8 a 10/11)	(AD) Mae siarad Cymraeg a Saesneg yn helpu tuag at gael swydd. (5)
	(AD) Mae gan bobl sy'n siarad Cymraeg a Saesneg fwy o ffrindiau. (14)
	(AD) Mae siarad Cymraeg a Saesneg yn gallu arwain at ddyrchafiad swydd. (16)
Iaith Cartref (I1 Cymraeg,	(AD) Gall pobl ennill mwy o gyflog os ydynt yn siarad Cymraeg a Saesneg. (19)
I1 Saesneg, Cytbwys, Uniaith)	(AG) Mae'n rhaid gwybod y Gymraeg i ddeall diwylliant Cymru. (4)
	(AG) Mae'r Gymraeg yn gallu cael ei hadfywio fel ffordd gyffredin o gyfathrebu. (8)
Profion Ieithyddol (Prawf Geirfa	(AG) Tydi'r rhan fwyaf o bobl ddim yn poeni am y Gymraeg. (9)
Cymraeg, Profion Glannau	(AG) Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gweld popeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rhy hen ffasiwn. (11)
Menai, BPVS, NARA)	(AG) Nid yw'r Gymraeg yn gallu cael ei haddasu i'r byd busnes. (13)
	(AG) Fyswn i ddim yn hapus i beidio clywed y Gymraeg ar y radio a'r teledu. (21)

Roedd chwe datganiad yn cydberthyn yn arwyddocaol ag iaith y cartref o fewn y thema hon, sy'n 70% o'r holl ffactorau a restrwyd. Efallai bod hyn oherwydd bod iaith y cartref yn cael effaith arwyddocaol ar agweddau'r rhieni tuag at faterion cymdeithasol ac ati yn ymwneud â'r Gymraeg. Roedd un ffactor agwedd yn cydberthyn yn arwyddocaol â pherfformiad y plant ar brofion geirfa (1 Saesneg) a saith ffactor agwedd yn cydberthyn gyda pherfformiad y plant ar brofion darllen (7 Saesneg).

Iaith Cartref

Tabl 36 Y cydberthynas rhwng cwestiynau agweddau yn ymwneud â Dwyieithrwydd (AD), yr iaith Gymraeg (AG) ac Addysg cyfrwng Cymraeg (ADD) X mesuriadau cefndirol.

	AD5	**AD14**	**AD19**	**AG4**	**AG8**	**AG9**
Oed	-	-	-	-	-	-
Iaith Cartref	-.191**	-.247**	-.183**	-.373**	-.317**	.162*

Ni welir unrhyw gyd- berthynas rhwng agweddau rhieni ac oedran y plant, sy'n awgrymu eto nad oedd agweddau rhieni yn newid dros amser. Roedd cydberthynas arwyddocaol rhwng agweddau'r rhieni (ar bum cwestiwn yn negyddol ac un cwestiwn yn bositif) ac iaith y cartref. Nid yw rhieni o gartrefi mwy Cymraeg yn cytuno bod siarad Cymraeg a Saesneg yn help ar gyfer cael swydd (AD5) ac ehangu ffrindiau (AD14). Fe all hyn fod oherwydd bod canran uchel o'r sampl hwn yn defnyddio Cymraeg yn naturiol ym mhob agwedd o'u bywydau pob dydd ac felly nad ydynt yn gweld y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth a fuasai'n rhoi mantais iddyn nhw fel unigolion wrth geisio am swydd.

Nid ydynt chwaith yn cytuno y byddai'r gallu i siarad y ddwy iaith yn golygu ennill mwy o gyflog (AD19), ac felly fe allwn weld bod siarad Cymraeg yn rhan annatod o'u bywydau sydd ddim yn cael ei defnyddio at ddibenion economaidd (yn wahanol i rieni o gartrefi mwy Saesneg, efallai, sy'n' annog eu plant i ddysgu er mwyn elwa o'r cyfleoedd hynny). Mae rhieni o gartrefi mwy Cymraeg yn cytuno nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn poeni am y Gymraeg (AG9) nac y gellid eu hadfywio fel modd o gyfathrebu (AG8). Fe allwn weld yma bod eu hagweddau wedi disgyn yn ôl i'r un patrwm gan iddynt awgrymu eu bod nhw yn y lleiafrif o bobl sy'n cefnogi'r Gymraeg wrth ei siarad gartref a darparu eu plant gydag addysg drwy'r Gymraeg. Ceir enghraifft ansoddol o farn un rhiant isod:

'Mae'n bwysig dysgu Cymraeg i bob plentyn yng Nghymru dim ots ble maen nhw'n byw. O leiaf wedyn byddant yn ymwybodol o iaith eu gwlad!' (Dyfyniad gan riant o gartref Cymraeg).

Wrth gytuno gyda chwestiwn 16: *'Mae siarad Cymraeg a Saesneg yn gallu arwain at ddyrchafiad swydd'*, datganodd un rhiant y canlynol:

'Ydy ond tydi'r gallu i siarad Cymraeg ddim yn cael ei chydnabod fel sgil ar gyfer cael swydd fel norm - bolt on ydyw - lwc ydy hi os ydy rhywun yn siarad Cymraeg os nad oes polisi pendant yn bodoli' (Dyfyniad gan riant o gartref Cymraeg).

Gwelwn fod rhieni o gefndiroedd mwy Cymraeg yn gweld yr iaith fel rhan annatod o fywydau eu plant, yn hytrach nag ased at ddibenion dyrchafiad swydd er enghraifft, ond gwelwn fod rhieni o gefndiroedd mwy Saesneg yn gweld manteision economaidd a chymdeithasol dwyieithrwydd.

Geirfa

Tabl 37 Y cydberthynas rhwng cwestiynau agweddau yn ymwneud â Dwyieithrwydd (AD), yr iaith Gymraeg (AG) ac Addysg cyfrwng Cymraeg (ADD) X mesuriadau llythrennedd.

	AG8
BPVS	.152*
PG	-

Nid oedd agweddau'r rhieni i Thema 5 yn cydberthyn llawer gyda pherfformiad y plant ar y profion geirfa. Yr unig batrwm a amlygwyd oedd bod rhieni'r plant oedd wedi perfformio orau ar y BPVS yn fwyaf tebygol o gredu bod modd adfywio'r Gymraeg fel ffordd gyffredin o gyfathrebu (AG8). Mae hyn yn ganlyniad positif sy'n cyd-fynd â'u hagweddau ynglŷn â dwyieithrwydd yn y themâu blaenorol:

'I think Welsh lessons in English schools should be as important as English and Maths. When I was in high school I think French, Spanish, German should be left to the option years and more Welsh lessons promoted' (Dyfyniad gan riant o'r grŵp Uniaith [Saesneg]).

Llythrennedd

Tabl 38 Y cydberthynas rhwng cwestiynau agweddau yn ymwneud â Dwyieithrwydd (AD), yr iaith Gymraeg (AG) ac Addysg cyfrwng Cymraeg (ADD) X mesuriadau llythrennedd.

	AD5	**AD14**	**AD16**	**AD19**	**AG4**	**AG8**
NARA Cywirdeb	-	-	-	-	-	-
NARA Dealltwriaeth	-	-	-	-	-	-
G.MENAI Cywirdeb	-.161*	-.178*	-.162*	-.225**	-.216**	-.258**
G.MENAI Dealltwriaeth	-	-	-	-	-	-.206**

Roedd cydberthynas arwyddocaol rhwng agweddau'r rhieni (ar saith cwestiwn yn negyddol) a pherfformiad eu plant ar y Profion Glannau Menai. Nid oedd unrhyw gydberthynas rhwng agweddau'r rhieni a pherfformiad y plant ar y profion darllen Saesneg.

Roedd rhieni'r plant wnaeth orau ar y profion Cymraeg yn anghytuno y byddai'r Gymraeg yn help ar gyfer cael swydd (AD5), dyrchafiad swydd (AD16), gwell cyflog (AD19), ac ehangu ffrindiau (AD14), ond fe all hyn gael ei esbonio gan feddylfryd y rheini hyn fod y Gymraeg iddyn nhw'n rhan o fywyd pob dydd ac nid yn rhywbeth sy'n cael ei weld fel ased i ddibenion swydd er enghraifft. Nid oedd y rhieni o gartrefi mwy Cymraeg chwaith yn cytuno fod angen deall y Gymraeg i allu nabod diwylliant Cymru (AG4) nac fod modd adfywio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebol (AD8).

Yn gyffredinol felly, gwelwn fod agweddau rhieni ynglŷn â materion gwleidyddol yn cyd-fynd gyda'u cefndir iaith; h.y. credai rieni o gefndir iaith mwy Cymraeg yn y Gymraeg fel rhan annatod o fywydau eu plant, ac nid fel ased ar gyfer dibenion economaidd. Credai rieni o gefndiroedd mwy Saesneg fod modd atgyfodi'r Gymraeg fel ffurf effeithiol o gyfathrebu, sy'n cyd- fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ynglŷn â dyfodol yr iaith, ac yn fater i'w drafod ym Mhennod 8.

Pennod 7: Astudiaeth 3

Gan nad oedd modd casglu agweddau'r plant eu hunain (oherwydd cyfyngder amser), teimlwyd fod angen rhyw fesur o ddylanwadau allanol - tu hwnt i agweddau rhieni - ar sgiliau iaith y plant. At y pwrpas hwnnw, felly, lluniwyd holiadur byr iawn i'w ddosbarthu i'r plant, oedd yn ymofyn cwestiynau byrion ynghylch defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg a chynhaliwyd dadansoddiadau i adnabod dylanwad hyn ar sgorau'r plant (gweler Atodiad 16 am enghraifft o'r holiadur).

Defnydd Iaith y plant mewn perthynas i'w sgorau ar y profion ieithyddol.

Er mwyn archwilio os oedd unrhyw berthynas rhwng defnydd y plant o iaith a'u sgorau ar y profion ieithyddol, cyfrifwyd sgorau cyfartalog ar gyfer ymatebion y plant i gwestiynau ynglŷn â'u defnydd iaith gyda'u ffrindiau ar y cae, ffrindiau ysgol tu allan i'r ysgol a ffrindiau eraill tu allan i'r ysgol (gweler Atodiad 16). Roedd disgwyl y byddai perthynas rhwng arferion defnydd iaith y plant a'u perfformiad ar y profion ieithyddol. Dangosir y canlyniadau ar gyfer y profion ieithyddol (geirfa a darllen) Cymraeg a Saesneg isod yn eu tro.

Profion Geirfa

Cynhaliwyd prawf dadansoddi amrywiant (ANOVA un- newidyn) gyda sgorau crai'r unigolion ar y prawf ieithyddol yn ymddangos fel y newidyn dibynnol, a defnydd iaith gyda'u cyfoedion (Cymraeg yn unig, Cymraeg ran amlaf, Cymraeg a Saesneg, Saesneg ran amlaf, Saesneg yn unig) a grŵp oed (7-8 a 10-11 mlwydd oed) yn ymddangos fel newidynnau annibynnol.

BPVS

Datgelodd y dadansoddiad wahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau defnydd iaith ($F(4, 193)= 11.918$, $p= .000$) a gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau oed ($F(1, 193)= 101.712$, $p= .000$). Dangosodd ddadansoddiadau post- hoc (Tukey's) fod y gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y plant oedd yn datgan eu bod yn defnyddio Saesneg yn bennaf (oedd yn perfformio orau) a phlant oedd yn defnyddio Saesneg yn unig ($p= .001$) a phlant oedd yn defnyddio Cymraeg yn Unig ($p= .000$) a rhwng plant oedd yn defnyddio Cymraeg yn unig a'r plant oedd yn defnyddio Saesneg yn unig ($p= .000$).



Ffigwr 37 Perfformiad cyfartalog plant ar y BPVS yn ôl eu defnydd iaith.

Prawf Geirfa Cymraeg.

Datgelodd y dadansoddiad wahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau defnydd iaith ($F(4, 160)= 13.186$, $p= .000$) a gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau oed ($F(1, 160)= 50.064$, $p= .000$). Dangosodd ddadansoddiadau post- hoc (Tukey's) fod y gwahaniaeth arwyddocaol rhwng plant oedd yn defnyddio Saesneg yn unig a phlant oedd yn defnyddio Cymraeg yn unig ($p= .000$), Cymraeg gan amlaf ($p= .008$), Cymraeg a Saesneg ($p= .000$) a Saesneg gan amlaf ($p= .000$). Hynny yw, roedd plant oedd yn defnyddio mwy o Gymraeg yn gymdeithasol yn perfformio'n well ar y PGC.



Ffigwr 38 Perfformiad plant ar y Prawf Geirfa Cymraeg yn ôl eu defnydd iaith.

Profion Darllen.

Cynhaliwyd prawf dadansoddi amrywiant (ANOVA ailadrodd- mesurau) gyda sgorau safonedig cywirdeb a darllen a deall y plant fel y ffactor o fewn cyfranwyr, a defnydd iaith (Cymraeg yn unig, Cymraeg ran amlaf, Cymraeg a Saesneg, Saesneg ran amlaf, Saesneg yn unig) a grŵp oed (7-8 a 10-11 mlwydd oed) yn ymddangos fel ffactorau rhyng-gyfrannol.

NARA

Datgelodd y dadansoddiadau wahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau defnydd iaith ($F(4, 191)= 2.587$, $p= .038$) a gwahaniaeth rhwng y grwpiau oed ($F(1, 191)= 114.951$, $p= .000$). Dangosodd ddadansoddiadau post- hoc (Tukey's) fod y gwahaniaethau arwyddocaol o ganlyniad i'r plant oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn unig berfformio'n waeth na'r plant oedd yn defnyddio'r Saesneg gan amlaf ($p= .041$), a'r plant oedd yn defnyddio Cymraeg gan amlaf yn perfformio'n waeth na'r plant oedd yn defnyddio Saesneg yn unig ($p= .005$).



Ffigwr 39 Perfformiad cyfartalog plant ar y NARA yn ôl eu defnydd iaith.

Profion Glannau Menai.

Datgelodd y dadansoddiadau wahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau defnydd iaith ($F(4, 160)= 3.849$, $p= .005$) a gwahaniaeth rhwng y grwpiau oed ($F(1, 165)= 61.242$, $p= .000$). Dangosodd ddadansoddiadau post- hoc (Tukey's) bod y gwahaniaethau arwyddocaol rhwng plant oedd yn defnyddio Cymraeg yn unig a phlant oedd yn defnyddio Saesneg yn unig ($p= .002$) a rhwng plant oedd yn defnyddio Saesneg gan amlaf a phlant oedd yn defnyddio

Saesneg yn unig (*p*= .020), gyda'r rhai hynny oedd yn defnyddio'r mwyaf o Gymraeg yn perfformio orau.



Ffigwr 40 Perfformiad cyfartalog plant ar y Prawf Geirfa Cymraeg yn ôl eu defnydd iaith.

Crynodeb

At ei gilydd, mae'r dadansoddiadau uchod yn ehangu ar brif gasgliadau'r ymchwil. Dangosodd y dadansoddiadau bod plant oedd yn defnyddio mwy o un iaith (boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg) yn gymdeithasol gyda'u cyfoedion yn perfformio'n well ar brofion ieithyddol yn yr iaith honno. Hynny ydy, mae'r canlyniadau, at ei gilydd, yn dangos yn glir nid yn unig fod amlder clywed a derbyn iaith yn pennu llwyddiant plant yn yr iaith honno ond hefyd amlder defnydd plant o'r iaith yn gymdeithasol gyda'u cyfoedion. Fe drafodir goblygiadau'r canlyniadau hyn ynghyd â gweddill y canlyniadau o Astudiaethau 1, 2 a 3 ym Mhennod 8.

Crynodeb Cyffredinol

Fel sydd eisoes wedi ei grybwyll, mae rhai rhieni yng Nghymru (fel eu cyfoedion rhyngwladol) yn bryderus o anfon eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg (Barry, 2001; Cynllun Iaith Gymraeg Conwy, 2009; Banda, 2000). Awgrymir fod hyn oherwydd eu bod yn poeni am nifer o ffactorau, megis bod datblygiad ieithyddol eu plant yn iaith y cartref (e.e. Saesneg yng nghyd-destun Cymru) yn dioddef, y bydd y plentyn yn ffwndro ac yn methu llwyddo yn addysgol, a gallu ieithyddol y rhieni a'r cymorth y gallent nhw (neu beidio) ei ddarparu i'w plant. Ond mae'r canlyniadau presennol yn awgrymu fod agweddau rhieni'r plant a brofwyd yn bositif tuag at ddwyieithrwydd yn gyffredinol, yn enwedig rhieni o gefndiroedd mwy Saesneg ar effaith addysg cyfrwng Cymraeg ar sgiliau Saesneg eu plant. Mae hyn yn ganlyniad calonogol o ran dwyn cefnogaeth i barhad addysg cyfrwng Cymraeg fel ffurf o ddatblygu dwyieithrwydd ymysg grwpiau amrywiol o gefndiroedd iaith - nid yn unig plant o gartrefi I1 Cymraeg.

Darlun cymhleth sydd i'w weld o edrych ar y canlyniadau fel cyfanrwydd, gyda rhai elfennau yn croes- ddweud ei gilydd o dan wahanol ffactorau. Gwelwn fod mwy o ffactorau yn cydberthyn gyda mesurau llythrennedd o'u cymharu â geirfa, sy'n ganlyniad disgwyliedig gan fod rhieni yn fwy tebygol o weld datblygiad llythrennedd fel cysyniad hollbwysig o fewn addysg na geirfa. Ond gwelwn fod agweddau rhieni yn amrywio yn ôl y cefndir iaith y maent yn deillio ohono, a bod yr agweddau rhain yn cael effaith ar berfformiad eu plant ar brofion ieithyddol sy'n cyd- fynd a chwestiynau ymchwil gwreiddiol yr ymchwil.

Gwelwn fod agweddau rhieni tuag at ddefnydd ieithyddol yn cael effaith ar berfformiad eu plant ar brofion geirfa a darllen. Mae rhieni o gartrefi mwy Saesneg yn croesawu'r Gymraeg mewn addysg ar gyfer eu plant er nad ydyn nhw'n siarad yr iaith eu hunain. Diddorol yw nodi hefyd fod y dadansoddiadau hyn yn cynnwys y sampl uniaith Saesneg, a bod eu hagweddau nhw'n dal yr un mor agored am ddwyieithrwydd a phwysigrwydd dysgu'r Gymraeg i'w plant er mai ond dysgu'r Gymraeg fel ail iaith oedd eu plant yn ei wneud yn yr ysgol (sydd fel arall yn uniaith Saesneg) o'u cymharu â'r sampl dwyieithog.

Pwysleisiai'r rheini o gefndiroedd mwy Saesneg nad ydynt yn teimlo fod y sefyllfa yn hafal o ran defnydd y ddwy iaith o fewn y cyd-destun addysg ar hyn o bryd (gyda mwy o bwyslais ar y Gymraeg). Pryder sy'n codi yw sut orau i gefnogi eu plant gyda'r Gymraeg ar yr aelwyd (e.e. gyda gwaith cartref) gan nad ydynt yn siarad y Gymraeg eu hunain.

Y prif bwyntiau sydd o ddiddordeb yn ymwneud â rheini o gartrefi mwy Saesneg yw:

- Bod cefnogaeth dra- phositif ar draws pob agwedd o'r holiaduron agweddau tuag at ddwyieithrwydd, addysg cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg.
- Eu bod yn gweld dwyieithrwydd fel cysyniad hollbwysig - ond fod cymysgu'r ddwy iaith yn gallu bod yn anodd.
- Eu bod yn gweld mantais economaidd a chymdeithasol i ddwyieithrwydd ond eu bod yn credu fod y cwricwlwm yn wahanol i ysgolion nad ydynt yn dysgu drwy'r Gymraeg.
- Eu bod yn teimlo fod angen cefnogaeth arnynt fel rhieni di- Gymraeg, a bod angen cefnogaeth ar yr iaith gan gyrff cyhoeddus megis Llywodraeth Cymru i wneud yr iaith yn gyfrwng cyfathrebu effeithiol.

Gwelwn fod plant o gartrefi ble siaradir mwy o Gymraeg yn perfformio'n well ar brofion geirfa a darllen yn y Gymraeg a bod agweddau'r rhieni yn dueddol o gefnogi syniad o fewnbwn Cymraeg yn unig yn hytrach na dwyieithrwydd. Er nad ydynt yn credu bod dysgu dwy iaith yn anodd, mae eu hagweddau yn awgrymu fod eu pwyslais nhw ar ddatblygu sgiliau Cymraeg eu plant yn unig, drwy iaith y cartref a'r ysgol gan iddynt amlygu'r ffaith y gwnâi eu plant ddysgu'r Saesneg beth bynnag a ddaw- hyd yn oed yng nghyd-destun sgiliau darllen ac ysgrifennu.

Gwelwn fod rhieni o gefndiroedd mwy Cymraeg yn anghytuno fod addysg cyfrwng Cymraeg yn brofiad sydd yn agored i bawb. Mae'r gred hon yn cyd-fynd gydag ymchwil ddiweddar a thystiolaeth storïol sy'n amlygu pryderon rhieni ynglŷn ag addysg cyfrwng Cymraeg (Hodges, 2011). Awgryma'r canlyniadau fod cartrefi gyda mwy o fewnbwn Cymraeg yn gweld dysgu'r iaith fel rhywbeth naturiol. Gan eu bod yn siarad Cymraeg gartref ac yn yr ysgol, mae eu perfformiad ar brofion geirfa Cymraeg yn llawer uwch (fel y trafodir ym Mhennod 5 am ganlyniadau ieithyddol) ond gwelwn fod pryder weithiau ynglŷn â dylanwad y Saesneg ar eu hymdrechion.

Prif bwyntiau'r canlyniadau yn ymwneud â rhieni o gefndiroedd mwy Cymraeg yw:

- Eu bod yn gweld dyletswydd fel siaradwyr Cymraeg i warchod yr iaith drwy ei defnyddio yn y cartref ac fel cyfrwng addysg.
- Eu bod yn agored i gysyniadau sy'n annibynnol o gynnwys yr iaith fel yr elfen fwyaf creiddiol o ddatblygiad diwylliannol Cymru h.y. beth yw 'bod yn Gymry'.
- Eu bod yn pryderu ynglŷn â dylanwad y Saesneg ar y Gymraeg – yn enwedig o fewn cyd-destun addysg.

- Mai'r Gymraeg yw eu ffocws pennaf, a'u prif nod yw datblygu'r Gymraeg uwch popeth arall ar gyfer eu plant.

Awgryma'r canlyniadau bod rhieni o gefndir mwy Cymreig yn gallu gwerthfawrogi'r sefyllfa ddwyieithog, ond efallai bod y canlyniadau blaenorol yn awgrymu eu bod nhw'n ymfalchïo o greu amgylchedd mwyafrifol Cymreig i'w plant. Er hyn, nid oeddynt o'r farn bod dysgu dwy iaith yn ffwndro eu plant nac ei fod yn anodd o beth i'w feistroli.

Gan mai dim ond un ffactor agwedd oedd yn cydberthyn yn arwyddocaol gyda'r thema 'daearyddiaeth' (sef oed), fe allwn dybio felly nad yw materion daearyddol yn elfen arwyddocaol o ran siapio agweddau rhieni na chwaith yn cael effaith arwyddocaol ar berfformiad y plant ar brofion ieithyddol.

Mae'r dadansoddiadau ynglŷn â defnydd iaith plant yn gymdeithasol yn awgrymu fod mewnbwn ieithyddol yn dylanwadu'n gryf ar sut maen nhw'n defnyddio iaith - yn annibynnol o statws mwyafrifol y Saesneg uwchlaw'r Gymraeg yn gymdeithasol. Er bod plant o gartrefi I1 Saesneg sy'n mynychu ysgolion dwyieithog yn cael eu trochi yn y Gymraeg yn ddyddiol, eu hiaith gyntaf (y Saesneg) sy'n blaenori fel iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu perfformiad uwchraddol ar y profion ieithyddol Saesneg. Ceir canlyniad i'r gwrthwyneb ar gyfer plant o gartrefi ble siaradir mwy o Gymraeg - sy'n ganlyniad calonogol o ran effaith yr iaith fwyafrifol (y Saesneg) ar ddefnydd iaith y plant hyn yn gymdeithasol. Gwelwn fod mewnbwn ieithyddol y cartref yn chwarae rhan fawr yn nefnydd iaith y plant- boed hynny gyda'r Gymraeg neu'r Saesneg.

Gallwn dybio nad oedd y rhieni I1 Cymraeg mor dderbyngar i rai agweddau oherwydd bod yr holiadur wedi ei deilwra i archwilio agweddau rhieni di- Gymraeg eu cefndir yn bennaf.

Wrth ystyried y cwestiynau ymchwil felly, roedd agweddau rhieni tuag at ddwyieithrwydd, yr iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg **yn** amrywio yn unol â chefndir iaith y cartref. Gwelwn fod agweddau positif tuag at ddwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn cydberthyn gyda rhieni o gartrefi ble siaradir mwy o Saesneg, a bod pryderon ynglŷn ag effaith y Saesneg ar allu a defnydd plant o'r Gymraeg yn cydberthyn mwy gyda chartrefi ble siaradir mwy o Gymraeg. Roedd perthynas rhwng agweddau'r rhieni a pherfformiad plant ar y profion ieithyddol gan i gefnogaeth tuag at y Gymraeg gydberthyn gyda pherfformiad uwchraddol ar brofion iaith cyfrwng Cymraeg (geirfa a darllen). Trafodir y canlyniadau hyn yng nghyd- destun gwahaniaethau ieithyddol ym Mhennod 8.

Fe ymdrinnir â'r materion hyn ymhellach yn y bennod trafodaeth ble bydd cymariaethau yn cael eu gwneud rhwng agweddau'r rhieni a'r berthynas gyda pherfformiad eu plant ar y profion ieithyddol. Bydd hefyd trafodaeth am oblygiadau'r canlyniadau hyn ar gyfer polisïau ieithyddol y dyfodol a sut mae'r ffactorau a ddarganfuwyd yma yn chwarae rhan mewn siapio polisïau cynhwysol, perthnasol a chyfredol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru heddiw.

PENNOD 8

Trafodaeth.

Cyflwyniad

Prif fwriad yr astudiaeth ymchwil bresennol oedd edrych yn fanylach ar ba fath o effaith mae addysg cyfrwng Cymraeg yn ei gael ar sgiliau ieithyddol a gwybyddol plant yng Nghymru. Bwriad eilradd yr ymchwil oedd edrych ar agweddau rhieni'r plant er mwyn cael gweld os oedd unrhyw berthynas rhwng eu hagweddau tuag at yr iaith Gymraeg, dwyieithrwydd, ac addysg cyfrwng Cymraeg a pherfformiad eu plant ar fesurau ieithyddol.

Er bod toreth o ymchwil cyfredol wedi edrych ar sgiliau ieithyddol a gwybyddol plant dwyieithog ar draws y byd (Baker, 2011; Bialystok, 1999; Cummins, 1976; García, 2008; Yoshida, 2008), prin yw'r ymchwil ynglŷn â'r cyd-destunau hyn yng Nghymru. Cyflawnwyd yr ymchwil yng Ngogledd Cymru mewn pedair sir (Gwynedd, Môn, Conwy a Dinbych). Daeth y sampl dwyieithog o Wynedd a Môn, ble mae addysg cyfrwng Cymraeg yn ddarpariaeth statudol yn ysgolion yn y ddwy sir. Daeth y sampl rheolydd (sef y plant uniaith) o ysgolion yng Nghonwy a Dinbych oedd wedi eu categoreiddio fel ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf. Fe edrychwyd ar sgiliau gwybyddol ac ieithyddol y plant drwy gyfres o brofion geirfa, darllen, sillafu, creadigol, a chyfres o brofion uwch-wybyddol yn edrych ar sgiliau atal a chyfnewid y plant. Roedd y sampl cyfan rhwng 7 ac 11 mlwydd oed. Cynhaliwyd cymariaethau rhwng y plant ar y gwahanol brofion yn bennaf yn ôl oed ac iaith y cartref.

Yn fras, datgelodd y dadansoddiadau nad oedd effaith negyddol ar sgiliau Saesneg plant o gartrefi di- Gymraeg sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod sgiliau plant o gartrefi Cymraeg yn y Gymraeg yn uwchraddol, roedd eu sgiliau Saesneg yn israddol o'u cymharu â phob grŵp arall a brofwyd. At hynny, roedd cydberthynas rhwng sgiliau ieithyddol y plant ac agweddau eu rhieni, sy'n gosod cyd-destun pellach i'r canfyddiadau iaith.

Cymysg oedd canlyniadau'r plant ar y profion gwybyddol. Er nad oedd manteision cyffredinol, ymysg y canlyniadau arwyddocaol oedd bod y plant dwyieithog yn fwy creadigol ar ddau allan o bum mesur. Roedd sgiliau atal a chyfnewid sylw plant o gartrefi dwyieithog cytbwys yn uwchraddol i gymharu â gweddill y sampl ar y prawf SART. Roedd sgiliau atal sylw plant Cytbwys ac Uniaith yn uwchraddol ar un agwedd o'r prawf Flanker addasiedig.

Bydd y bennod hon yn manylu ar y darganfyddiadau hyn mewn dwy ran, gan gychwyn gydag Astudiaeth 1 (iaith) ac Astudiaeth 3 (agweddau) gan fod angen trafod y cysyniadau hyn gyda'i gilydd ynghyd â goblygiadau yn ymwneud â'r ddwy thema. Af ymlaen

i drafod Astudiaeth 2 (gwybyddol) gan drafod goblygiadau yn ymwneud â'r thema cyn gorffen gyda chrynodeb ar gyfer y prosiect ymchwil yn ei gyfanrwydd.

Isod, ategir y prif ddarganfyddiadau er mwyn crynhoi'r wybodaeth fel man cychwyn ar gyfer y drafodaeth:

Roedd pum prif batrwm i'r canlyniadau iaith ac agweddau sydd yn destun trafodaeth:

1. Ni welwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad plant iaith gyntaf Saesneg (o'r grŵp dwyieithog) a phlant uniaith Saesneg (y grŵp rheolydd) ar unrhyw un o'r mesuriadau iaith Saesneg, oni bai am y prawf sillafu.
2. Roedd plant o gartrefi uniaith Cymraeg yn perfformio'n well ar brofion ieithyddol yn y Gymraeg i gymharu ag unrhyw grŵp arall.
3. Roedd perfformiad y plant o gartrefi dwyieithog Cytbwys yn disgyn rhwng y plant I1 (oedd yn perfformio orau) a'r plant I2 (oedd yn perfformio waethaf) ar y profion iaith Cymraeg a Saesneg.
4. Roedd agweddau rhieni'r sampl yn dra- bositif ynglŷn â'r iaith Gymraeg, dwyieithrwydd, ac addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig rhieni di- Gymraeg.
5. Roedd cydberthynas rhwng agweddau rhieni ynglŷn â materion yn ymwneud â'r Gymraeg, dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg a pherfformiad y plant ar brofion ieithyddol. Gwelir hefyd fod y gydberthynas yn parhau wrth edrych ar ddefnydd iaith y plant yn gymdeithasol.

Roedd dau brif batrwm i'r canlyniadau gwybyddol sydd yn destun trafodaeth:

1. Ni welwyd effeithiau arwyddocaol cyson oedd yn dangos mantais ddwyieithog glir ar y tasgau gwybyddol. Nid oedd gwahaniaeth cyson rhwng y plant dwyieithog a'r plant uniaith.
2. Er nad oedd mantais amlwg ar draws y tasgau, roedd gwahaniaethau yn ymddangos rhwng y gwahanol fathau o siaradwyr dwyieithog mewn rhannau penodol o'r tasgau.

Af ymlaen felly i drafod canlyniadau Astudiaeth 1 (mesuriadau ieithyddol) gan blethu darganfyddiadau o Astudiaeth 3 (agweddau rhieni) i mewn pan yn briodol.

Rhan 1: Iaith ac Agweddau

Pwrpas Astudiaeth 1 oedd ateb cwestiynau ymchwil oedd yn berthnasol i sgiliau ieithyddol y sampl. Y bwriad oedd edrych ar sgiliau llythrennedd a geirfa plant oedd yn derbyn eu haddysg yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Profwyd plant o wahanol gefndiroedd ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn darganfod os oedd unrhyw wahaniaeth amlwg yn eu sgiliau. Rhagwelir na fyddai unrhyw wahaniaeth rhwng sgiliau iaith y plant yn Saesneg, waeth beth oedd cyfrwng iaith yr ysgol, ond y byddai gwahaniaeth yn eu sgiliau ieithyddol Cymraeg yn ddibynnol ar eu hiaith cartref. Rhagdybiwyd y byddai agweddau rhieni plant I1 Cymraeg oedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy positif tuag at dair agwedd yr holiadur –yr iaith Gymraeg, dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg – gan fod ymchwil cyfredol wedi pwysleisio pryderon rhieni I2 Cymraeg/ di- Gymraeg ynglŷn ag effaith addysg cyfrwng Cymraeg (Hodges, 2011; Barry, 2001; Strategaeth Addysg Gymraeg Conwy, 2009).

Mae nifer o'r patrymau a welwyd yn y data yn amlygu ymddygiadau diddorol iawn, ac yn destun trafodaeth bellach isod.

1. Ni welwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad plant iaith gyntaf Saesneg (o'r grŵp dwyieithog) a phlant uniaith Saesneg (y grŵp rheolydd) ar unrhyw un o'r mesuriadau iaith Saesneg, oni bai am y prawf sillafu.

Hynny yw, roedd sgiliau darllen ac adnabyddiaeth geirfa plant iaith gyntaf Saesneg yn y Saesneg, waeth beth oedd cyfrwng iaith eu haddysg, yn gyfartal er bod y grŵp I1 Saesneg wedi derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg. Mae ymchwil rhyngwladol diweddar wedi datgan fod mewnbwn ieithyddol yn y cartref yn rhagflaenydd cryf ar gyfer perfformiad plant yn ieithyddol (e.e., Bialystok, 2006), ac mae canlyniadau o'r fath yn cyfrannu tystiolaeth bellach y gellid ei ddefnyddio i ddarbwyllo rhieni nad oes anfanteision i famiaith eu plant o dderbyn eu haddysg yn Gymraeg/dwyieithog.

Profwyd y plant ar eu sgiliau iaith Saesneg gyda phrawf geirfa Saesneg (BPVS), prawf darllen Saesneg (NARA) oedd yn cynnwys mesur o'u cywirdeb wrth ddarllen a'u dealltwriaeth o ddarnau o ryddiaith, a phrawf sillafu (addasiad o brawf oedd yn gynwysedig yn y NARA). Er i blant Uniaith (a I1 Saesneg ar gyfer darllen a geirfa) ragori ar y profion, roedd perfformiad y plant I1 Cymraeg a Chytbwys dal i ddisgyn oddi mewn i'r un norm ar gyfer darllen, ond nid ar gyfer geirfa. Fe drafodir y canlyniadau hyn fesul prawf isod.

Geirfa (BPVS)

Dangosodd y dadansoddiadau presennol fod plant o gartrefi I1 Saesneg yn adnabod yr un maint o eirfa Saesneg â phlant o gartrefi uniaith Saesneg oedd yn derbyn eu haddysg drwy'r Saesneg yn bennaf. Roedd geirfa pawb yn datblygu gydag oed, ond roedd mewnbwn iaith y cartref yn pennu llwyddiant y plant ar y prawf. Mae'r canlyniadau yn cyd-fynd gydag ymchwil cyfredol yn y maes ynglŷn â phwysigrwydd mewnbwn (Pearson, Fernandez, Lewedeg et al., 1997; Cummins, 1979; Dalton- Puffer, 2008; Bialystok, 2001b; Villa, 1996). Gwelwn hefyd fod plant o gartrefi I1 Cymraeg a Cytbwys yn disgyn o dan wyriad safonol y prawf o ran eu perfformiad yng nghyd-destun normau oed. Roedd y canlyniad hwn yn wahanol i'r canlyniad ar gyfer y prawf darllen Saesneg, fodd bynnag (gweler isod). Efallai bod hyn oherwydd y nodwedd ddosrannol sy'n cael ei grybwyll mewn ymchwil gan Oller, Pearson, a Cobo- Lewis (2007) (gweler hefyd Pennod 2) wnaeth ddarganfod yr un canlyniad gyda phlant Sbaeneg- Saesneg. Datganir fod y nodwedd ddosrannol yn gwneud y profiad o ddysgu geirfa mewn dwy iaith yn anoddach na dysgu darllen oherwydd bod datblygiad geirfa yn gyd- destunol. Os ydy plant yn siarad Saesneg gartref a Chymraeg yn yr ysgol, bydd eu geirfa yn y Saesneg yn perthnasu i dermau ar gyfer digwyddiadau tu allan i'r ysgol, a bydd eu geirfa Cymraeg yn perthnasu yn fwy ar gyfer digwyddiadau yn ymwneud ag addysg. Nid yw'r plant yn datblygu ystod eang o eirfa ar gyfer pob cyd-destun yn eu dwy iaith felly, ac fe all hyn ddylanwadu ar eu perfformiad ieithyddol ar brofion penodol. Mae'r ymchwil presennol yn gyfraniad at yr angen i wneud mwy i sicrhau datblygiad geirfa plant mewn cyd-destunau amrywiol (yn cynnwys yr ysgol a'r gymdeithas) gan y byddai ehangu geirfa yn yr I2 yn golygu fod mwy o siawns i'r plant ddefnyddio eu dwy iaith wrth ddatblygu hyfedredd. Byddai angen mesuriadau eraill o ruglder geiriol er mwyn edrych ar y berthynas hon ymhellach.

Darllen (NARA)

Plant o gartrefi I1 Saesneg a phlant uniaith a berfformiodd orau ar y prawf darllen, ac roedd y gwahaniaethau arwyddocaol i'w gweld rhyngthyn nhw a phlant o gartrefi I1 Cymraeg a Chytbwys. Fodd bynnag, yn wahanol i'r prawf geirfa Saesneg, roedd plant ym mhob grŵp iaith yn perfformio oddi mewn i'r norm ar gyfer eu hoed, er bod yna wahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau. Roedd sgiliau darllen yr holl sampl yn datblygu gydag oed, sy'n galonogol o ran datblygiad llythrennedd hyd yn oed pan nad yw'r iaith yn I1 i'r unigolyn hwnnw. Roedd hefyd wahaniaethau arwyddocaol rhwng dwy elfen y prawf darllen, gyda phlant yn gwneud yn well ar yr elfen cywirdeb o gymharu â'r elfen dealltwriaeth. Efallai bod hyn oherwydd bod dealltwriaeth yn cwmpasu set o sgiliau ehangach na darllen yn gywir, yn cynnwys

adnabyddiaeth o ystyr geiriau, ac nad oedd y sgiliau yma o'r un lefel â'u gallu i ddarllen yn gywir. Roedd cydberthynas arwyddocaol rhwng datblygiad oed y plant a pha mor gywir oedden nhw ar y prawf darllen, sy'n cyd-fynd ag ymchwil ar sgiliau llythrennedd plant a'i ddatblygiad gydag oed (Bialystok, 2006; Tse, 2001; Kalia a Reese, 2009; Oller, Pearson, a Cobo- Lewis, 2007).

Lle yr oedd disgwyl gweld mantais i blant dwyieithog oedd gyda sgiliau darllen, gan fod ymchwil cyfredol yn datgan fod ymwybyddiaeth seinegol plant dwyieithog yn gryfach i gymharu â gallu plant uniaith a bod hyn yn gymorth i ddatblygiad eu sgiliau llythrennedd (Bialystok a Herman, 2010). Er na welwyd perfformiad uwchraddol gan y plant dwyieithog ar y prawf darllen, mae'r ffaith fod pawb yn perfformio oddi mewn i'r un norm (a hwnnw'n norm uniaith Saesneg) yn dyst nad oedd eto *unrhyw anfantais* i blant o gefndiroedd iaith Cymraeg ac/neu Saesneg sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ar eu datblygiad gyda darllen yn Saesneg. Wrth edrych ar ganlyniadau'r holiaduron agweddau, gwelir fod rhieni o gartrefi ble siaradir mwy o Gymraeg yn anghytuno ei bod hi'n bwysig i blant ddatblygu sgiliau llythrennedd yn eu dwy iaith, ac yn hytrach yn datgan mai eu ffocws oedd datblygu'r Gymraeg yn unig. Efallai felly fod hyn wedi cyfrannu'n rhannol at lefelau israddol sgiliau llythrennedd Saesneg plant o gartrefi mwy Cymraeg.

Mae'r canlyniadau hyn yn cefnogi'r ddogfennaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n datgan fod angen ehangu cyfleoedd i ddatblygu llythrennedd, yn enwedig drwy'r Gymraeg. Mae'r canlyniadau hyn yn tanlinellu na ddylid anwybyddu'r Saesneg chwaith. Ceir trafodaeth bellach am oblygiadau'r ymchwil presennol mewn perthnasedd â hyn.

Sillafu (Saesneg)[1]

Y plant uniaith Saesneg wnaeth berfformio orau ar y prawf sillafu Saesneg sydd eto'n adlewyrchu effaith mewnbwn ieithyddol a phrofiad cynnar gydag iaith ar berfformiad y plant ar y profion ieithyddol. Roedd plant hŷn yn perfformio'n well ar y prawf i gymharu â phlant iau, ac mae hyn yn cyd-fynd gydag ymchwil cyfredol yn y maes fod datblygiad iaith yn unol â datblygiad oed (e.e. Bialystok, 2006). Er hynny, yn ôl y dadansoddiadau, roedd y plant uniaith yn perfformio'n well na'r plant I1 Saesneg hefyd. Efallai mai'r rheswm am hyn yw bod y prawf yn un an- safonedig, ac felly ddim wedi ei farnu ar gyfer dilysrwydd. Rheswm arall yw tra bod plant yn debygol o ddarllen yn Saesneg yn amlach nag yn y Gymraeg (yn enwedig yn

[1] Er bod canlyniad y prawf sillafu yn ategu'r canlyniadau uchod, rhaid pwyllo wrth eu dehongli gan nad oedd y prawf yn un safonedig, ond yn hytrach yn addasiad byrach o brawf sillafu yn deillio o'r prawf darllen NARA (mae'r un peth yn wir am y prawf sillafu Cymraeg isod).

y cartref), maent yn debygol o gael llai o gyfle i ysgrifennu yn Saesneg o'u cymharu â'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, er bod yr arlwy addysgol i fod oddeutu 50-50 Cymraeg- Saesneg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 (CA2) yng Ngwynedd a Môn (Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Gwynedd, 2010; Cynllun Iaith Ynys Mon, 2012). Trafodir hyn ymhellach ymlaen yn y bennod.

Agweddau

O edrych ar ganlyniadau'r holiaduron agweddau mewn perthynas â sgiliau iaith plant yn y Saesneg, gwelwn fod rhieni o gartrefi mwy Cymraeg yn poeni am effaith mewnbwn Saesneg ar addysg eu plant:

"Byddai fy mhlentyn wedi ei foddi gan blant di- Gymraeg yn yr ysgol agosaf i'r cartref, ac ni fyddai wedi cael cymaint o addysg Gymraeg a byddai ei Gymraeg wedi dioddef" (Dyfyniad gan riant I1 Cymraeg).

Ar y llaw arall, roedd rhieni di- Gymraeg yn bositif tuag at ddatblygu sgiliau Cymraeg eu plant yn ogystal â gweld gwerth i ddwyieithrwydd ar gyfer plant o gartrefi di- Gymraeg:

'I think that all schools should make their main language Welsh … I know parents who speak no Welsh and whose children attend Welsh school and have learnt it fine. Parents should be made aware that children from non- Welsh families can attend and succeed in a Welsh speaking school' (Dyfyniad gan riant o'r grŵp Uniaith Saesneg).

Efallai bod modd esbonio felly'r canlyniad israddol ar gyfer plant I1 Cymraeg gan i agweddau eu rhieni fod yn fwy cefnogol o ddatblygu'r Gymraeg i gymharu â dwyieithrwydd.

Er hyn, nododd nifer o rieni eu bod yn credu fod addysg cyfrwng Cymraeg, ymysg nifer o resymau eraill, yn rhoi addysg o safon uwch i'w plant, ynghyd â phrofiad mwy personol gyda'u hathrawon, sy'n ategu darganfyddiadau Hodges (2011):

'The Welsh medium school tends to attract good quality teachers and committed parents i.e. a context that improves education quality overall' (Dyfyniad gan riant I1 Saesneg)

*'Mae ein plentyn yn mynychu Ysgol ** gan mae hon yw'r ysgol leol ond mae iddi enw da yn ogystal'* (Dyfyniad gan riant I1 Cymraeg).

Da o beth felly yw'r agwedd dra- bositif hwn tuag at ddwyieithrwydd sy'n cael ei chefnogi. Mae ymchwil cyfredol yn y maes hefyd yn datgan fod agwedd bositif tuag at iaith

leiafrifol yn datblygu'r iaith honno mewn cynhwysedd sy'n fudd i'w datblygiad (Williams a Morris, 2000; May, 2001; García, 2009; Baker a Prys-Jones, 1998).

Crynodeb 'Saesneg'

At ei gilydd, felly, mae canlyniadau'r ymchwil presennol yn pwysleisio fod amlygiad i Saesneg yn y cartref yn darogan perfformiad plant ar brofion ieithyddol yn Saesneg - hyd yn oed os nad yw'r iaith honno yn cael ei defnyddio fel prif- gyfrwng yr addysgu yn yr ysgol. Mae gwahaniaethau yn parhau i fodoli rhwng sgiliau Saesneg plant I1 Saesneg (ac Uniaith) a phlant I1 Cymraeg a Chytbwys erbyn diwedd CA2, er y dylid ategu fod y plant I1 Cymraeg a Chytbwys yn perfformio oddi mewn i'r norm a ddisgwylir ar gyfer plant o'r un oed ar gyfer darllen, ond dim ar gyfer adnabyddiaeth o eirfa, sydd yn ddisgwyliedig (gweler Pennod 2).

Mae'r canlyniad hwn yn un positif y gellid ei ddefnyddio i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach gan na welwyd effaith negyddol ar sgiliau ieithyddol Saesneg plant o gartrefi I1 Saesneg oedd yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a gan fod agweddau rhieni o gartrefi di- Gymraeg yn bositif. Mae'r ymchwil hwn yn ychwanegiad defnyddiol i'r maes ac yn un cadarnhaol o ran darbwyllo rhieni nad oedd sgiliau ieithyddol Saesneg plant I1 Saesneg yn dioddef wrth iddyn nhw fynd yn eu blaen i ddod yn gymwysedig mewn ail iaith, ac felly yn gymorth i rieni di- Gymraeg wrth bwyso a mesur manteision addysgu eu plant yn ddwyieithog.

Awgrymai'r ymchwil presennol fod angen i bolisïau'r dyfodol sicrhau dilyniant yn sgiliau ieithyddol plant, o bob cefndir iaith - yn y Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg. Dangosodd canlyniadau'r ymchwil fod cynnydd yn sgiliau ieithyddol y plant gydag oed, er na chafodd y plant yn y grŵp dwyieithog gyflwyniad ffurfiol i'r Saesneg fel pwnc yn yr ysgol nes iddynt gyrraedd CA2 (sef 7 oed ac i fynny). Roedd y cynnydd hwn yn cyd-fynd â hypothesis gwreiddiol yr ymchwil yn ogystal ag ymchwil rhyngwladol ynglŷn â chynnydd mewn datblygiad ieithyddol plant dwyieithog dros amser (Bialystok, 1999; Bialystok a Herman, 1999; Bialystok, Martin a Viswanathan, 2005; Bialystok, Craik a Luk, 2008). Gall y diffyg mewnbwn swyddogol hwn gyda'r Saesneg fod yn un rheswm dros y sgorau isel i'r plant o gartrefi Cymraeg gyda llythrennedd a geirfa yn ogystal ag agweddau'r rhieni I1 Cymraeg oedd yn dueddol o ffafrio datblygu'r Gymraeg yn unig dros ddatblygiad dwyieithrwydd i'w plant. Ond mae'n galonogol nodi bod perfformiad yr holl sampl wedi datblygu gydag oed, ac felly fod datblygiad iaith plant o dan y paramedrau hyn yn datblygu er gwaethaf y ffaith mai I2 yr unigolyn yw'r iaith o dan sylw i rai.

Profion: Cafeat

Yn yr ymchwil presennol, roedd canlyniadau'r plant o gartrefi I1 Cymraeg a Cytbwys yn is na 1 pwynt i ffwrdd o'r gwyriad safonnol ar y prawf geirfa Saesneg. Er bod effaith mewnbwn ieithyddol yn glir ymysg gweddill y canlyniadau ieithyddol, roedd pawb wedi perfformio o fewn y normau ar gyfer gweddill y profion. Mae angen cydnabod mai prawf wedi ei gynllunio ar gyfer siaradwyr uniaith Saesneg yw'r prawf geirfa a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil - y BPVS - gan nad oes prawf geirfa safonol sy'n cwmpasu sgiliau unigolion mewn dwy iaith ar gael. Efallai bod y gwahaniaethau eithriadol hyn a welir yn yr ymchwil presennol felly oherwydd y defnydd o brawf ar gyfer unigolion uniaith ar unigolion dwyieithog ac nad oedd eu geirfa oddefol wedi datblygu'n ddigonol yn y Saesneg gan mae Cymraeg oedd yr iaith yr oeddent yn clywed am fwyafrif eu hamser; gartref ac yn yr ysgol.

Mae prinder profion sy'n darparu normau dwyieithog sydd yna yn effeithio dehongliad y canlyniadau rhywfaint. Mae hyn oherwydd ein bod ni yn edrych ar unigolyn dwyieithog fel dau berson uniaith mewn un corff yn hytrach na mabwysiadu'r meddylfryd sefydledig fod dwy iaith unigolyn dwyieithog yn cyd-weithio, ac nad ydynt yn gwbl ar wahân (García, 2009; gweler hefyd Pennod 2). Os edrychwn ni ar ymchwil Oller (2007) sy'n ystyried nodwedd ddosrannol plant wrth ddysgu geiriau, fe allwn weld sut mae asesu plant dwyieithog gyda normau plant uniaith yn gallu bod yn broblemus.

Mae angen darbwyllo gyda phrofi plant dwyieithog drwy normau uniaith gan i'r profion fethu cyd- destun datblygiad geirfa plant dwyieithog, ac mae angen ystyried pa iaith sy'n cael ei siarad adref gan i hyn fod yn ffactor arwyddocaol yn natblygiad ieithyddol plant. Mae'r mater yn un parhaus, ac mae ymchwil rhyngwladol wedi pwysleisio bod angen addasu a datblygu profion sy'n benodol ar gyfer unigolion dwyieithog er mwyn gallu rhoi asesiad teg o allu'r unigolion yma (Oller, 2005; Pearson, 1998; Fenson et al., 1991).

2. Roedd plant o gartrefi uniaith Cymraeg yn perfformio'n well ar brofion ieithyddol yn y Gymraeg i gymharu ag unrhyw grŵp arall.

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y grŵp I1 Cymraeg a gweddill y sampl dwyieithog ar y profion iaith cyfrwng Cymraeg: geirfa, darllen a sillafu. Mae'r canlyniadau yn mynd yn groes i'r hyn sy'n cael ei ddatgan yn nogfennaeth bolisïol addysg Gwynedd a Môn, ac, er yn cyd-fynd ag ymchwil Gathercole a Thomas (2009) mae'n mynd yn groes i'r hyn a welir mewn ymchwil rhyngwladol (Cook, 2003; García, 2009).

Profwyd y plant yn y grŵp dwyieithog ar eu sgiliau iaith Cymraeg gyda phrawf geirfa Cymraeg (Prawf Geirfa Cymraeg), a phrawf darllen Cymraeg (Profion Glannau Menai) oedd yn cynnwys mesur o'u cywirdeb wrth ddarllen a'u dealltwriaeth o ddarnau o ryddiaith, a phrawf sillafu (addasiad o brawf oedd yn gynwysedig ym mhrofion Glannau Menai). Fe drafodir y canlyniadau yn ôl y profion hyn isod.

Geirfa (Prawf Geirfa Cymraeg)

Roedd perfformiad y plant o gartrefi I1 Cymraeg yn arwyddocaol uwch na pherfformiad plant o gartrefi Cytbwys a I1 Saesneg, er bod normau gwahaniaethol yn bodoli ar gyfer pob grŵp. Hynny ydi, er bod sgôr safonol gwahanol ar gyfer pob grŵp iaith (gan fod y disgwyliadau o ran adnabyddiaeth plant I1 o eirfa yn wahanol i'n disgwyliadau o ran adnabyddiaeth plant I2 o eirfa yn y Gymraeg) roedd sgôr safonol y grŵp I1 dal i fod yn uwch na'r grwpiau eraill. Roedd sgorau'r holl sampl yn gwella gydag oed. Gweler fod mewnbwn ieithyddol y cartref wedi cael effaith arwyddocaol ar ddatblygiad geirfa'r holl sampl sy'n awgrymu mai dyma un o'r nodweddion pwysicaf wrth ragweld datblygiad geirfa yn y Gymraeg, sy'n ategu ymchwil cyfredol (Gathercole *et al*., 2007; Dex, Kulis a Hansen, 2011).

Mae'r canlyniad presennol yn pwysleisio nad yw mewnbwn i'r Gymraeg yn yr ysgol o anghenraid yn ddigonol i wthio datblygiad geirfa plant I2 yn ei flaen i'r un graddau â datlbygiad plant I1. Mae nifer o resymau am hyn, gan gynnwys diffyg diddordeb plant mewn llyfrau yn y Gymraeg (gweler isod), a thuedd i'r plant droi i sgwrsio ymysg ei gilydd yn Saesneg yn hytrach na Chymraeg yn y dosbarth a thu hwnt (e.e. Roberts a Thomas, 2011; Thomas, Lewis ac Apolloni, 2012). Mae i'r rhain le mewn dogfennaeth bolisïol yn ymwneud ag iaith mewn addysg gan nad ydy'r plant yn yr ymchwil presennol yn cyrraedd gobeithion ieithyddol polisïau Gwynedd a Môn, er bod cynnydd ym mherfformiad plant I1 Saesneg gyda'r Gymraeg.

O edrych yn fanylach ar ymatebion rhieni ar yr holiaduron agweddau a'u perthynas gyda pherfformiad y plant ar y profion ieithyddol, gwelwn fod rhieni'r plant oedd wedi perfformio orau ar y profion Saesneg yn dueddol o fod ymysg y mwyaf positif tuag at ddwyieithrwydd, a rhieni'r plant oedd wedi perfformio orau ar y profion Cymraeg yn dueddol o fod ymysg y llai positif tuag at ddwyieithrwydd. Efallai nad yw'r plant o gefndiroedd mwy Cymraeg yn cyrraedd lefelau I1 yn eu geirfa Saesneg gan mae'r Gymraeg sy'n cael blaenoriaeth yn y cartref, ac yn cael ei ddefnyddio'n naturiol, tra bod plant o gefndiroedd mwy Saesneg yn gwneud yn dda ar brofion Saesneg ac yn gallu datblygu eu Cymraeg yn yr ysgol oherwydd bod cefnogaeth i'r ddwy iaith yn y cartref.

Darllen (Glannau Menai)

Roedd canlyniadau'r prawf darllen yn ategu canlyniadau'r prawf geirfa. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith, gyda phlant I1 Cymraeg yn gwneud orau ar y prawf, a phawb yn datblygu gydag oed. Roedd y sampl cyfan yn fwy llwyddiannus gydag elfen cywirdeb y prawf o'i gymharu â'r elfen dealltwriaeth, sy'n ganlyniad unfath â'r prawf darllen Saesneg. Er hynny, roedd disgwyl y byddai'r cynnydd ymysg y plant yn gyflymach gyda darllen yn Gymraeg na Saesneg oherwydd tryloywder orgraff y Gymraeg yn ogystal â'r ffaith nad yw'r Saesneg yn cael ei gyflwyno'n swyddogol i blant nes iddynt gyrraedd 7 mlwydd oed. Ond roedd gwahaniaethau amlwg yn parhau i fodoli rhwng y grwpiau, er bod pawb (fel yn y prawf Saesneg) yn perfformio oddi mewn i'r norm oed. Fel y nodwyd uchod, fe all hyn fod oherwydd diffyg llyfrau Cymraeg (a/ neu diffyg diddordeb y plant mewn llyfrau Cymraeg) fel y trafodir isod. Fe all nodweddion unigryw i'r Gymraeg hefyd esbonio'r gwahaniaeth a ddarganfu oherwydd roedd yn rhaid marcio pob camgymheiriad treiglo fel ymateb anghywir ar gyfer y prawf darllen Cymraeg, felly efallai bod amlder y nifer o gamgymeriadau yn uwch ar gyfer y prawf hwn ac felly efallai nad ydyw'n adlewyrchiad cwbl deg o sgiliau iaith y plant.

Sillafu (Cymraeg)

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau iaith ac oed ar gyfer y prawf sillafu Cymraeg gyda phlant I1 Cymraeg yn perfformio orau, a'r perfformiad hwnnw'n gwella gydag oed. Awgrymai'r canlyniad fod mewnbwn ieithyddol yn chwarae rhan fawr yn natblygiad sgiliau ieithyddol plant. Rhaid cofio, er bod orgraff y Gymraeg yn dryloyw, mae dysgu i ddarllen yn Gymraeg yn gallu bod haws na dysgu i sillafu (Thomas & Lloyd, 2008). Nid syndod, felly, bod y gwahaniaeth yma'n bodoli ond efallai bod angen ymchwil pellach sy'n edrych ar hyn mewn cyd-destun addysgol.

Lleoliad

Fel sydd wedi ei nodi yn gynharach, cynhaliwyd yr ymchwil yng Ngogledd Cymru ac roedd y sampl dwyieithog yn deillio o Wynedd a Môn, dwy ardal sy'n cael eu hystyried yn fröydd Cymraeg (er, fel sydd wedi ei drafod ynghynt, mae'r canrannau o siaradwyr Cymraeg yma wedi gostwng dros y blynyddoedd; Jones, 2012). Deilliai'r sampl uniaith o Gonwy a Dinbych ac roedd y plant yn mynychu addysg oedd yn uniaith Saesneg oni bai am ddefnydd achlysurol o'r Gymraeg gan athrawon yr ysgol. Er hyn, mae angen cymryd i ystyriaeth fod yr ymchwil wedi cael ei gynnal mewn lleoliad ble mae'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn bodoli ac felly mae angen darbwyllo cyn gosod y canlyniadau mewn cyd-destun yn bolisïol ar

gyfer Cymru gyfan. Os byddai'r ymchwil wedi ei leoli mewn man arall o Gymru, efallai byddai'r canlyniadau wedi amrywio – mae'r sampl presennol yn deillio o'r lleoliad ble siaradir y mwyaf o Gymraeg (yn gymdeithasol) ac felly'n sefyllfa eithafol sydd angen ystyriaeth.

Yn y dyfodol, bydd angen mwy o waith ymchwil ar sgiliau ieithyddol plant Cymru fel cyfanrwydd os ydym am adeiladu darlun clir a realistig o'r hyn sy'n pennu datblygiad llwyddiannus pawb sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Ond mae'r ymchwil presennol yn gam ymlaen o ran adeiladu'r darlun hwn, ac wedi pwysleisio bod hyd yn oed anghysondeb mewn gallu ieithyddol plant sy'n derbyn addysg sydd ddrwy'r Gymraeg am o leiaf 70% o amser y plentyn yn yr ysgol. Mae hyn yn bwynt pwysig i'w ystyried o ran datblygiad polisïau addysg gyfrwng Gymraeg, yn enwedig yn siroedd Gwynedd a Môn ar gyfer y dyfodol.

Agweddau

Wrth edrych ar y canlyniadau yng nghyd- destun agweddau rhieni, gwelwn fod y fwyaf y Gymraeg oedd yn y cartref, y mwyaf yr anghytuno fod siarad Cymraeg a Saesneg yn help ar gyfer cael swydd. Fe allwn dybio fod rhieni I1 Cymraeg yn gweld defnyddio'r iaith at bwrpasau economaidd, megis cael swydd fel elfen amherthnasol gan eu bod yn defnyddio'r iaith ym mhob agwedd o'u bywydau. Er bod y canlyniad hwn yn groes i ymchwil tebyg gan Hodges (2011) mae'r gwahaniaeth daearyddol rhwng y ddau brosiect ymchwil yn esbonio'r amrywiaeth yn agweddau'r rhieni I1 Cymraeg. Gallwn hefyd dybio fod agweddau fel hyn gan rieni yn achosi ffocws ar ddatblygu sgiliau ieithyddol Cymraeg eu plant drwy'r cartref a'r ysgol, a bod y mewnbwn cyson hwn yn cymorth wrth ddatblygu sgiliau ieithyddol uwchraddol i gymharu â phlant o gefndiroedd I1 Saesneg neu Gytbwys.

Gwelwn fod rhieni o gartrefi I1 Cymraeg yn dueddol o gytuno mwy gyda datganiadau ynglŷn â beth yw hi i fod yn 'Gymro'. Nid oeddent yn credu mai gwybod yr iaith oedd yr unig beth oedd yn gwneud Cymro yn Gymro nac oeddent chwaith yn cytuno y byddai Cymru *'yn colli ei hunaniaeth fel diwylliant unigol heb yr iaith Gymraeg'.* Nid oedd rhieni I1 Cymraeg chwaith yn cytuno y byddai'r Gymraeg yn parhau i farw os na fod rhywbeth yn cael ei wneud amdano yn fuan. Yn gyffredinol felly, mae hi'n adfywiol i nodi fod agwedd rhieni o gartrefi I1 Cymraeg yn agored o ran materion yn ymwneud â Chymru fel cenedl, er eu bod nhw'n fwy gwyliadwrus wrth ystyried materion mwy lleol e.e. effaith y Saesneg ar addysg ddwyieithog eu plant:

'Yn bersonol, dydw i ddim yn meddwl fod y syniad o genedlaetholdeb o gymorth o ran dwyn cefnogaeth i'r iaith' (Dyfyniad gan riant o gartref Cymraeg).

Roedd rhieni I1 Saesneg yn credu y gellir adfywio'r Gymraeg fel ffordd gyffredin o gyfathrebu, ac mae nifer o rieni'r ymchwil presennol wedi datgan eu bod nhw'n credu fod yr iaith yn ddefnyddiol yn eu hardal nhw:

'I think in our area the Welsh language is spoken a lot. I hear people on the streets talking Welsh and in our shops'

'In North Wales, Welsh is part of everyday life so the language and culture is not dying'

'A language will survive if it is useful. It appears to be alive in this area – is predominantly spoken by those who can. It is a positive thing to have Welsh in schools and in the media – as a representation of the needs of the community. There is little point in forcing it on to people though – you can't make it survive. I think a lighter approach helps encourage people to learn and to use it if they are not native speakers'

(Dyfyniadau gan rieni o gartrefi I1 Saesneg).

Gwelwn fod y rhieni hyn eisiau bod yn rhan o gymuned Gymreig, ond falle nad ydynt yn teimlo y gallant oherwydd rhesymau megis eu hunan hyder, argaeledd gwersi Cymraeg iddyn nhw, agweddau eu plant ayyb.:

'Both of us have learnt basic Welsh but our son refuses to speak it to us as we are not considered 'Welsh' by him' (Dyfyniad gan riant I1 Saesneg).

Fel mae'r dyfyniad uchod yn pwysleisio, mae hi'n frwydr i'r rhieni di- Gymraeg am nifer fawr o resymau ond eto, mae'r niferoedd sy'n mynychu addysg ddwyieithog ar draws Cymru yn tyfu (Jones, 2012).

Mae'r rhieni di- Gymraeg wedi datgan yr hoffant weld parhad yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, ac mae hyn yn cyd-fynd gyda dogfennaeth bolisïol y llywodraeth ynglŷn â darparu gwasanaethau dwyieithog ('Iaith Fyw, Iaith Byw, 2012).

Crynodeb 'Cymraeg'

Gwelwn eto felly fod mewnbwn ieithyddol y cartref wedi pennu llwyddiant plant I1 Cymraeg yn y profion ieithyddol Cymraeg, canlyniad unfath i'r mesurau Saesneg gyda phlant

o gefndir I1 Saesneg. Er hyn, roedd pob plentyn yn disgyn o fewn normau safonedig y profion, felly er nad yw plant I2 Cymraeg yn datblygu i'r un lefelau a phlant I1 Cymraeg ar y profion geirfa a darllen, mae'n galonogol nodi nad ydynt yn gwneud yn anfanteisiol o wael arnynt ychwaith.

Mae'r ymchwil presennol yn efelychu ymchwil cyfredol (Beech a Keys, 1997; Duursma *et al.*, 2007; Oller et al., 2007; Pearson, 1998) gan i'r berthynas rhwng sgiliau geirfa a sgiliau darllen fod yn un arwyddocaol. Roedd diffyg geirfa Saesneg eu plant yn golygu perfformiad israddol ar y profion darllen Saesneg. Yr un canlyniad a geir yn yr ymchwil presennol, ac fe welwn fod diffyg sgiliau ieithyddol y plant yn eu I2 yn perthynnu gyda'u diffyg profiad gyda'r iaith honno. Gallwn felly ddatgan bod sgiliau ieithyddol y plant yn ddibynnol ar eu profiad gyda'r iaith gartref.

Mae'r canlyniad uchod yn cyd-fynd gyda gweledigaeth Llywodraeth Cymru tuag at ddatblygu sgiliau llythrennedd plant Cymru. Dywedodd y gweinidog addysg, Leighton Andrews, yn ddiweddar fod angen i bob plentyn sy'n derbyn addysg drwy'r Gymraeg a'r Saesneg fod yn berchen sgiliau llythrennedd a'r hyfedredd hafal yn y ddwy iaith erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol gynradd: ". . . every pupil should, at the end of every academic year, reach the expected reading age if they are capable of doing so . . .However, we are clearly falling short of that at the present time" (Llywodraeth Cymru, 2011). Awgrymodd fod "children attending Welsh medium schools [should be] equally literate in both languages by the end of key stage 2" (Llywodraeth Cymru, 2011). Ond nid yw canlyniadau'r ymchwil presennol yn ategu ei weledigaeth yn llawn.

Y berthynas rhwng y ddwy iaith

Credai'r rhieni y gallai Cymraeg a Saesneg gydfyw efo'i gilydd - yng Ngwynedd a Môn. Mae'r canlyniadau yn cyd-fynd gyda gweledigaeth Llywodraeth Cymru tuag at greu cenedl ddwyieithog - a hynny o fewn cymdeithas, cartref ac addysg ('Iaith Pawb', 2004; 'Iaith Fyw, Iaith Byw', 2012; Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, 2010). Mae hi'n galonogol fod y sampl yn credu bod modd i'r ddwy iaith fyw yn gytûn mewn ardaloedd ble mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o dan lefelau 70% (fuasai yn eu categoreiddio fel cadarnleoedd yr iaith Gymraeg fel yr oeddent yn arfer bod cyn cyfrifiad 2001). Mae hyn yn rhoi cefnogaeth i'r ddadl bod angen creu amgylchedd sy'n adlewyrchu cyfansoddiad y Gymraeg o fewn cylchoedd cymdeithasol yn y dosbarth, fel bod plant o bob cefndir ieithyddol yn gweld gwerth i'r ddwy iaith - gyda'i gilydd, ac ar wahân (gan fod y mwyafrif o blant una'i yn dod o gartref I1 Cymraeg neu I1 Saesneg) (Lewis, 2008; Baker, 2010).

Dengys canlyniadau'r ymchwil presennol fod presenoldeb y Saesneg o fewn bywydau'r plant I1 Saesneg yn cael effaith arwyddocaol ar eu datblygiad geirfa a llythrennedd yn Gymraeg. Mae'r canlyniad hyn yn arwyddocaol ar gyfer polisïau'r llywodraeth gan i sampl yr ymchwil presennol ddod o'r siroedd sy'n cael eu hystyried fel bröydd Cymreig (Gwynedd a Môn) ac yn cyd- fynd gydag ymchwil allddodol ynglŷn â dylanwad y Saesneg ar addysg cyfrwng Cymraeg (Roberts a Thomas, 2011; Thomas, Lewis ac Apolloni, 2012).

Yn ychwanegol i'r canlyniadau ynglŷn â pherthynas sgiliau ieithyddol plant ac agweddau eu rhieni, amlygai dadansoddiadau pellach bod perthynas arwyddocaol rhwng perfformiad plant ar brofion ieithyddol a'u defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a'r Saesneg. Hynny yw, roedd plant oedd yn defnyddio mwy o Gymraeg yn gymdeithasol yn perfformio'n well ar brofion ieithyddol Cymraeg, ac roedd y gwrthwyneb yn wir am y Saesneg. Mae ymchwil cyfredol eisoes wedi pwysleisio pa mor bwysig yw dylanwad defnydd iaith tu allan i'r dosbarth ar ymarferion iaith plant (Roberts a Thomas, 2011; Hallam a Gruffydd, 1999) ac mae'r canlyniad hwn yn cefnogi gweddill canlyniadau'r ymchwil ynglŷn ag effaith mewnbwn ieithyddol ar sgiliau ieithyddol y plant. Mae'r canlyniad yn ategu'r pryderon sydd o gwmpas ar hyn o bryd o ran diffyg defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, gan gyfrannu tystiolaeth bellach i ddangos pwysigrwydd hynny ar gyfer datblygiad iaith y plant.

3. Roedd perfformiad y plant o gartrefi dwyieithog cytbwys yn disgyn rhwng y plant I1 (oedd yn perfformio orau) a'r plant I2 (oedd yn perfformio waethaf) ar y profion iaith Cymraeg a Saesneg.

Yn ôl rhai, mae cartrefi ble siaradir cymysgedd o ddwy iaith yn rhoi'r gorau o ddau fyd i blentyn wrth iddo ddatblygu'n ddwyieithog o'r crud (e.e. Genesee, 1989). Dangosodd yr ymchwil presennol nad oedd plant o gartrefi ble siaradir cymysgedd o'r ddwy iaith yn perfformio'n gyfartal â phlant o gartrefi I1 (boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg). Er bod y plant yn perfformio i'r un lefelau yn eu dwy iaith, nid oedd y lefelau hyn yn agos at berfformiad plant I1 yn Saesneg nac yn Gymraeg sy'n debyg i ymchwil Gathercole a Thomas (2009). Ond nid oedd y lefelau hyn yn destun pryder mawr gan iddynt ddisgyn o fewn normau'r prawf.

Rhaid cofio nad yw plant o gartrefi dwyieithog cytbwys yn derbyn mewnbwn cyfartal yn y ddwy iaith gartref, gan nad ydy hynny'n ymarferol o ran cyfathrebu; h.y. mae'n arferol i'r rhiant sy'n siarad Saesneg gyfathrebu gyda'r rhiant sy'n siarad Cymraeg drwy'r Saesneg

gan mae dyna eu hiaith gyffredin, ac mae hyn, yn ei dro, yn effeithio ar lefelau mewnbwn ieithyddol gyda'r plant.

Darganfu Gathercole *et al.* (2007) mai'r ffactor mwyaf dylanwadol ar gyfer trosglwyddiad ieithyddol llwyddiannus oedd profiad rhieni gyda'r ddwy iaith. Gweler fod y canfyddiadau hyn yn efelychu ymchwil Hodges (2011) wnaeth hefyd ddarganfod bod profiadau rhieni gyda'r Gymraeg a Saesneg yn pennu eu penderfyniad dros yrru eu plant i addysg Gymraeg yng Nghymoedd De Cymru. Darganfu Gathercole *et al.* (2007) fod iaith y partner/ ail riant yn effeithio ar ba iaith sy'n cael ei ddefnyddio gyda'r plentyn ac mae'r iaith sydd fwyaf tebygol o gael ei siarad o fewn y cartref yw'r iaith sy'n cynnwys y partner di-Gymraeg fwyaf. Ond, fel mae Gathercole *et al.* (2007) yn pwysleisio, mae rhwydweithiau sy'n cefnogi defnydd y Gymraeg o fewn y cartref yn hynod o ddylanwadol at barodrwydd rhieni di- Gymraeg i siarad mwy o Gymraeg.

Mae'r cartrefi o'r fath felly yn fwy tebygol o fod yn rai mwyafrifol Saesneg. Yn hynny o beth, mae'r ffaith fod y plant o gartrefi cymysg ieithyddol yn perfformio yn well (er nad yn arwyddocaol gwell bob amser) na phlant ail iaith Cymraeg ar y profion Cymraeg neu ail- iaith Saesneg ar y profion Saesneg yn galonogol.

Goblygiadau Polisïol

Yma, ceir trafodaeth ynglŷn â goblygiadau'r canlyniadau iaith gan ystyried polisïau presennol Llywodraeth Cymru ynghyd â sut mae'r ymchwil presennol yn cyfrannu tystiolaeth bellach. Mae'r drafodaeth wedi ei rhannu yn ôl y prif themâu a ddaeth allan o ganfyddiadau ieithyddol yr ymchwil presennol.

Iaith y Cartref

Er bod ysgolion siroedd Gwynedd a Môn yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn bennaf i'w plant, mae'r ymchwil presennol wedi dangos rôl amlwg iaith y cartref ar gyfer pennu llwyddiant plentyn yn y Gymraeg ac/neu'r Saesneg.

Gwelwn fod polisïau addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd a Môn yn adlewyrchu deilliannau delfrydol y llywodraeth ar gyfer cyrraedd gallu ieithyddol llwyddiannus yn y ddwy iaith (Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Gwynedd, 2010; Cynllun Iaith Ynys Môn, 2012). Nid yw'r plant a brofwyd yn yr astudiaeth bresennol yn llwyddo ar fesuriadau ieithyddol i'r un graddau yn eu dwy iaith bob amser.

Yn yr holiaduron agweddau, roedd perfformiad y plant ar y profion Saesneg yn cydberthyn'n aml efo ffactorau oedd yn ymwneud â defnydd o'r iaith a materion gwleidyddol, ond roedd perfformiad y plant ar y profion Cymraeg yn cydberthyn mwy efo materion yn ymwneud ag addysg. Efallai bod hyn oherwydd mae dyma elfen fwyaf perthnasol yr holiadur i'r rhieni I1 Cymraeg gan fod defnydd y Gymraeg yng ngweddill y themâu yn rhywbeth annatod iddynt ac oherwydd mai ar gyfer archwilio agweddau rhieni di- Gymraeg oedd gwir fwriad yr holiadur.

Oherwydd bod y canlyniadau presennol wedi dangos mai iaith y cartref sydd â'r dylanwad mwyaf ar ddatblygiad ieithyddol y plant, mae yma le i gefnogi'r angen i roi mwy o gymorth i rieni di- Gymraeg fel rhan annatod o ddatblygiad ieithyddol eu plentyn. Hwyrach gellir gwneud mwy i gefnogi rhieni gyda throsglwyddiad ieithyddol yn y Gymraeg drwy geisio uno'r berthynas rhwng defnydd yr iaith yn y cartref, yr ysgol, a'r gymuned ymhellach, fel mae ymchwil cyfredol yn cefnogi (Baker, 2006; Roberts a Thomas, 2011; Fishman, 2000). Mae'r ymchwil presennol yn cyfrannu tystiolaeth bellach ar gyfer ehangu gobeithion Llywodraeth Cymru ynglŷn â throsglwyddiad ieithyddol o fewn y cartref:

"Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i ddeall yn well y penderfyniadau a wneir gan rieni/gofalwyr sy'n siarad Cymraeg a byddwn, i'r perwyl hwn, yn chwilio am ffyrdd i

wella a datblygu gweithgareddau sy'n darbwyllo rhieni/gofalwyr a'r teulu estynedig i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant" ('Iaith Fyw, Iaith Byw', tud. 26, 2012).

Efallai y byddai modd felly adeiladu ar fentrau llwyddiannus megis Twf a Mudiadau Ysgolion Meithrin er mwyn rhoi cefnogaeth i rieni gyda datblygiad ieithyddol eu plant o oedran cynnar. Byddai hyn yn gymorth wrth ddatblygu agweddau a sgiliau ieithyddol eu plant yn y Gymraeg a'r Saesneg oherwydd y mewnbwn cynyddol o'r crud ac mae canlyniadau'r ymchwil presennol yn datgan fod rhieni I1 Saesneg eisiau mwy o gefnogaeth, yn enwedig gydag e.e. gwaith cartref.

Llenyddiaeth Gymraeg

Mae prinder dewis llenyddiaeth safonol yn y Gymraeg yn gallu chwarae rhan yn y gwahaniaethau a welir. Rydym eisoes yn ymwybodol, o'r ymchwil rhyngwladol, fod yr "amount of free reading outside of school has consistently been found to relate to vocabulary, comprehension ability, and other verbal skills" (Allen, Cipielewski a Stanovich, 1992, tud. 489) a bod canrannau darllen hamdden ar eu hisaf ers 20 mlynedd (Adroddiad NRP, 2007). Gwelwn felly bod nifer o ffactorau sy'n gallu effeithio ar allu a pharodrwydd plant i ddatblygu sgiliau llythrennedd yn yr iaith leiafrifol. Yn gyntaf, yng Nghymru, mae hi'n llawer haws cael gafael ar lyfrau iaith Saesneg, ac mae parodrwydd plant o gartrefi ble siaradir mwy o Saesneg i ddewis llyfr Cymraeg yn lleihau yng nghyd-destun ffactorau megis eu hagwedd tuag at y Gymraeg, eu (diffyg) hyder gyda'r iaith mewn cyd-destunau tu allan i'r dosbarth, gallu eu rhieni i gynnig cymorth iddynt gyda darllen yn y Gymraeg a nifer fawr iawn o elfennau eraill.

Yn ail, mae llenyddiaeth Cymraeg yn amlwg yn gorfod cystadlu gyda'r amrywiaeth eang o lyfrau iaith Saesneg sy'n bodoli. O ganlyniad i hyn, mae amlygiad y plant i'r Gymraeg yn dioddef - yn enwedig os nad oes unrhyw Gymraeg yn cael ei siarad yn y cartref. Buasai codi amlygiad plant (a'u rhieni) i lenyddiaeth Gymraeg tu allan i'r ysgol yn fuddiol i lythrennedd y plant yn yr hirdymor, yn enwedig ar gyfer yr oed pan mae'r Saesneg yn cael ei chyflwyno yn yr ysgol.

Mae 'Iaith Fyw, Iaith Byw' (2012) yn pwysleisio pwysigrwydd cael plant sy'n derbyn addysg drwy'r Gymraeg i ddarllen llyfrau Cymraeg:

"Mae ymchwil wedi dangos bod cysylltiad rhwng y graddau y mae plant yn darllen Cymraeg a'u gafael ar yr iaith. Felly, os ydym am annog mwy o siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith a sicrhau eu bod yn hyderus i wneud hynny, bydd eu helpu i ddod yn fwy llythrennog a

chyfarwydd â Chymraeg ysgrifenedig yn bwysig. Er mwyn gwireddu'r nod hwn, bydd annog siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys plant a phobl ifanc yn arbennig, i ddarllen amrywiaeth eang o ddeunyddiau Cymraeg – boed yn llyfrau, yn gylchgronau, yn bapurau bro, yn wefannau ac yn flogiau – yn bwysig" (Iaith Fyw, Iaith Byw, tud.50, 2012).

Byddai cynyddu'r nifer o lyfrau dwyieithog yn bendant yn un trywydd i'w ddilyn er mwyn cael effaith ar amlygiad plant i'r Gymraeg o fewn y dosbarth ac o fewn y cartref, bydd, gyda gobaith, yn cael effaith positif ar eu gallu llythrennedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu darpariaeth llyfrau safonol, apelgar, sy'n cystadlu gyda'r dewis o lyfrau Saesneg yn eu 'pwyntiau gweithredu' yn 'Iaith Fyw, Iaith Byw' (2012). Hwyrach y byddai parhau i ddatblygu mentrau megis 'Bookstart' (cynllun a ariannir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu pecyn llyfrau i blant oed cyn- ysgol; <http://www.bookstartud.org.uk/about-us/research/>) yn fan cychwyn o ran cynyddu'r cyfleoedd i ddarllen yn ddwyieithog.

Mae Bialystok (2006) yn pwysleisio mai'r canlyniad mwyaf arwyddocaol o ddatblygu dwyieithrwydd drwy addysg yw datblygiad llythrennedd y plentyn a pha mor bwysig yw bod yn llythrennog ar gyfer pob agwedd o fywyd y plentyn hwnnw:

"In our society, literacy admits children to educational opportunities that shape their futures, a future that enters the genetic code because it moulds the expectancies and outcomes of subsequent generations. The social sectors that enjoy greatest success are those who are most educated, and those who are most educated are most literate" (Bialystok, tud. 107, 2006).

Mae canlyniadau'r ymchwil presennol yn efelychu ymchwil rhyngwladol sy'n pwysleisio fod gwir angen strategaethau gwell ar gyfer rhieni ac ysgolion er mwyn gwella sgiliau llythrennedd plant o gefndiroedd ieithyddol amrywiol fel eu bod yn gallu llwyddo'n academaidd (Allen, Cipielewski, and Stanovich 1992; National Endowment for the Arts 2007; Pikulski and Templeton 2004). Yn eu dogfen ar gyfer datblygu Cymru ddwyieithog, mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen i ddarparu gwasanaeth ehangach ar gyfer rhieni di-Gymraeg er mwyn iddynt allu hybu ymarferiadau o'r fath:

"Rydym hefyd yn cydnabod bod angen cynorthwyo rhieni/gofalwyr di- Gymraeg, gan greu cyfleoedd i'w plant glywed yr iaith, drwy weithgareddau o fewn y gymuned a thrwy weithgareddau amlgyfrwng yn y cartref fel gwasanaeth Cyw ar S4C sy'n cynnwys rhaglenni teledu a gwasanaeth ar-lein" (Iaith Fyw, Iaith Byw, tud.26, 2012).

Mae'r ymchwil presennol wedi dangos i ni fod agweddau rhieni tuag at ieithoedd yn cael eu trosglwyddo i'w plant ac felly hwyrach byddai cefnogaeth estynedig i rieni yn cael effaith arwyddocaol ar sgiliau ieithyddol plant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Gyda'r mewnbwn cynyddol hyn, efallai byddai modd datblygu hyfedredd ieithyddol plant I1 Saesneg a Chytbwys ymhellach, megis gyda sgiliau darllen, i lefelau plant I1 Cymraeg.

Strategaethau Dosbarth

Yn dilyn o'r ddau bwynt trafod uchod, mae adeiladwaith dosbarth cyfrwng Cymraeg yn amrywiol erbyn heddiw, hyd yn oed yng Ngwynedd a Môn ble lleolir yr ymchwil presennol. Mae ymchwil wedi dangos nad yw defnydd iaith plant o fewn y dosbarth cyfrwng Cymraeg wastad yn gwbl uniaith Gymraeg (e.e. Roberts a Thomas, 2011) ac felly mae angen ystyried pa effaith mae hyn yn ei gael ar y Gymraeg. Mae ymchwil hefyd wedi dangos fod plant yn fwy aml na dim yn newid i'r iaith y maent fwyaf cyfforddus â hi (Hallam a Gruffudd, 1999; Roberts a Thomas, 2011) fel sydd yn amlwg o ganlyniadau defnydd iaith y plant yn yr ymchwil presennol.

Fel mae Lewis (2008) yn canfod, "a balance must be achieved between addressing the language needs of L2 learners and the equally urgent needs of L1 minority language children for active language support and enrichment" (Lewis, tud. 83, 2008). Mae'n hawdd deall y rhesymeg o barhau i ddefnyddio'r iaith leiafrifol yn unig o fewn y dosbarth. Mae Fishman (1980) yn datgan buasai'r iaith leiafrifol yn edwino os na fyddai'n cael ei gwahanu oddi wrth yr iaith fwyafrifol mewn cyd-destunau megis addysg a'r gymuned (Fishman, 1980 yn Morris, tud. 65, 2010). Ond mae'r ymchwil presennol wedi dangos bod datblygiad I2 y plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn israddol i gymharu â'u sgiliau I1 erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol gynradd, sy'n mynd yn groes i obeithion strategaethau addysg cyfrwng Cymraeg Gwynedd a Môn (2010 a 2012 yn briodol).

Mae nifer y teuluoedd sy'n siarad Saesneg gartref ac sy'n anfon eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg wedi codi (Llywodraeth Cymru, 2011) ac felly mae angen ystyried sut fath o gefnogaeth ieithyddol sydd ar gael i'r plant I1 Saesneg tu allan i'r dosbarth er mwyn iddynt allu datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg gan ein bod yn gwybod o'r canlyniadau ieithyddol y bydd sgiliau I1 plant (boed hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg) yn datblygu'n llwyddiannus beth bynnag oherwydd mewnbwn yr iaith (I1). Mae'r un peth yn wir ar gyfer plant o gartrefi Cymraeg sydd angen datblygu eu sgiliau Saesneg hefyd, gan fod siroedd fel Gwynedd yn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol i'w plant o CA2 ymlaen.

Un awgrym yw cael mewnbwn mwy cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y dosbarth gan fod canlyniadau'r ymchwil presennol yn dangos mai iaith gryfaf y plentyn yw'r iaith y mae'n siarad gartref. Ar hyn o bryd yng Ngwynedd a Môn, nid yw'r Saesneg yn cael ei chyflwyno yn ffurfiol tan CA2 (Cynllun Addysg Cyfrwng Cymraeg Gwynedd, 2010; Cynllun Iaith Môn, 2012). Awgrymai Baker (2010) fod ymarferiadau megis mewnbwn mwy cyfartal o'r Gymraeg a'r Saesneg o fewn y dosbarth yn ffordd effeithiol o gynyddu deallusrwydd plant gan ddefnyddio'r ddwy iaith yn effeithiol, ond mae ymchwil wedi amlygu nad yw croesawu'r iaith fwyafrifol i gydweithio gyda'r iaith leiafrifol o fewn y dosbarth yn dderbyniol i nifer o athrawon, yn rhyngwladol (Shin, 2005; Zentella, 1981; García, 2009) nac yma yng Nghymru (Cynllun Addysg Cyfrwng Cymraeg Gwynedd, 2010; Baker, 2010).

Yn yr ymchwil presennol, mae rhai o rieni gogledd Cymru wedi datgan eu bod yn credu bod y Gymraeg yn cael ei gwthio ar blant, a'u bod nhw fel rhieni yn teimlo'n ddiymadferth gan nad ydynt yn siarad yr iaith na chwaith (oherwydd eu profiadau gydag addysg eu plant) yn bwriadu ei dysgu, e.e.:

'Bilingualism in Gwynedd is not promoted – Welsh is. More effort needs to be made teaching both languages' (Dyfyniad gan riant o gartref Saesneg)

'There is little point in forcing it onto people though – you can't make it survive. I think a lighter approach helps encourage people to learn and to use it if they are not native speakers' (Dyfyniad gan riant o gartref Saesneg)

'As Welsh is pushed on to school children some will rebel and refuse to use it in later years' (Dyfyniad gan riant o gartref Saesneg)

Mae'r rhain yn bryderon dilys mewn siroedd ble na cheir unrhyw ddewis oni bai am addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn rhai sydd wedi eu lleisio mewn ymchwil cyfredol (Barry, 2001) ynghyd â nifer i enghraifft anecdotaidd o'r wasg. Mae ymchwil cyfredol wedi pwysleisio effaith agweddau ar barodrwydd plant i ddefnyddio'r iaith leiafrifol, ac os nad yw'r iaith yn cael ei ddefnyddio, ni fydd y plant hyn yn gallu datblygu yn ddwyieithog yn ieithyddol. Mae'r canlyniadau presennol felly yn arf pwysig wrth bwysleisio bod cefnogaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ond mae hefyd yn arf ar gyfer ymchwil pellach ynglŷn â sut i gymhwyso pob plentyn yn y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus fel eu bod gwir yn datblygu mewn i unigolion *dwyieithog*.

Mae'r canlyniadau presennol yn pwysleisio'r angen i ystyried datblygu strategaethau sy'n cwmpasu defnyddio'r ddwy iaith o fewn y dosbarth fel cynorthwyydd i'r sefyllfa sy'n digwydd ar hyn o bryd:

"2.11 Addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar, gyda dilyniant ieithyddol cadarn drwy bob cyfnod addysg, sy'n cynnig yr amodau gorau ar gyfer meithrin dinasyddion dwyieithog y dyfodol. Mae datblygu sgiliau iaith yn broses sy'n digwydd dros gyfnod o amser. Mae'n bwysig i blant a phobl ifanc adeiladu ar eu galluoedd wrth iddynt aeddfedu. Mae sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer dilyniant ieithyddol addas yn un o gonglfeini'r Strategaeth, ac mae'n berthnasol i bob cyfnod o'r blynyddoedd cynnar ymlaen. Rydym am sefydlu fframwaith a fydd yn sicrhau momentwm y broses ddysgu wrth i ddysgwyr a myfyrwyr symud ymlaen drwy'r system. Nid yw hyn yn digwydd ym mhob achos ar hyn o bryd, ac o ganlyniad, nid ydym bob amser yn llwyddo i sicrhau'r budd mwyaf o'r buddsoddiad cychwynnol a wneir" (Cynllun Addysg Gyfrwng Cymraeg, tud.7, 2010).

Un man oedd yn unol â'r ymchwil cyfredol am sgiliau plant dwyieithog oedd eu perfformiad israddol ar y prawf rhuglder geiriol a phrofion geirfa. Mae angen ystyried nad yw geirfa'r plant a brofwyd wedi datblygu i'w lawn botensial ac efallai y byddai ystyried asesu'r plant pan yn hŷn yn dangos llai o wahaniaeth arwyddocaol o ran eu perfformiad ar brofion yn ymwneud â geirfa yn y dyfodol. Hwyrach fod modd edrych ar sut i fynd ati i ddatblygu *dwyieithrwydd* fel sgil ar gyfer plant sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg gan fod yr ymchwil presennol fel cyfanrwydd wedi pwysleisio diffygion yn sgiliau I2 y plant. Un ateb posib ar gyfer datblygu mewnbwn mwy dwyieithog o fewn y dosbarth yw trawsieithu.

Mae Baker, Lewis a Jones (2012) yn pwysleisio twf trawsieithu fel datblygiad pwysig - yn wybyddol ac yn addysgol, ac mae canlyniadau'r ymchwil presennol yn cefnogi'r angen am gysyniadau tebyg. Mae'r sgil o drawsieithu, fel sydd eisoes wedi ei drafod ym mhennod 1 y thesis hwn, yn broses o ddefnyddio'r ddwy iaith gyda'i gilydd o fewn cyd- destun addysgol er mwyn gwneud synnwyr o gysyniadau. Mae'n broses wybyddol gan fod angen prosesu'r wybodaeth mewn un iaith er mwyn gallu trin a thrafod mewn iaith arall ac felly mae'r fantais i sgiliau cyfnewid plant dwyieithog yn yr ymchwil presennol yn berthnasol i'r fath gysyniad. Fe all trawsieithu ddatblygu sgiliau cyfnewid unigolion dwyieithog ymhellach gan eu bod nhw'n defnyddio'r ddwy iaith yn y dosbarth at ddibenion addysgol, yn hytrach nac atal eu Saesneg wrth ganolbwyntio ar ddefnyddio'r Gymraeg (rhywbeth a gafodd ei amlygu yn yr ymchwil presennol). Er bod rhywfaint o drawsieithu yn debygol o fodoli mewn dosbarth sy'n

cynnwys plant o amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol, mae ei droi i mewn i strategaeth swyddogol yn gallu bod yn heriol;

"It is important for bilingual educators and bilingual students to recognize the importance and value of translanguaging practices. Too often bilingual students who translanguage suffer linguistic shame because they have been burdened with monoglossic ideologies that value only monolingualism ... And too often bilingual teachers hide their natural translanguaging practices from administrators and others because they have been taught to believe that only monolingual ways of speaking are ''good'' and valuable. Yet, they know that to teach effectively in bilingual classrooms, they must translanguage" (García, tud. 308, 2009).

Mae'r canlyniadau presennol yn cefnogi'r syniad o gyflwyno mwy o *ddwyieithrwydd* i'r dosbarth gan fod posibilrwydd y bydd plant yn manteisio o gyfnewid rhwng dwy iaith mewn amgylchedd dan reolaeth fydd yn datblygu eu sgiliau uwch- wybyddol. Tra bo cynyddu mewnbwn yn y Gymraeg yn hollol bwysig at oroesiad y Gymraeg ymysg plant, os am sicrhau hyfedredd a hyder yn y Gymraeg *a'r* Saesneg, mae'r ymchwil yn awgrymu y byddai defnyddio'r *ddwy* iaith o fewn y dosbarth yn rhoi mwy o gyfle i blant weld gwerth yn y Gymraeg tu allan i'r dosbarth wrth i'r ddwy sefyllfa efelychu ei gilydd.

Gobeithio felly bydd strategaethau addysgol addysg cyfrwng Cymraeg yn gallu ehangu sgiliau gwybyddol plant dwyieithog gan fod gwahaniaeth arwyddocaol wedi ei ddarganfod yn yr ymchwil presennol gyda sgil sy'n hynod o berthnasol i arferion plant dwyieithog heddiw:

''the teacher can allow a student to use both languages, but in a planned, developmental and strategic manner, to maximize a student's linguistic and cognitive capability, and to reflect that language is sociocultural both in content and process'' (Baker, tud. 290, 2011).

Efallai y byddai modd cwmpasu'r cysyniad o drawsieithu, er enghraifft, drwy gemau iaith fyddai'n procio sgiliau creadigol plant, megis dysgu geiriau newydd a chreu brawddegau ynghyd â pharhau i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth (ceir trafodaeth bellach wrth son am sgiliau creadigol plant yn rhan nesa'r drafodaeth). Gan fod rhieni I1 Cymraeg wedi mynegi eu bod yn gefnogol o elfennau diwylliannol dwyieithrwydd, a bod rhieni I1 Saesneg yn dra- bositif ynglŷn â datblygu dwyieithrwydd, efallai y byddai strategaethau megis caneuon a storiâu dwyieithog yn ffordd o gynnwys pob math o gefndir ieithyddol mewn gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar lythrennedd a geirfa fyddai yn apelio i'r mwyafrif o rieni

fel rhywbeth i gynnwys yn y dosbarth. Mae gwaith tebyg yn cael ei gynnal gan athrawon bro mewn siroedd ble mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith, ac fe ddatganai Roberts a Thomas (2011) bod eu hymchwil wedi pwysleisio'r angen i adfywio'r fath wasanaeth yn Ne Gwynedd i hybu defnydd o'r Gymraeg.

Agweddau

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'r holiaduron yn dangos fod rhieni Gwynedd a Môn, fel rhieni mewn ardaloedd eraill o Gymru (e.e. Hodges, 2011; The Central Office of Information, 1995), yn bositif tuag at y Gymraeg, dwyieithrwydd ac addysg Gymraeg. Mae hyn yn bwysig ar gyfer datblygiad a pharhad yr iaith Gymraeg gan fod ymchwil cyfredol ynglŷn ag agweddau rhieni â'r Gymraeg yn cael effaith mawr ar agweddau eu plant (Jones a Morris, 2007; Gathercole *et al.*, 2007; Thomas, Lewis ac Apolloni, 2012). Mae'r canlyniadau presennol felly yn galonogol ar gyfer cynllunio at ddyfodol addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Cymru gan fod ennyn cefnogaeth rhieni yn rhan fawr o hybu'r Gymraeg, ac addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cyd- fynd gyda deilliannau'r llywodraeth ('Iaith Fyw, Iaith Byw', 2012). Mae'r ymchwil presennol yn mynd â'r drafodaeth un gam ymhellach drwy ddangos fod agweddau rhieni ac iaith sgwrsio'r plant gyda'u cyfoedion yn cyd- berthyn gyda pherfformiad y plant ar brofion iaith.

Gwelwn o ystadegau diweddar fod y canrannau o siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r iaith bob dydd ar eu uchaf yng Ngwynedd a Môn, y siroedd ble seiliwyd yr ymchwil presennol (H. Jones, 2012). Gwelwn felly fod agweddau'r rhieni I1 Saesneg yn cyd-fynd gydag ystadegau am y cynnydd yn y nifer o blant sy'n gymwys am addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod canlyniadau agweddau'r ymchwil presennol wedi pwysleisio nad yw rhieni I1 Cymraeg yn credu fod addysg cyfrwng Cymraeg yn agored i bawb, efallai y dylid ystyried canlyniadau'r ymchwil presennol yn ôl y mwyafrif yng Nghymru sy'n ymwneud ag addysg ddwyieithog - h.y. teuluoedd I1 Saesneg yn ogystal â rhieni I1 Cymraeg.

Mae agweddau rhieni yn cael effaith ar eu plant a'u defnydd o'r iaith tu fewn a thu hwnt i'r ysgol (e.e. Hodges, 2011). Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae rhieni I1 Saesneg yn agored i'r cysyniad o ddwyieithrwydd, ond hefyd yn ymwybodol o'r anawsterau, yn enwedig ble mae'r Gymraeg yw'r unig ddewis o ran cyfrwng addysgol. Mae strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg y llywodraeth (2010) hefyd yn crybwyll mai eu ffocws yw datblygu cenedl ddwyieithog, ble mae modd i blant lwyddo yn addysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg:

"2.12 Felly, ffocws allweddol y Strategaeth yw cynorthwyo dysgwyr i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy addysg cyfrwng Cymraeg, o'r blynyddoedd cynnar ymlaen. Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, i blant o gartrefi Cymraeg eu hiaith, mae addysg cyfrwng Cymraeg yn atgyfnerthu ac yn datblygu eu sgiliau iaith yn y Gymraeg drwy amrywiaeth eang o brofiadau cwricwlaidd. I blant o gefndiroedd di- Gymraeg, sy'n dod i gysylltiad cychwynnol a phennaf â'r Gymraeg drwy'r ysgol, mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ddwys hon drwy broses o drochi ieithyddol" (Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru, tud. 8, 2010).

Mae'r llywodraeth yn datgan fod 98.5% o blant sy'n derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg yn cyrraedd lefelau hyfedredd o'r un lefel yn eu Saesneg a Chymraeg erbyn diwedd blwyddyn 6 yn yr ysgol, ac felly yn ôl yr ystadegau uchod, mae cyraeddiadau'r gweinidog Addysg yn cael eu gwireddu o ran datblygu unigolion cwbl ddwyieithog. Fe ai'r canfyddiadau hyn yn groes i ganlyniadau'r ymchwil presennol, gan y darganfu fod iaith cartref yn cael mwy o effaith ar sgiliau ieithyddol plant na'r mewnbwn ieithyddol y maent yn derbyn yn yr ysgol.

Yn 'Iaith Fyw, Iaith Byw' (Llywodraeth Cymru, 2012) fe ddatgenir fod angen darbwyllo wrth ymfalchïo yn y cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg fel y dangosir yng nghyfrifiad 2001 a bod canlyniadau'r cyfrifiad diwethaf wedi amlygu'r sefyllfa ymhellach. Gwelwn fod y cynnydd mwyaf mewn siaradwyr ifanc, ac felly pryder y Llywodraeth yw nad yw'r iaith yn cael ei defnyddio o fewn y gymuned gan y to hwn er mwyn iddi allu ffynnu fel iaith gymdeithasol yn yr ardal ble lleolwyd yr ymchwil presennol:

"Mae cynaliadwyedd yr iaith yn ei bröydd Cymraeg traddodiadol yn destun gofid. Mae mewnfudo ac allfudo wedi cael cryn effaith ar yr ardaloedd hyn. Mae llawer o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg wedi gadael eu cymunedau i geisio gwaith mewn ardaloedd trefol, ac mae pobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg wedi mewnfudo i'r cymunedau hyn. Gwnaeth proffil daearyddol y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2001 gadarnhau'r patrwm hwn, gan fod canran y siaradwyr Cymraeg wedi lleihau mewn bröydd Cymraeg traddodiadol fel Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn. Bu gostyngiad yn nifer y cymunedau lle'r oedd dros 70 y cant o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg i 54 yng Nghyfrifiad 2001 o'i gymharu â 92 ym 1991. Dadleuwyd ers tro bod angen dwysedd o siaradwyr ar y lefel honno er mwyn i'r Gymraeg fod yn iaith feunyddiol o fewn y cymunedau hynny" ('Iaith Fyw, Iaith Byw'. Llywodraeth Cymru, tud.8, 2012).

Mae canlyniadau'r cyfrifiad diweddaraf (2011) wedi dangos eto fod y cynnydd mwyaf yn y siaradwyr Cymraeg ymysg y bobl ifanc (5-14 mlwydd oed) ac mae'r cynnydd hyn yn bodoli oherwydd y twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ond fod hefyd gostyngiad wedi bod yn y nifer o siaradwyr Cymraeg o 21% i 19% yn y degawd diwethaf sy'n cael ei ategu gan ymchwil Williams a Morris ynglŷn ag effaith mewnfudo (2007). Mae'r ymchwil presennol wedi crybwyll y gefnogaeth dros addysg cyfrwng Cymraeg, ond hefyd dros yr iaith, a dwyieithrwydd fel cysyniadau tu allan i'r byd addysg.

Oed

Dangosodd y canlyniadau fod pwysigrwydd datblygu llythrennedd yn Gymraeg a Saesneg yn agwedd oedd yn gryfach ymysg rhieni'r plant hŷn. Efallai bod hyn oherwydd datblygiad y plentyn, gan i'r rhieni gyda'r plant hynaf weld datblygiad llythrennedd eu plant am gyfnod hirach ac felly, yn fwy ffafriol ynglŷn â phwysigrwydd y cysyniad tuag at addysg eu plant - yn enwedig yn y ddwy iaith. Mae'r canlyniad hwn yn plethu gyda chanlyniadau'r profion ieithyddol mewn perthynas ag oed, sy'n datgan fod sgiliau ieithyddol plant yn datblygu gydag oed yn eu I1 *a* I2, er bod hyn ar lefelau gwahanol i'w gilydd.

Canlyniad arall oedd yn cydberthyn gydag oed y plant oedd agwedd y rheini tuag at gynhwysiad addysg ddwyieithog. Yr hynaf oedd y plant, y mwyaf oedd rhieni yn anghytuno fod addysg ddwyieithog yn agored i bawb. Mae'r canlyniad hwn yn cyd- fynd gydag agwedd rhieni o gartrefi Cymraeg sy'n gweld angen i blant I2 Cymraeg gael cymorth tu allan i'r ysgol ar gyfer datblygu eu sgiliau Cymraeg ynghyd a chael eu haddysg drwy'r Gymraeg.

Gellir ystyried felly, fod agweddau rhieni'r plant hŷn wedi eu siapio gan gyfran uwch o flynyddoedd eu plant yn y system addysg, gan eu bod wedi cael mwy o brofiadau yn ymwneud â'r ysgol a bod eu plant ar derfyn eu hamser mewn addysg gynradd. Mae ymchwil gan Hodges (2011) eisoes wedi pwysleisio fod rhai rhieni yng Nghymoedd y De yn teimlo fod addysg cyfrwng Cymraeg yn elitaidd ond mae'n debyg mae'r rhieni I1 Cymraeg sy'n credu hyn yn yr ymchwil presennol. Hwyrach y gellir gwneud mwy felly i hyrwyddo cynhwysedd o fewn addysg cyfrwng Cymraeg mewn siroedd ble nad oes dewis arall i rieni.

Ond ni ddarganfu unrhyw gydberthnasau eraill rhwng oed y plant ac agweddau'r rhieni ac mae'r canlyniad hwn yn un calonogol gan y gallwn dybio nad yw agweddau rhieni ynglŷn â dwyieithrwydd, addysg cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg yn newid dros amser. Efallai bydd hyn yn ganlyniad defnyddiol ar gyfer darparu cefnogaeth i rieni ym

mlynyddoedd cynnar bywyd eu plant ynglŷn â'r Gymraeg ac y byddai'r agweddau hyn yn parhau drwy gydol cyfnod eu plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Casgliad

Mae'r canlyniadau ieithyddol yn pwysleisio pa mor bwysig yw trosglwyddiad ieithyddol, ond mae hefyd yn pwysleisio pa mor llwyddiannus yw trosglwyddiad ieithyddol o fewn yr ysgol. Ni ddarganfuwyd unrhyw anfantais i blant o gartrefi ble mae mwy o Saesneg yn cael ei siarad gyda'u perfformiad ar brofion iaith Saesneg, sy'n arf pwysig wrth ddarbwyllo rhieni di- Gymraeg ynglŷn ag addysg cyfrwng Cymraeg. Mae agweddau rhieni yn cael effaith ar sgiliau ieithyddol eu plant, ond yn gyffredinol, mae cefnogaeth tuag at ddwyieithrwydd, yn enwedig gan rieni di- Gymraeg. Mae'r ymchwil yn cyfrannu tystiolaeth bellach ynglŷn â sgiliau ieithyddol plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac yn pwysleisio'r angen i ystyried sut y gallai pawb sy'n cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg gael eu cynhwyso er mwyn cyrraedd lefelau hyfedr yn eu dwy iaith.

Rhan 2: Gwybyddiaeth

Pwrpas Astudiaeth 2 oedd ateb cwestiynau ymchwil oedd yn berthnasol i sgiliau gwybyddol y sampl. Y bwriad oedd edrych ar sgiliau gwybyddol plant dwyieithog i'w gymharu â phlant uniaith, ac o fewn y sampl o blant dwyieithog, archwilio os oedd unrhyw 'fantais' dwyieithog yn gryfach ymysg rhai mathau gwahanol o siaradwyr dwyieithog nag eraill. Cafodd y profion gwybyddol eu rhannu i dri is- gategori, sef tasgau meddwl dargyfeiriol (creadigrwydd, rhuglder geiriol), ataliad (Flanker) a chyfnewid (SART, Newid Byd a'r Stroop rhif).

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r ymchwil blaenorol, felly, bwriadwyd archwilio os oedd amrywiaeth rhwng y math o siaradwr dwyieithog yng Nghymru - h.y. oedd mantais i blant o gartrefi un rhiant un iaith (neu siaradwyr dwyieithog cytbwys - sef y math o siaradwr dwyieithog sydd wedi ei gynnwys fel yr unig fath o siaradwr dwyieithog yn y rhan fwyaf o ymchwiliadau e.e. Bialystok, 2001b) neu oedd mantais i blant o gartrefi Saesneg ble gellir dadlau eu bod yn gorfod ymdrechu'n galetach i atal eu Saesneg wrth siarad Cymraeg. Rhagdybiwyd y byddai mantais i blant dwyieithog ar y profion gwybyddol gan fod eu sgiliau uwch- wybyddol wedi eu cyfoethogi i gymharu â'u cymheiriaid uniaith oherwydd eu dwyieithrwydd.

Fel sydd eisoes wedi ei danlinellu ym Mhennod 3 y thesis hwn, cymysg yw'r canlyniadau ynglŷn ag effaith dwyieithrwydd ar sgiliau gwybyddol erbyn hyn (Feng, Diamond a Bialystok, 2007; Oller ac Elliers, 2002; Martin-Rhee a Bialystok, 2008; Hernandez *et* al, 2005; Yang a Lust, 2004).

Isod, amlinellir y prif ddarganfyddiadau yn eu tro, gan drafod goblygiadau'r patrymau a ddatgelwyd yn y data.

1. Ni welwyd effeithiau arwyddocaol cyson oedd yn dangos mantais ddwyieithog glir ar y tasgau gwybyddol. Nid oedd gwahaniaeth cyson rhwng y plant dwyieithog a'r plant uniaith.

Yn ôl yr hypothesis gwreiddiol roedd disgwyl i'r plant dwyieithog berfformio'n well ar y tasgau uwch- wybyddol oherwydd profiadau'r ymennydd dwyieithog (Bialystok, 1997; 2004; Bialystok a Majumder, 1998; Hernandez *et al.*, 2005; Yang a Lust, 2004; Bialystok, Craik a Luk, 2008; Bialystok, Martin a Viswanathan, 2005). Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ganlyniad cyson yn unrhyw un o'r tasgau uwch- wybyddol; mae nifer o resymau am hyn.

Yn gyntaf, roedd y dasg Newid Byd a'r dasg Stroop rhifau a ddefnyddiwyd yn rhy hawdd i blant yr ymchwil presennol, ac o ganlyniad, roedd pawb yn gwneud yn dda.

Yn ail, er fy mod wedi ceisio dilyn union gyfarwyddiadau llunio a gweinyddu'r profion fel y cawsant eu gweithredu yn yr ymchwil gwreiddiol, efallai bod rhai nodweddion bychain o ran gweithrediad gwahanol wedi bod yn ddigonol i arwain at wahaniaethu yn y canlyniadau. Er enghraifft, roedd ymchwil Bialystok (2005, 2009, 1999) wedi ei weinyddu yn y Saesneg, ble roedd pob prawf, waeth pa iaith oedd iaith gyntaf y siaradwyr, yn cael ei weinyddu yn y Saesneg. Yn yr ymchwil presennol, fodd bynnag, roedd rhai profion yn cael eu gweinyddu yn Gymraeg, a rhai yn Saesneg yn ddibynnol ar iaith yr ysgol, oherwydd mai effaith addysg cyfrwng Cymraeg oedd yn cael ei fesur, ac felly roedd angen gweinyddu'r profion drwy iaith yr ysgol.

Yn drydydd, efallai nad oedd y tasgau atal a ddewiswyd y mwyaf addas i'w defnyddio gyda siaradwyr I1 Cymraeg gan ystyried natur sgyrsiol siaradwy Cymraeg- Saesneg. Hynny ydi, mae siaradwyr Cymraeg- Saesneg yn cyfnewid rhwng y ddwy iaith yn gyson wrth siarad yn Gymraeg. Oherwydd hynny, nid yw eu hymennydd yn ymdrechu i'r un graddau ag ymenyddau siaradwyr dwyieithog eraill i atal sylw i'r Saesneg wrth gyfathrebu yn Gymraeg. Efallai, felly, nad oes disgwyl gweld gwahaniaeth cryf rhwng siaradwyr dwyieithog ac uniaith ar brofion o'r fath. Mae Green (1998) yn trafod materion tebyg wrth geisio mesur effaith atal sylw i'r iaith gyntaf wrth ddefnyddio'r ail, ac o'r ail wrth ddefnyddio'r iaith gyntaf. Efallai y byddai mwy o wahaniaeth i'w weld wrth edrych ar wahanol dasgau sy'n ymofyn y sgil o gyfnewid gwybodaeth, gan fod siaradwyr Cymraeg- Saesneg yn cyfnewid rhwng eu dwy iaith yn gyson.

2. Er nad oedd mantais amlwg ar draws y tasgau, roedd gwahaniaethau yn ymddangos rhwng y gwahanol fathau o siaradwyr dwyieithog mewn rhannau penodol o rai tasgau.

Mewn rhai profion, roedd mantais i'w weld, ar yr olwg gyntaf, ar gyfer y plant uniaith, tra mewn eraill, roedd mantais i'w weld ar gyfer un o'r grwpiau dwyieithog. Trafodir y patrymau hyn fesul prawf isod.

Mantais Dwyieithog

Sustained Attention to Response Task (SART)

Roedd y SART yn fesur o allu'r plentyn i gynnal eu sylw ar stimiwli penodol dros gyfnod o amser. Cafodd y prawf cyfrifiadurol ei addasu i gynnwys ail agwedd oedd yn mesur gallu plant i gyfnewid rhwng dwy reol ar gyfer yr ymchwil presennol. Roedd plant dwyieithog cytbwys yn ymateb yn gyflymach ar y prawf i'w gymharu â phlant uniaith. Mae ymchwil cyfredol yn y maes wedi dangos canlyniadau tebyg o ran mantais ddwyieithog ar

brofion tebyg (Bialystok, Craik a Luk, 2008; Colzato, Bajo, Van den Wildenberg *et al*., 2008). At hynny, roedd yr holl grŵp dwyieithog yn ymateb yn gynt na'r grŵp uniaith ar ddau agwedd y dasg (cyn ac ar ôl newid), er nad oedd y gwahaniaeth rhwng y plant I1 Cymraeg a I1 Saesneg a'r plant Uniaith yn un arwyddocaol.

Gan mae plant o gartrefi Cytbwys wnaeth berfformio orau ar y dasg cyfnewid, awgrymai hyn bod sgiliau cyfnewid plant yr ymchwil presennol sy'n derbyn mewnbwn o'r ddwy iaith yn y cartref yn uwchraddol, fel mae ymchwil cyfredol wedi pwysleisio (e.e. Bialystok, 2009). Fe allwn ystyried felly ddadl Baker (2010) ynglŷn â chynnwys mwy o'r ddwy iaith (Cymraeg a Saesneg) o fewn y dosbarth er mwyn hybu sgiliau gwybyddol, drwy drawsieithu er enghraifft, gan i Yoshida (2008) awgrymu mae dyma'r ffordd ymlaen wrth blethu'r ddau gysyniad gyda'i gilydd: "a central issue in developing approaches to bilingualism and its effects on learning may not be the usual question-one language or two?-but rather a question of balance and of achieving excellence in both languages" (Yoshida, tud. 26, 2008).

Flanker (addasiad Kennedy, 2012 o Yang a Lust, 2004)

Tasg gyfrifiadurol oedd y Flanker oedd yn mesur elfen o sylw uwch-wybyddol y plant. Rhoddwyd dau brawf Flanker i'r plant - prawf traddodiadol ac addasedig (gweler Pennod 6). Ni welwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau iaith ar y prawf Flanker traddodiadol (o ran amser ymateb na lefel cywirdeb), ac, yn gyffredinol, nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol ar y prawf addasedig, er bod un agwedd o'r prawf wedi dangos canlyniadau arwyddocaol. Aiff y canlyniadau hyn yn groes i ddarganfyddiadau ymchwil cyfredol (Bialystok, 2006; Luk, De Sa, & Bialystok, 2011; Yang & Lust, 2004). Gwelir yr unig wahaniaeth arwyddocaol gyda'r ffactor 'amser ymateb cymedrig ar gyfer elfen ymatebion cywir ac anghywir' yn y treial cyfath yn y prawf Flanker addasedig. Roedd gwahaniaeth rhwng y grwpiau Uniaith a'r ddau grŵp I1 dwyieithog (I1 Cymraeg, I1 Saesneg), a rhwng y grŵp Cytbwys a'r ddau grŵp I1 dwyieithog. Roedd plant o gartrefi Cytbwys a phlant y grŵp rheolydd felly yn gyflymach yn ymateb (boed hynny'n gywir neu'n anghywir) i dreialau cyfath fersiwn addasedig y Flanker.

